



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Memorandwm Esboniadol Drafft

Yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft
a'r Nodiadau Esboniadol Drafft

Gorffennaf 2015

Memorandwm Esboniadol Drafft i Fil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol drafft hwn gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru a chaiff ei gyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Bil drafft hwn.

CYNNWYS

RHAN 1

1. Disgrifiad	3
2. Y cefndir deddfwriaethol	4
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael	9
4. Ymgynghori.....	30
5. Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth	40

RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL DRAFFT

6. Yr Opsiynau	56
7. Costau a manteision	65
8. Asesiad o'r gystadleuaeth	121
9. Adolygu ar ôl gweithredu	122

Atodiad A - Nodiadau Esboniadol Drafft

1. Disgrifiad

- 1.1 Bydd Bil drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd hyn yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae'r Bil drafft hefyd yn cynnal Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, gan ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru.

2. Y cefndir deddfwriaethol

- 2.1 Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau a nodir ym Mil drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 2006 yn cael eu nodi yn adran 108 ac Atodlen 7. O dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006, mae paragraff 5 yn nodi'r pynciau y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch o dan y pennawd "education and training". Mae paragraff 9 yn nodi'r pynciau y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch o dan y pennawd "health and health services" ac mae paragraff 15 yn nodi'r pynciau y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch o dan y pennawd "social welfare". Fe'i hatgynhyrchir isod:

Education and training

5. Education, vocational, social and physical training and the careers service. Promotion of advancement and application of knowledge.

Exception—

Research Councils.

Health and health services

9. Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service.

Exceptions—

Abortion.

Human genetics, human fertilisation, human embryology, surrogacy arrangements.

Xenotransplantation.

Regulation of health professionals (including persons dispensing hearing aids).

Poisons.

Misuse of and dealing in drugs.

Human medicines and medicinal products, including authorisations for use and regulation of prices.

Standards for, and testing of, biological substances (that is, substances the purity or potency of which cannot be adequately tested by chemical means).

Vaccine damage payments.

Welfare foods.

. . . Health and Safety Executive and Employment Medical Advisory Service and provision made by health and safety regulations.

Social welfare

15. Social welfare including social services. Protection and well-being of children (including adoption and fostering) [and of young adults]. Care of [children,] young adults, vulnerable persons and older persons, including care standards. Badges for display on motor vehicles used by disabled persons.

Exceptions—

Child support.

[Child trust funds, apart from subscriptions to such funds by—

(a) a county council or county borough council in Wales, or

(b) the Welsh Ministers.]

Tax credits.

Child benefit and guardian's allowance.

Social security.

[Independent Living Funds.

Motability.]

Intercountry adoption, apart from adoption agencies and their functions, and functions of "the Central Authority" under the Hague Convention on Protection of Children and Co-operation in respect of Intercountry Adoption.

The Children's Commissioner (established under the Children Act 2004 (c 31)).

Family law and proceedings, apart from—

(a) [welfare advice] to courts, representation and provision of information, advice and other support to children ordinarily resident in Wales and their families, and

(b) Welsh family proceedings officers.

Caiff Atodlen 108 o Ddeddf Cymru ei atgynhyrchu isod:

Legislative competence

(1) *Subject to the provisions of this Part, an Act of the Assembly may make any provision that could be made by an Act of Parliament.*

(2) *An Act of the Assembly is not law so far as any provision of the Act is outside the Assembly's legislative competence.*

(3) *A provision of an Act of the Assembly is within the Assembly's legislative competence only if it falls within subsection (4) or (5).*

(4) *A provision of an Act of the Assembly falls within this subsection if—*

(a) *it relates to one or more of the subjects listed under any of the headings in Part 1 of Schedule 7 and[, subject to subsection (4A),] does not fall within any of the exceptions specified in that Part of that Schedule (whether or not under that heading or any of those headings), and*

(b) *it neither applies otherwise than in relation to Wales nor confers, imposes, modifies or removes (or gives power to confer, impose, modify or remove) functions exercisable otherwise than in relation to Wales.*

[(4A) Provision relating to a devolved tax (as listed under the heading "Taxation" in Part 1 of Schedule 7) is not outside the Assembly's legislative competence by reason only of the fact that it falls within an exception specified under another heading in that Part of that Schedule.]

(5) *A provision of an Act of the Assembly falls within this subsection if—*

(a) *it provides for the enforcement of a provision (of that or any other Act of the Assembly) which falls within subsection (4) or a provision of an Assembly Measure or it is otherwise appropriate for making such a provision effective, or*

(b) *it is otherwise incidental to, or consequential on, such a provision.*

(6) But a provision which falls within subsection (4) or (5) is outside the Assembly's legislative competence if—

(a) it breaches any of the restrictions in Part 2 of Schedule 7, having regard to any exception in Part 3 of that Schedule from those restrictions,

(b) it extends otherwise than only to England and Wales, or

(c) it is incompatible with the Convention rights or with [EU] law.

(7) For the purposes of this section the question whether a provision of an Act of the Assembly relates to one or more of the subjects listed in Part 1 of Schedule 7 (or falls within any of the exceptions specified in that Part of that Schedule) is to be determined by reference to the purpose of the provision, having regard (among other things) to its effect in all the circumstances.

3. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.1 Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anawsterau a/neu anabledau dysgu yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 o flynyddoedd yn ôl. Nid yw'r model hwn bellach yn addas i'w ddiben. Mae ymchwiliadau ac adolygiadau gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a chyn Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch y ddarpariaeth AAA wedi barnu bod y system bresennol yn gymhleth, yn ddryslyd ac yn achosi gwrthdaro. Mae'r dystiolaeth yn disgrifio proses asesu sy'n aneffeithlon, yn fiwrocrataidd ac sy'n gostus ac nad yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn nac yn ddigon syml i'w defnyddio. Weithiau caiff anghenion eu nodi'n hwyr ac nid yw ymyriadau'n cael eu cynllunio na'u gweithredu'n brydlon neu'n effeithiol. Dywed teuluoedd fod yn rhaid iddynt frwydro i sicrhau'r gefnogaeth gywir ar gyfer eu plentyn ymhob cam o'r system ac nad ydynt yn gwybod at bwy y gallant droi i gael cyngor a gwybodaeth.

3.2 Roedd y Papur Gwyn 'Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol',¹ a gyhoeddwyd at ddiben ymgynghori ym mis Mai 2014, yn disgrifio sail resymegol holl gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer newid deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â gwendidau'r system bresennol. Mae'r gwendidau hyn yn cynnwys:

- Mae'r derminoleg bresennol yn achosi stigma i blant a phobl ifanc ac mae'n gysylltiedig â system y mae angen ei diwygio'n llwyr.
- Mae rhaniad aneglur rhwng y rhai y mae arnynt angen datganiadau AAA a'r rhai nad oes arnynt eu hangen.
- Golyga'r ffaith nad oes meini prawf clir ynghylch pryd y dylai datganiad AAA gael ei wneud a phwy ddylai gael datganiad fod cryn anghysondeb rhwng awdurdodau lleol o ran eu dulliau gweithredu.
- Bernir nad yw'r Cod Ymarfer AAA presennol yn cael ei weithredu'n llwyr bob amser neu fod gwahanol awdurdodau lleol yn ei ddehongli'n wahanol.
- Mae'n annheg fod y ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion mwy cymhleth wedi'i diogelu drwy ddatganiad ond nad yw'r ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion llai cymhleth wedi'i diogelu'n statudol.
- Gall ymddiriedaeth rhwng rhieni ac awdurdodau lleol neu ysgolion gael ei thanseilio, sy'n arwain at anghydfod.
- Mae'n anodd mabwysiadu dull hyblyg o safbwynt cyflenwi darpariaeth addysgol arbennig.

¹ Ceir copi o'r Papur Gwyn ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/consultations/education/proposals-for-additional-learning-needs-white-paper/?skip=1&lang=cy>

- Mae'n bosibl y gallai'r trefniadau presennol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu amharu ar drosglwyddiad didrafferth rhwng yr ysgol ac addysg ôl-16 a gallent olygu nad yw'r ddarpariaeth ôl-16 mor effeithlon ag y dylai fod.
- Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol i 'gymeradwyo' a 'chofrestru' ysgol annibynnol i dderbyn disgyblion ag AAA yn creu system effeithiol ar gyfer sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael nac ar gyfer pennu pwy sy'n gyfrifol am hyn.
- Mae rhai rhieni a theuluoedd yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o'r prosesau sydd ynghlwm wrth ddatganiadau AAA, sy'n brosesau a ystyrir yn rhai dyrys, biwrocrataidd ac aneffeithlon.
- Mae rhieni hefyd yn pwysleisio'r ffaith y gall y system fod yn rhy araf i addasu yn achos y plant sydd â datganiad ond y mae eu hanghenion yn newid neu y mae eu cyflwr yn gwella neu'n gwaethygu.
- Mae tystiolaeth o adroddiadau Estyn ac adolygiadau eraill o bolisi ar AAA wedi nodi bod y cydweithio rhwng asiantaethau amrywiol weithiau'n wan ac yn aneffeithlon.
- Nid yw camau adnabod ac ymyrryd bob amser yn cael eu cymryd ar yr adeg gynharaf.
- Gallai'r gefnogaeth arbennig sydd ei hangen ar blant a'u teuluoedd gael ei chynnig yn hwyr, a hynny heb fod angen.
- Nid yw swyddogaeth gydlynwyr bwysig Cydlynwyr AAA wedi'i diffinio'n dda a gall amrywio'n sylweddol.
- O safbwynt plant sy'n derbyn gofal, nid yw'r asesiad statudol AAA ond yn un o nifer o asesiadau ac nid yw'r prosesau unigol wedi'u hintegreiddio'n dda.
- Mae'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth a chynghor yn amrywio ar draws Cymru o safbwynt eu natur a'u heffeithiolrwydd.
- Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer datrys anghydfodau'n ddigon cadarn i sicrhau bod anghytundebau'n cael eu datrys yn gyflym neu'n cael eu hosgoi'n gyfan gwbl.
- Mae'r ffaith nad oes unrhyw broses apelio o safbwynt y gefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAA ond nad oes ganddynt ddatganiad yn golygu eu bod o bosibl o dan anfantais annheg.

- 3.3 Amcanion polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil drafft yw creu:
- a) fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed mewn ysgolion ac addysg bellach sydd ag ADY;
 - b) proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol;
 - c) system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chynghor ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau.
- 3.4 Er mwyn cyflawni'r tri amcan cyffredinol hyn mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu deg nod craidd sy'n sail i ddarpariaethau'r Bil drafft. Dyma'r nodau:
- 3.5 **Cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):** Mae'r Bil drafft yn defnyddio'r term newydd, sef ADY, yn lle'r termau 'anghenion addysgol

arbennig' (AAA) ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu'. Bydd hyn yn helpu i osgoi peth o'r stigma sydd ynghlwm wrth y termau presennol a bydd yn nodi newid clir o ystyried y systemau presennol y credwn fod angen eu newid yn sylweddol. Mae defnyddio ADY fel term unigol sy'n cwmpasu pob dysgwr 0-25 oed yn adlewyrchu'r cam tuag at system decach i gefnogi dysgwyr ag ADY mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a lleoliadau addysg bellach.

3.6 **Ystod oedran 0-25:** Mae'r Bil drafft yn dwyn ynghyd y systemau deddfwriaethol presennol a gwahanol ar gyfer cefnogi:

- a) plant a phobl ifanc o oedran ysgol gorfodol sydd ag AAA;
- b) pobl ifanc mewn addysg bellach sydd ag anableddau a/neu anawsterau dysgu.

Golyga hyn y bydd un system ddeddfwriaethol ar gyfer y gefnogaeth a gaiff ei rhoi i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY. Dylai hyn wella trosglwyddiad dysgwyr rhwng ysgolion a lleoliadau addysg ôl-16, gan sicrhau rhagor o gydraddoldeb o safbwynt cefnogaeth a hawliau ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.

3.7 **Cynllun unedig:** Mae'r Bil drafft yn creu cynllun statudol unigol (y cynllun datblygu unigol (CDU)) a fydd yn disodli'r gwahanol gynlluniau statudol ac anstatudol presennol ar gyfer AAA neu anableddau a/neu anawsterau dysgu i ddysgwyr mewn ysgolion ac addysg bellach (gan gynnwys datganiadau AAA, Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) ar gyfer dysgwyr a gefnogir gan Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau a gynhelir drwy asesiadau o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ('Deddf 2000')). Bydd hyn yn sicrhau rhagor o gysondeb a pharhad a bydd hefyd, yn wahanol i'r system bresennol, yn sicrhau bod darpariaeth a hawliau'n cael eu diogelu pa bynnag mor ddifrifol neu gymhleth yw'r anghenion.

3.8 **Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy:** Mae'n ofynnol o dan y Bil drafft fod barn dysgwyr, ynghyd â barn eu rhieni, yn cael ei hystyried bob amser fel rhan o'r broses gynllunio. Mae'n gwbl allweddol fod plant a phobl ifanc yn teimlo bod y broses gynllunio yn broses sy'n eu cynnwys yn hytrach na'n broses sy'n digwydd iddynt. Er mwyn sicrhau hyn caiff gwybodaeth, cyngor ac eirioli clir a diduedd eu darparu i blant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant gyfrannu.

3.9 **Dyheadau uchel a gwell deilliannau:** Dylai CDU ganolbwyntio ar sicrhau darpariaeth sy'n cyflawni deilliannau gweladwy. Bydd hyn yn cyfrannu'n ystyrlon at allu'r plentyn neu'r person ifanc i gyflawni hyd eithaf ei allu.

3.10 **System symlach sy'n achosi llai o wrthdaro:** Dylai'r broses o lunio ac adolygu CDU fod lawer yn symlach na'r sefyllfa bresennol o ran datganiadau AAA. Dylid osgoi'r modd y gall y dull presennol, sydd lawer yn rhy fiwrocrataidd, achosi gwrthdaro.

- 3.11 **Rhagor o gydweithredu:** Dylai'r system newydd gefnogi ein pwyslais cadarn ar gydweithredu. Bydd gan yr holl wasanaethau sy'n cynnwys elfen o gydweithio â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan gynnwys addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, swyddogaeth allweddol o safbwynt cydweithio i gynnig cymorth effeithlon ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer dysgwyr ag ADY. Yn benodol, bydd dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol neu Ymddiriedolaethau'r GIG i gyflenwi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y maent yn cytuno i'w sicrhau. Caiff y ddarpariaeth hon ei nodi mewn CDU. Bydd y diwygiadau'n annog asiantaethau i gydweithio rhagor a rhannu rhagor o wybodaeth â'i gilydd. Mae hyn yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu pennu'n gynnar a bod y gefnogaeth gywir yn cael ei darparu fel y gall plant a phobl ifanc gyflawni deilliannau positif.
- 3.12 **Osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach:** Os bydd anghytundebau ynghylch CDU neu'r ddarpariaeth o'i fewn dylai'r system newydd ganolbwyntio ar sicrhau bod y mater yn cael ei ystyried a'i ddatrys ar y lefel fwyaf leol bosibl.
- 3.13 **Hawliau clir a chyson i apelio:** Os na all anghytundebau ynghylch cynnwys CDU gael eu datrys yn lleol, bydd y Bil drafft yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc sydd â hawl i CDU (ynghyd â'u rhieni yn achos y rhai o dan 16 oed) yr hawl i apelio i dribiwnlys. Bydd y Bil drafft yn estyn yr hawl i apelio i ddysgwyr hyd at 25 oed sydd ag ADY.
- 3.14 **Cod gorfodol:** Bydd y Bil drafft yn ymateb i'r cais am God llawer cryfach y mae modd ei orfodi a bydd yn cynnwys darpariaethau a gaiff eu cefnogi gan God ADY newydd a statudol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau dull mwy cyson o gefnogi ADY. Bydd y Cod yn sicrhau bod gan y system newydd ar gyfer ADY ffiniau clir y mae modd eu gorfodi ar lefel gyfreithiol y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill hynny sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu o'u mewn. Bydd hefyd yn pennu canllawiau ymarferol ynghylch sut y gallwn ddisgwyl i ddyletswyddau statudol gael eu cyflawni. O'r herwydd math o is-ddeddfwriaeth fydd y Cod, a bydd yn rhoi dyletswyddau a hawliau i'r rhai a fydd yn ddarostyngedig iddo.

Y Cefndir a'r cyd-destun

- 3.15 Rhwng 2003 a 2007 cynhaliwyd adolygiad tair rhan o AAA gan gyn Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chafodd adroddiadau cysylltiedig eu cyhoeddi yn y drefn ganlynol:
- a) *Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar*, Tachwedd 2004;
 - b) *Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau)*, Mai 2006;
 - c) *Trosglwyddo*, Mawrth 2007.
- 3.16 Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn adroddiadau'r Pwyllgor yn seiliedig ar adroddiadau cynharach gan y Comisiwn Archwilio (Anghenion addysgol arbennig: Mater prif ffrwd, 2002) ac Estyn (Cymorth i Blant ag Anghenion Addysgol Arbennig: Trosolwg Estyn, 2003). Gyda'i gilydd, daeth yr

adroddiadau hyn i'r casgliadau canlynol mewn perthynas â'r system bresennol ar gyfer AAA:

- mae'r broses asesu sy'n gysylltiedig â datganiadau'n aneffeithlon, yn fiwrocataidd, yn gostus, nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn ac nid yw'n hawdd ei defnyddio;
- weithiau caiff anghenion eu nodi'n hwyr ac nid yw ymyriadau'n brydlon nac yn effeithiol;
- dywed teuluoedd fod yn rhaid iddynt yn aml frwydro i sicrhau'r gefnogaeth gywir ar gyfer eu plentyn ac nad ydynt yn gwybod at bwy y gallant droi i gael cyngor a gwybodaeth.

3.17 Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor, cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd ymgynghoriad cychwynnol ac eang ei gwmpas ar ddiwygiadau posibl i'r system bresennol o gefnogaeth ar gyfer AAA ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (Datganiadau neu Rywbeth Gwell, 2007). Wedi hynny, sefydlwyd amryw o brosiectau peilot i ddatblygu a threialu systemau a ffyrdd newydd o lywio polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol. Dyma rai ohonynt:

- pedwar cynllun peilot ar gyfer diwygio yn cynnwys wyth awdurdod lleol. Y nod oedd datblygu a threialu dull sy'n canolbwyntio ar unigolion (gan ddefnyddio CDU) ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA ynghyd â system newydd ar gyfer sicrhau ansawdd ac offeryn ar-lein ar gyfer cynllunio ac asesu;
- cynllun peilot 'hawl y plentyn i apelio' yn cynnwys dau awdurdod lleol.

3.18 Daeth gwaith gwerthuso o'r cynlluniau peilot ynghylch diwygio i'r casgliad y byddai ysgolion, y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol a llawer o deuluoedd yn croesawu cyflwyno CDU sy'n canolbwyntio ar unigolion. Eto i gyd, mynegwyd rhai pryderon ynghylch y goblygiadau a oedd ynghlwm wrth ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion o safbwynt capasiti staff a'r defnydd o offeryn ar-lein. Roedd diogelwch a phreifatrwydd yn bryderon sylweddol, ac yn arbennig i staff ym maes ieuchyd. Cefnogwyd yr egwyddorion a oedd yn ategu system newydd ar gyfer sicrhau ansawdd. Roedd angen integreiddio hyn yn yr agenda gyfan ar gyfer ysgolion er mwyn sicrhau bod gwaith monitro effaith yn effeithiol ac yn effeithlon. Ni ddylai fod yn ymarfer ar wahân ar gyfer monitro'r rhai ag AAA. Caiff adroddiadau ar y canfyddiadau eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/programme-action-research-additional-learning-needs-pilot/?lang=cy>

3.19 Yn dilyn gwaith y cynlluniau peilot ar ddiwygio, mae mwy a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud ar draws Cymru o ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag AAA. Mae Llywodraeth Cymru wedi hybu'r cynnydd hwn yn y defnydd drwy gomisiynu adnoddau electronig penodol ar gyfer Cymru. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn ysgolion a cholegau. Mae camau eisoes ar waith i sicrhau bod y gwaith o fonitro effaith ymyriadau'n rhan fwyfwy annatod o brosesau ehangach ar gyfer gwella ysgolion.

- 3.20 Amcan cynllun peilot 'hawl y plentyn i apelio' oedd peilota'r darpariaethau a oedd wedi'u cynnwys yn Mesur Addysg (Cymru) 2009 o safbwynt hawl plant i apelio mewn perthynas ag AAA a'u hawl i honni bod gwahaniaethu ar sail anabledd yn digwydd mewn ysgolion. Yn dilyn gwerthusiad positif o'r cynlluniau peilot, cyflwynwyd rheoliadau a oedd yn gweithredu'r hawliau a'r dyletswyddau a roddwyd gan y Mesur ar draws Cymru gyfan o 5 Ionawr 2015.
- 3.21 Yn ystod cyfnod y cynlluniau peilot, ac er mwyn cydnabod gwendidau a bennwyd ynghynt yn y system bresennol ynghylch AAA, roedd *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011, yn cynnwys ymrwymiad i 'ddiwygio'r broses o safbwynt Anghenion Dysgu Ychwanegol y plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed mewn un ai ysgol neu leoliad Addysg Bellach'. Yn unol â'i hymrwymiad cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2012 ddogfen ymgynghori, *Ymlaen mewn Partneriaeth dros Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol*, a ddisgrifiodd weledigaeth eang ar gyfer system ddiwygiedig. Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, sef Leighton Andrews AC, ym mis Medi 2012² y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio yn ddiweddarach yn nhymor y Cynulliad fel bod digon o amser i drafod goblygiadau'r cynigion mewn rhagor o fanylder â phartneriaid allweddol. Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau'r crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad 2012 a chyhoeddodd y byddai swyddogion yn ceisio rhagor o sylwadau gan randdeiliaid er mwyn datblygu ac ailystyried cwrdd ac effaith y cynigion a pha mor ymarferol fyddai eu gweithredu³. I'r perwyl hwn cynhaliwyd cyfres o weithdai yn ystod hydref 2013 gyda gwahanol randdeiliaid allanol a grwpiau proffesiynol er mwyn pennu dulliau ymarferol a realistig o gyflwyno diwygiadau effeithiol. Ceir crynodeb o'r trafodaethau ar wefan Llywodraeth Cymru:
<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/additoinal-learning-needs-reform/?skip=1&lang=cy>
- 3.22 Roedd darpariaethau ynghylch cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol, asesu anghenion addysgol ac anghenion o ran hyfforddiant dysgwyr ôl-16 ag anawsterau a/neu anableddau dysgu, a lleoliadau addysg bellach arbenigol o fewn cwrdd Bil Addysg (Cymru) o hyd. Fodd bynnag, mewn ymateb i geisiadau gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried pob darpariaeth AAA mewn corff unigol o ddeddfwriaeth, cafodd y darpariaethau eu dileu o'r Bil yn ystod trafodion Cyfnod 2 ym mis Ionawr 2014. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau bryd hynny y byddent yn cael eu cynnwys mewn Bil ar wahân a fyddai'n ymdrin â holl ystod y darpariaethau mewn perthynas ag ADY.
- 3.23 Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ei phasio gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn, gan effeithio ar waith cynllunio gofal cymdeithasol a hefyd bennu gwerthoedd craidd sydd yn berthnasol yn ogystal i'r cynigion ynghylch ADY. Ar yr un pryd cafodd y sail

² <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2012/senframework/?lang=cy>

³ <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2013/sen/?lang=cy>

ddeddfwriaethol a arferai gael ei rhannu ar gyfer AAA ar draws Cymru a Lloegr ei haddasu yn sgil pasio Deddf Plant a Theuluoedd 2014. Gwnaeth y Ddeddf hon ddiwygio'r gwaith o gynllunio a darparu mewn perthynas ag AAA yn Lloegr a gwnaeth dynnu sylw at rai materion newydd a goblygiadau trawsffiniol.

- 3.24 Gan ddefnyddio casgliadau'r ymgynghoriadau blaenorol a'r cyswllt â rhanddeiliaid ac ystyried y cyd-destun sydd bellach wedi newid, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru at ddiben ymgynghori ar 22 Mai 2014 Bapur Gwyn o'r enw *Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol*. Daeth yr ymgynghoriad naw wythnos ar y we i ben ar 25 Gorffennaf 2014. Cafodd fersiwn o'r ymgynghoriad i bobl ifanc hefyd ei lunio a'i ddosbarthu a chynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn ceisio casglu sylwadau gan blant a phobl ifanc.
- 3.25 Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Hydref 2014. At ei gilydd, cafodd cynigion Llywodraeth Cymru eu croesawu gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Cafodd pwysigrwydd egwyddorion sylfaenol, fel yr angen i wrando ar blant a phobl ifanc ac i gydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth weithredu system ddiwygiedig, ei bwysleisio gan randdeiliaid. Yn ogystal, roedd cefnogaeth arbennig ar gyfer:
- mabwysiadu'r term arfaethedig Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a gaiff ei ystyried yn derm mwy cynhwysol;
 - cyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU), gydag ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod cynlluniau'n ddogfennau hyblyg a 'byw' y mae modd eu haddasu er mwyn bodloni anghenion newidiol dysgwyr;
 - y cynnig y dylai pob person ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY fod â hawl i gynllun statudol unigol. Pwysleisiwyd y manteision y byddai system unedig yn eu cyflawni o safbwynt gwella'r gwaith o gynllunio trosglwyddiadau.
- 3.26 Mae nifer o ddatblygiadau polisi eraill a sylweddol wedi digwydd yn ystod y cyfnod a fydd yn effeithio ar y modd y caiff y diwygiadau arfaethedig eu gweithredu ac sy'n berthnasol wrth i'r darpariaethau arfaethedig gael eu hystyried.
- 3.27 Ym mis Mawrth 2014 penododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yr Athro Graham Donaldson i arwain adolygiad cynhwysfawr ac annibynnol o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad yr Athro Donaldson sef *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Mae'r ddogfen hon yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer dull newydd cwbl gynhwysol a dilyd o fynd i'r afael â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Mae dull o'r fath yn cydnabod pwysigrwydd dulliau sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr ac asesiadau gan athrawon sy'n cefnogi anghenion dysgu pob dysgwr. Mae argymhellion yr adroddiad yn radical ac yn eang eu cwrmpas a'u nod yw creu gweledigaeth o berson ifanc llwyddiannus sy'n cwblhau ei addysg statudol. Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru'n

cynnal "Sgwrs Fawr" ar addysg yng Nghymru. Daeth cyfnod cyntaf y sgwrs i ben ar 8 Mai 2015.

- 3.28 Ym mis Mawrth 2015 cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau 'Fargen Newydd i'r Gweithlu Addysg'. Nod y Fargen Newydd yw cefnogi athrawon, arweinwyr a staff cymorth â'u datblygiad proffesiynol gydol eu gyrfaedd, ac mae'n rhoi pwyslais ar wella gallu athrawon ac ysgolion i fodloni'n well anghenion dysgu pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY.
- 3.29 Yn ogystal â'r Fargen Newydd, mae'r adroddiad *Addysgu Athrawon Yfory* a luniwyd gan yr Athro John Furlong yn nodi'n glir nad oes modd gwadu'r angen i ddiwygio hyfforddiant athrawon yng Nghymru er mwyn codi safonau a chyflawni gweledigaeth yr Athro Graham Donaldson o gwricwlwm ar gyfer Cymru. Gofynnwyd i'r Athro Furlong edrych yn ofalus ar y modd y caiff hyfforddiant athrawon ei drefnu yng Nghymru, y dystiolaeth o blaid newid, a'r mesurau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi system o'r radd flaenaf ar gyfer hyfforddi athrawon yng Nghymru a all gystadlu â'r gorau yn y byd.
- 3.30 Mae capasiti'r gweithlu wedi cael ei bwysleisio gydol y cyfnod ymgynghori fel mater sy'n destun pryder ac mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw ato. O'r herwydd, cytunodd y Gweinidog y dylai camau ymyrryd cynnar gael eu cymryd, cyn i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno, er mwyn helpu i ddatblygu'r gweithlu. I'r perwyl hwn cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'n ddiweddar adroddiad sef *Asesiad o Ofynion Datblygu'r Gweithlu Anghenion Addysgol Arbennig*. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn datblygu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ymarferwyr dros y blynyddoedd nesaf, gan geisio bodloni'r anghenion a bennwyd yn yr adroddiad o safbwynt datblygu'r gweithlu, a bodloni anghenion dysgwyr ag ADY.
- 3.31 Gan adlewyrchu'r angen i ddatblygu'r gweithlu ac adeiladu ar y prosiect peilot llwyddiannus, penderfynwyd yn ogystal y dylid mynd ati i sicrhau defnydd cyson o ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion. Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion yn sail i'r broses gynllunio newydd arfaethedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu contract ar gyfer datblygu adnoddau a fydd yn cefnogi rhagor o ddefnydd o ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion gyda phlant a phobl ifanc sydd ag AAA. I'r perwyl hwn mae'n cydweithio â llywodraeth leol er mwyn cytuno ar y dull gweithredu gorau. Bydd sefydlu ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ei gwneud hi'n haws i weithredu darpariaethau'r Bil drafft.

Y cyd-destun deddfwriaethol

- 3.32 Caiff deddfwriaeth mewn perthynas ag AAA ei nodi yn Rhan IV o Ddeddf Addysg 1996. Er bod y diffiniad o AAA yn berthnasol i blant a phobl ifanc ag anghenion amrywiol iawn mae'r ddeddfwriaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar y plant a'r bobl ifanc hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth ac sydd â hawl i ddatganiad AAA gan yr awdurdod lleol. Ym mis Ionawr 2014 roedd gan 105,303 o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru rhyw ffurf ar AAA, sy'n gyfystyr ag oddeutu 22 y cant o holl ddisgyblion Cymru. Fodd

bynag, dim ond 12,530 o'r disgyblion ag AAA oedd â datganiad, sy'n gyfystyr â 2.7 y cant o'r holl ddisgyblion.

- 3.33 Ceir canllawiau statudol ynghylch AAA yng Nghod Ymarfer AAA Cymru. O safbwynt y plant ag AAA nad oes ganddynt ddatganiad, mae'r Cod yn nodi canllawiau mewn perthynas ag ymyriadau sydd un ai'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o strategaethau cwricwlwm arferol a phenodol yr ysgol neu'r lleoliad blynyddoedd cynnar neu'n wahanol iddynt. Gelwir y rhain yn 'Gweithredu gan yr Ysgol' neu 'Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar. Lle y mae ysgol neu leoliad y blynyddoedd cynnar yn ceisio cymorth gan wasanaethau cymorth allanol, fe'i gelwir yn 'Gweithredu gan yr ysgol a mwy' neu 'Gweithredu yn y blynyddoedd cynnar a mwy'. Nid oes unrhyw ganllawiau wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.
- 3.34 Mae'r ddeddfwriaeth ynghylch dysgwyr ôl-16 mewn Addysg Bellach sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu wedi'i chynnwys yn Neddf 2000. Mae dyletswydd gyffredinol ar Weinidogion Cymru ar hyn o bryd o dan adrannau 31 a 32 o Ddeddf 2000 i sicrhau 'darpariaeth briodol' ar gyfer addysg a hyfforddiant dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed, a 'chyfleusterau rhesymol' ar gyfer y rhai dros 19 oed. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau llety byrddio ar gyfer plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu os nad oes modd iddynt fel arall sicrhau cyfleusterau ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n ddigonol o ran cwrdd ac o ran ansawdd ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 ac 19 oed neu gyfleusterau rhesymol ar gyfer y rhai rhwng 19 a 25 oed. Mae Adran 140 o Ddeddf 2000 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i drefnu bod pobl ifanc sydd â datganiadau AAA yn cael eu hasesu, os ydynt yn debygol o adael yr ysgol ar ddiwedd y flwyddyn olaf o addysg orfodol i dderbyn addysg neu hyfforddiant ôl-16 neu addysg uwch. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud hynny mewn perthynas â'r rhai hyd at 25 oed nad oes ganddynt ddatganiad AAA ond yr ymddengys fod ganddynt anhawster dysgu.
- 3.35 O dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 mae'n rhaid i ysgolion annibynnol fod wedi'u cofrestru ac mae'n rhaid i gais i ychwanegu ysgol annibynnol at y gofrestr gynnwys gwybodaeth sy'n nodi a yw'r ysgol yn derbyn disgyblion ag AAA. Nododd Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 y safonau y caiff ysgol annibynnol ei harolygu arnynt.
- 3.36 Yn ogystal â'r broses gofrestru, o dan adran 347 o Ddeddf Addysg 1996, gall Gweinidogion Cymru gymeradwyo ysgol annibynnol i dderbyn plant â datganiad AAA yn gyffredinol; neu roi caniatâd unigol i dderbyn plentyn â datganiad AAA, lle nad yw'r ysgol dan sylw wedi'i chymeradwyo. Mae Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994 yn rhagnodi'r gofynion y mae gofyn i ysgol annibynnol gydymffurfio â hwy fel amod i'w chymeradwyo fel ysgol addas ar gyfer derbyn plant sydd â datganiadau AAA. Mae angen i ysgol annibynnol fod wedi cofrestru o dan adran 160 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2002 a'i chymeradwyo o dan adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 er mwyn gallu derbyn plentyn â datganiad AAA.

- 3.37 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') yn creu cyfleoedd i wella'r cysylltiad rhwng ADY a chynllunio gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant a arferai dderbyn gofal. Mae Deddf 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu a pharhau i adolygu cynlluniau gofal a chefnogaeth ar gyfer plant ac oedolion sydd ag 'anghenion cymwys' neu sydd o fewn un o'r categorïau 'pasportio' ee plant sy'n derbyn gofal.
- 3.38 Mae Adran 83(8) o Ddeddf 2014 yn cynnwys darpariaeth sy'n nodi y caiff awdurdod lleol wneud y canlynol os bydd plentyn yn dechrau derbyn gofal ganddo:
- a) paratoi, adolygu neu ddiwygio gynllun gofal a chefnogaeth tra'u bo hwy neu gorff arall yn paratoi, adolygu neu ddiwygio dogfen arall yn achos y person dan sylw;
 - b) cynnwys y ddogfen arall yn y cynllun.
- 3.39 Mae hyn yn galluogi cynllunio integredig, gan sicrhau bod anghenion unigol plant a phobl ifanc yn cael eu bodloni. Yn ogystal, mae Deddf 2014 yn gosod dyletswydd ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau i geisio hybu llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chefnogaeth. Mae Adran 2(2) o Ddeddf 2014 yn diffinio "llesiant" fel llesiant mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a hamdden (ymysg eraill). Yn ogystal, o dan adran 2(3), mae "llesiant" mewn perthynas â phlentyn (a ddiffinnir fel person o dan 18 oed) hefyd yn cynnwys datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. Mae Adran 78(2)(a) o Ddeddf 2014 yn nodi bod dyletswydd awdurdod lleol i ddiogelu a hybu llesiant plentyn sy'n derbyn gofal ganddo yn cynnwys dyletswydd i hybu cyflawniad addysgol y plentyn.

Ar bwy y bydd y Bil drafft yn effeithio?

- 3.40 Plant a phobl ifanc ag ADY fydd yn elwa'n uniongyrchol ar ddarpariaethau'r Bil drafft. Bydd yn creu system ar eu cyfer a fydd yn ceisio sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hasesu a bod cynllunio ar gyfer y ddarpariaeth sydd ei hangen i fodloni'r anghenion hynny yn digwydd ar y cyd ac mewn modd cyson a chydadd.
- 3.41 Bydd gofyn i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru weithredu'n unol â fframwaith statudol newydd. Mae hyn yn disodli'r fframweithiau statudol a sefydlwyd gan Ddeddf 1996 mewn perthynas ag addysg ysgol ac addysg cyn ysgol a chan Ddeddf 2000 mewn perthynas ag addysg bellach.
- 3.42 Bydd ymarferwyr, athrawon a chynorthwyyr addysgu perthnasol ynghlwm wrth bennu ADY a'r darpariaethau ar gyfer cefnogi addysg y dysgwr. Yn ogystal, mae'r Bil drafft yn pennu bod gofyn i bob ysgol a gynhelir (gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCD)) a sefydliadau addysg bellach ddynodi Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- 3.43 Ymysg y cyrff eraill y bydd ganddynt swyddogaethau o dan y fframwaith

deddfwriaethol newydd fydd Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, Timau Troseddau Ieuencid a Thribiwnlys Addysg Cymru (yr ail yw Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig presennol Cymru a fydd yn cael ei ailenwi gan y Bil drafft). Bydd y rhan fwyaf o'r swyddogaethau hyn yn cyfateb yn union i'r swyddogaethau a gaiff eu harfer gan y cyrff hyn o dan ddeddfwriaeth bresennol neu byddant yn debyg iawn iddynt. Bydd darpariaeth newydd neu ddarpariaeth ddiwygiedig mewn perthynas â chofrestru neu gymeradwyo yn effeithio ar ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbennig. Yn olaf, bydd elfen o waith Gyrfa Cymru mewn perthynas â chynnal asesiadau addysg a hyfforddiant ôl-16 ar ran Gweinidogion Cymru yn dod i ben yn sgil y newidiadau a gaiff eu cyflwyno gan y Bil drafft. Bydd dyletswydd amodol ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a chyrff y GIG yn Lloegr i helpu awdurdod lleol yng Nghymru mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau'r ail gorff o dan y Bil drafft hwn.

Cynllun gweithredu a chyflenwi

- 3.44 Caiff elfennau allweddol y fframwaith statudol newydd eu hamlinellu ar wyneb y Bil drafft a byddant yn cychwyn naill ai pan roddir Cydsyniad Brenhinol neu yn unol â gorchmynion cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru.
- 3.45 Mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Cod ar ADY, ymgynghori yn ei gylch a'i gyhoeddi. Bydd y Cod yn cynnwys darpariaethau ynghylch arfer swyddogaethau a wneir o dan y Bil drafft. Mae'n rhaid gosod y Cod hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n gosod fersiwn ddrafft derfynol o'r Cod os bydd y Bil drafft yn dod yn Ddeddf.
- 3.46 Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu mynd ati'n raddol i weithredu'r fframwaith statudol newydd er mwyn sicrhau bod sefydliadau ac ymarferwyr yn deall y system newydd a'u bod yn gallu rheoli a throsglwyddo'n effeithiol ddysgwyr o'r system bresennol i'r system newydd. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cydweithio â phartneriaid cyflenwi allweddol ar ddatblygu cynllun gweithredu a chefnogi partneriaid gydol y cyfnod gweithredu.
- 3.47 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r egwyddor na ddylai unrhyw blentyn na pherson ifanc, wrth iddo drosglwyddo o'r system bresennol i'r system newydd, golli ei ddarpariaeth neu warchodaeth statudol sy'n ofynnol ar gyfer bodloni ei anghenion.

Rhychwant tiriogaethol

- 3.48 Mae'r Bil drafft hwn yn berthnasol i Gymru ac i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru ac sy'n derbyn eu haddysg yn Lloegr. Mae swyddogion o Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru'n cydweithio â swyddogion o Adran Addysg Llywodraeth y DU i lunio canllawiau ar gefnogi plant a phobl ifanc Cymreig sy'n mynychu sefydliad addysg yn Lloegr ac i'r gwrthwyneb.

- 3.49 Bydd y Cod yn pennu canllawiau ymarferol ynghylch sut y dylai anghenion addysgol dysgwyr a gaiff eu haddysgu yn Lloegr ond sy'n byw yng Nghymru gael eu bodloni.

Trosolwg o'r Bil drafft

- 3.50 Mae gweddill y bennod hon yn esbonio elfennau'r fframwaith statudol newydd, ynghyd â darpariaethau'r Bil drafft, mewn rhagor o fanylder. Caiff y rhain eu pennu drwy gyfeiriad at y nodau craidd a amlinellir ym mharagraff 3.3 – 3.14.

Cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

- 3.51 Mae'r Bil drafft (adran 1) yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y term 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY) a fydd yn disodli'r termau presennol 'anghenion addysgol arbennig' (AAA), 'anawsterau a/neu anableddau dysgu' ac mae'n ei gwneud hi'n bosibl i ddefnyddio'r term mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc o unrhyw oedran. At ddibenion y Bil drafft, plentyn yw person nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol a pherson ifanc yw person hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond sy'n iau na 25 oed.
- 3.52 Bydd defnyddio term unigol ar draws yr ystod oedran 0 i 25 oed yn pwysleisio cydlyniaeth y system newydd ac yn sicrhau rhagor o gydraddoldeb ar gyfer dysgwyr. Bydd hyn yn helpu i osgoi peth o'r stigma sydd ynghlwm wrth y termau presennol a bydd yn nodi newid clir o'r systemau presennol.
- 3.53 Mae'r Bil drafft (adran 3) hefyd yn defnyddio'r term 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' a fydd yn disodli'r term 'darpariaeth addysgol arbennig'. Eto i gyd, mae'r diffiniad yn debyg iawn i'r diffiniad presennol o ddarpariaeth addysgol arbennig - hynny yw darpariaeth sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth addysgol neu'r ddarpariaeth hyfforddiant a wneir yn gyffredinol ar gyfer plant neu bobl ifanc o'r un oedran neu ddarpariaeth sy'n wahanol i hynny, ac eithrio mewn ysgolion arbennig.

Ystod oedran 0-25

- 3.54 Mae'r Bil drafft yn disodli Rhan 4 o Ddeddf 1996, a sefydlodd y system bresennol o ran AAA ar gyfer ysgolion ac addysg cyn-16 yn gyffredinol. Mae hefyd (yn adran 28) yn diwygio adran 41 ac yn diddymu adran 140 o Ddeddf 2000. Mae'r ddwy adran yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ac addysg bellach. Yn eu lle mae'r Bil drafft (adrannau 8-12) yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod yr un cynllun statudol yn cael ei roi i ddysgwyr ag ADY, os ydynt mewn addysg ysgol neu addysg bellach neu'n debygol o fod mewn addysg ysgol neu addysg bellach. O'r herwydd bydd yn sicrhau sail gydradd i'r systemau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY mewn ysgolion ac addysg bellach a dylai wella'r trosglwyddiad rhwng ysgolion ac addysg ôl-16.
- 3.55 Golyga darpariaethau'r Bil drafft ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau

addysg neu hyfforddiant ôl-16 arbenigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc lle y mae'r CDU yn nodi bod hyn yn angenrheidiol er mwyn bodloni ei anghenion. Caiff y cyfrifoldeb hwn ei drosglwyddo oddi wrth Weinidogion Cymru a bydd hyn yn gwella'r broses drosglwyddo, gan annog awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 i gydweithio er mwyn gwella, sicrhau cefnogaeth a chynllunio'n well ar gyfer darpariaeth leol sy'n berthnasol i anghenion unigol plant a phobl ifanc ag ADY. Byddai hefyd yn rhagor o gymhellant i awdurdodau lleol o safbwynt ffurfio'r cysylltiadau rhwng adrannau addysg ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol sydd eu hangen er mwyn galluogi plentyn neu berson ifanc i drosglwyddo'n effeithiol i addysg bellach. Byddai'r cyllid presennol yn cael ei drosglwyddo o Lywodraeth Cymru i'r Grant Cynnal Refeniw er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd o ran sicrhau darpariaeth ôl-16 arbenigol. Mae manylion ynghylch swm y cyllid a'r trefniadau trosglwyddo'n ddarostyngedig i drafodaethau drwy'r Is-grŵp Dosbarthu. Mae pob trosglwyddiad i'r Grant Cynnal Refeniw'n ddarostyngedig i drafodaethau drwy'r grŵp hwn sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Llywodraeth Cymru ynghyd â phedwar aelod annibynnol.

Cynllun unedig

- 3.56 Mae'r Bil drafft yn cyflwyno CDU statudol (adrannau 8-13) ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY. Ni fydd Datganiadau, Cynlluniau Addysg Unigol na Chynlluniau Dysgu a Sgiliau'n bodoli mwyach.
- 3.57 Bydd y CDU'n disgrifio ADY y plentyn neu'r person ifanc ynghyd â'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer bodloni'r anghenion hynny (adran 8). Fel rheol caiff CDU eu paratoi, eu cynnal a'u hadolygu gan yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei fynychu, yn dilyn penderfyniad gan y corff hwnnw fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY (adrannau 9-10). Yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach fydd gan amlaf yn cyflawni'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y CDU. Mewn achosion lle na all yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach bennu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, lle na fyddai'n bosibl iddynt sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol, neu os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynychu lleoliad o'r fath, yr awdurdod lleol fyddai'n gyfrifol am bennu'r ADY, paratoi ac adolygu'r CDU a sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o'i fewn (adran 12).
- 3.58 Bydd gan awdurdodau lleol bwerau a dyletswyddau yn ogystal, o dan rai amgylchiadau, mewn perthynas ag ailystyried penderfyniadau gan ysgolion ynghylch ADY. Gallant ysgwyddo cyfrifoldebau am CDU a arferai gael eu cynnal gan ysgol neu sefydliad addysg bellach, a hefyd gyfarwyddo ysgol i baratoi a/neu gynnal CDU (adrannau 17-19). Byddai'n rhaid i CDU gael eu hadolygu bob 12 mis, fan lleiaf, ond dylent gael eu hadolygu fel y bo angen, neu ar gais, a fydd yn fwy aml na phob 12 mis mewn sawl achos (adran 15). Byddem yn disgwyl i'r ymyriadau a nodir yng nghynllun gweithredu'r CDU gynnwys y cerrig milltir a fydd yn ysgogi adolygiad o'u heffeithiolrwydd.
- 3.59 Mae'r Bil drafft (adrannau 17, 18 a 21) yn galluogi plentyn, person ifanc neu

riant plentyn i ofyn am y canlynol:

- a) fod awdurdod lleol yn ailystyried penderfyniad a wneir gan ysgol ynghylch a oes ganddo/ganddi anghenion dysgu ychwanegol;
- b) bod ei CDU yn cael ei adolygu;
- c) bod awdurdod lleol yn ystyried cymryd cyfrifoldeb am CDU a gynhelir gan ysgol neu sefydliad addysg bellach;
- d) bod awdurdod lleol yn ailystyried penderfyniad ysgol i roi'r gorau i gynnal CDU.

- 3.60 Lle nad yw awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r cais, mae'r Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo roi hysbysiad ysgrifenedig ynghylch hynny i'r plentyn neu'r person ifanc a'i riant. Mae'n rhaid i'r hysbysiad hefyd hysbysu'r plentyn/person ifanc/rhiant ynghylch ei hawl i apelio.
- 3.61 Mae'r Bil drafft yn caniatáu (adran 26) i awdurdod lleol enwi ysgol a gynhelir yng Nghymru yn y CDU at ddibenion sicrhau mynediad i'r ysgol honno lle y mae'n fodlon bod buddiannau'r plentyn yn golygu bod gofyn i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y CDU gael ei chynnig yn yr ysgol honno. Mae hefyd yn gosod dyletswydd gysylltiedig ar ysgolion i dderbyn disgyblion o dan yr amgylchiadau hyn. Mae'r Bil drafft (adran 30) hefyd yn grymuso awdurdodau lleol i drefnu bod darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei chynnig mewn lleoliad heblaw am ysgol neu wneud trefniadau o'r fath (adran 36) fel y bo'n briodol er mwyn galluogi plentyn neu berson ifanc y maent yn gyfrifol amdano i fynychu sefydliad y tu allan i Gymru neu Loegr sy'n arbenigo mewn cynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer bodloni anghenion y plentyn neu'r person ifanc.
- 3.62 Lle y mae disgybl neu fyfyrwr sydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol wedi'i gofrestru mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach, mae'r Bil drafft (adran 25) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynhwysir yn y CDU. Eto i gyd, yr awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU fydd yn bennaf gyfrifol am sicrhau'r ddarpariaeth honno.
- 3.63 Byddai modd i'r cyrff hynny sy'n gyfrifol am gynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc roi'r gorau i gynnal y CDU hwnnw lle nad oedd bellach angen iddynt ei gynnal (adran 20) neu ei drosglwyddo i gorff arall (adran 23) lle'r oedd hynny'n briodol (er enghraifft, lle'r oedd plentyn neu berson ifanc wedi newid ysgol neu wedi trosglwyddo o ysgol i addysg bellach).
- 3.64 Lle y caiff plentyn neu berson ifanc ei gadw'n gaeth o fewn llety ieuenctid perthnasol a bod ganddo ADY, mae'r Bil drafft (adrannau 58 a 61) yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod gofyn i'w awdurdod cartref sicrhau CDU a threfnu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol angenrheidiol, yn unol â CDU adeg ei ryddhau. Os oes gan blentyn neu berson ifanc ADY a'i fod yn cael ei gadw'n gaeth, mae'r Bil drafft (adran 60) yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod yn rhaid i'r awdurdod cartref gynnal y CDU tra bo'r person wedi'i gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol a threfnu pa bynnag ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n briodol iddynt.

- 3.65 Effaith y darpariaethau hyn fydd gwaredu'r anghysondebau a'r annhegwch sy'n deillio o'r categorïau statudol ac anstatudol presennol o AAA, a'r gwahanol systemau ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Trwy gyflwyno cynllun unigol i gwmpasu sbectrwm eang o angen, bydd y system newydd yn fwy hyblyg ac yn gallu ymateb yn well gan y bydd yn haws i addasu CDU dros amser er mwyn adlewyrchu unrhyw newid o ran anghenion neu amgylchiadau. Yn fwyfwy, bydd yn gwaredu'r ansicrwydd ynghylch pryd y dylai datganiad gael ei wneud ac ar gyfer pwy ddylai gael ei wneud a'r ansicrwydd sy'n deillio o hyn. Bydd hefyd yn sicrhau dilyniant i ddysgwyr wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol i addysg bellach.

Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy

- 3.66 Mae'r Bil drafft (adran 6) yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod sylwadau, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn elfen graidd o'r system newydd ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc, a'u rhieni, yn chwarae rhan mor lawn â phosibl yn y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'u ADY a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gânt.
- 3.67 Bydd hyn yn rhoi sail statudol i bolisi presennol Llywodraeth Cymru o hybu'r arfer o ganolbwyntio'n llawer mwy ar unigolion wrth nodi anghenion a'r camau priodol ar gyfer bodloni'r anghenion hynny. Byddai'n helpu i sicrhau bod CDU yn cael eu datblygu yn unol ag egwyddorion meddwl a chynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion. Er mwyn hwyluso hyn, mae'r Bil drafft (adran 7) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol drefnu bod gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system a ddisgrifir yn y Bil drafft yn cael ei ddarparu i blant, pobl ifanc ac eraill. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r trefniadau hynny a fydd yn effeithio arnynt, gan sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyngor yma'n cael ei ddosbarthu fel y bo'n briodol ac mewn modd hygyrch i bawb sydd ei angen.
- 3.68 Er mwyn sicrhau bod modd i blant a phobl ifanc arfer yn llawn eu hawl i apelio o dan y Bil drafft hwn, neu i fod yn rhan o weithdrefnau datrys anghytundeb sy'n ofynnol oddi tano, mae'r Bil drafft (adran 38) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod modd iddynt fanteisio ar wasanaethau eirioli annibynnol. Dyma wasanaethau sy'n cynnig cyngor a chymorth i blentyn neu berson ifanc sy'n cyflwyno, neu'n bwriadu cyflwyno, apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru ("y Tribiwnlys"), sy'n ystyried a ddylai gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys o dan yr adran honno, neu sy'n cymryd rhan neu'n bwriadu cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer datrys anghydfod.
- 3.69 Mae'r Bil drafft (adran 39) hefyd yn ei gwneud hi'n bosibl i gyflwyno rheoliadau er mwyn darparu ar gyfer ffrindiau achos a allai gyflwyno sylwadau ar ran plentyn neu berson ifanc, er mwyn osgoi neu ddatrys anghytundebau ynghylch y modd y mae awdurdodau lleol yn arfer eu swyddogaethau ADY, neu arfer ar ran y plentyn neu'r person ifanc ei hawl i gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys.

Dyheadau uchel a gwell deilliannau

- 3.70 Mae dynodi unigolyn (neu grŵp o unigolion) o fewn pob lleoliad yn gwbl allweddol ar gyfer datblygu diwylliant o ddyheadau uchel. Rôl yr unigolyn neu'r grŵp hwn fyddai cydgysylltu gwaith cynllunio ac ymyriadau mewn perthynas ag ADY a sicrhau bod safonau ynghylch cynllunio, gosod targedau a chanolbwyntio ar ddeilliannau'n cael eu cyflwyno'n gyson a'u hybu. Yn ogystal, mae'r Bil drafft (adran 46) yn pennu bod gofyn i bob ysgol a gynhelir (gan gynnwys meithrinfeydd a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion) a sefydliadau addysg bellach ddynodi Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Caiff swyddogaeth bresennol y Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig ei dehongli'n wahanol ar draws gwahanol leoliadau ac awdurdodau. Mae hefyd yn estyn y rôl i leoliadau addysg nad oedd ganddynt Gydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig cyn hynny.
- 3.71 Yn fwyfwy, bydd y Bil drafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer creu'r CDU, fel bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o'i fewn yn canolbwyntio'n sylweddol ar ddeilliannau yn hytrach nag ar ddarparu'n unig.
- 3.72 Mae'r Bil drafft yn caniatáu i awdurdodau lleol leoli plant a phobl ifanc mewn ysgolion annibynnol neu golegau ôl-16 arbenigol ac annibynnol lle y mae hynny'n angenrheidiol ac yn briodol o ystyried ADY yr unigolyn.
- 3.73 Fodd bynnag, caiff awdurdodau lleol (adran 32) eu gwahardd rhag lleoli dysgwr ag ADY mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru i gynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer bodloni'r ADY, fel y nodir yn CDU y dysgwr. Bydd diddymu adran 347 (adran 35 o'r Bil drafft) o Ddeddf Addysg 1996 ac atgyfnerthu'r modd y mae ysgolion annibynnol yn cofrestru i dderbyn dysgwyr, o dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002 (adran 31), yn gwaredu'r dyblygu diangen a'r dryswch rhwng y ddwy drefn, gan alluogi system glir ac unigol ar gyfer cofrestru. Rydym yn cynnig diwygio adran 160 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol sy'n dymuno derbyn disgyblion sydd wedi'u pennu fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ddangos fel rhan o'r broses gofrestru y gall gynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol. Byddwn hefyd yn cyhoeddi'r gofrestr o ysgolion annibynnol. Bydd hyn, ynghyd â'r camau a ddisgrifir uchod ar gyfer cryfhau'r broses gofrestru, yn disgrifio'n glir i Awdurdodau Lleol a rhieni dysgwyr ag ADY y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gall ysgol ddarparu ar ei chyfer. Bydd hyn yn lleihau'r risg y gallai dysgwyr ag ADY gael eu lleoli'n amhriodol mewn ysgol annibynnol. Mae Estyn yn monitro ysgolion annibynnol bob blwyddyn, a bydd ganddi hi swyddogaeth o safbwynt sicrhau bod modd i ysgolion annibynnol gynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y maent wedi'u cofrestru i'w chynnig.
- 3.74 Yn yr un modd, caiff awdurdodau lleol eu gwahardd rhag lleoli dysgwr mewn coleg arbenigol ac annibynnol yng Nghymru neu Loegr oni bai y caiff y coleg ei gynnwys ar restr o golegau o'r fath a sefydlwyd o dan ddarpariaethau a gaiff eu cynnwys yn y Bil drafft hwn (adran 33). Ar hyn o bryd caiff y meini prawf gofynnol eu pennu gan contract cyllido rhwng colegau arbenigol annibynnol a Gweinidogion Cymru. Bydd y darpariaethau yn y Bil drafft hwn

yn sicrhau y bydd unrhyw leoliad annibynnol a gyllidir gan awdurdodau lleol i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol yn parhau i fodloni'r meini prawf gofynnol. Bydd y meini prawf hyn yn gwbl dryloyw a chânt eu pennu mewn rheoliadau. Bydd hefyd yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol y bydd anghenion y plentyn neu'r person ifanc sydd ag ADY ac a leolir yn y math hwn o leoliad addysg yn cael eu bodloni. Bydd gofyn i awdurdodau lleol dalu unrhyw ffioedd a fydd yn deillio o leoli'r plentyn neu'r person ifanc mewn ysgol neu goleg annibynnol (adran 27). Dylai'r darpariaethau hyn wella'r broses drosglwyddo, gan sicrhau'n arbennig well cydlyniaeth â chymorth gwasanaethau cymdeithasol, a bydd yn hybu darpariaeth pecynnau lleol o gefnogaeth. Mae Estyn hefyd yn monitro colegau arbenigol annibynnol bob blwyddyn.

- 3.75 Mae'r Bil drafft yn atgyfnerthu'r rhagdybiaeth ddeddfwriaethol bresennol o blaid addysgu'r rhai ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd lle y bo'n bosibl (adran 29). Mae hyn yn cefnogi polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ynghylch cynhwysiant a hefyd yn pwysleisio ein barn y dylai'r disgwyliadau ynghylch y rhai ag ADY a'u dyheadau hwy fod mor uchel â phosibl.
- 3.76 Er mwyn sicrhau bod pawb yn arddel safonau uchel bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i gyflwyno trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu gweithrediad y system newydd o fewn ysgolion a gynhelir a chanddynt. Yn ogystal, ac er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddysgu gyffredinol yr awdurdod lleol yn parhau i fodloni anghenion plant a phobl ifanc yn eu hardaloedd, mae'r Bil drafft yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol barhau i adolygu'r trefniadau a wneir ganddynt ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol (adran 45). Gall awdurdodau lleol hefyd gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i gyrff llywodraethu er mwyn eu helpu i fodloni anghenion y plentyn neu'r person ifanc (adran 51).

System symlach sy'n achosi llai o wrthdaro

- 3.77 Wrth waredu'r rhaniad artiffisial a dadleuol presennol rhwng plant a phobl ifanc sy'n derbyn datganiad AAA a'r diogelwch statudol sydd ynghlwm wrth hynny, a'r anghenion hynny nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddigon difrifol neu gymhleth i dderbyn cynllun statudol ag iddo ddiogelwch statudol, bydd darpariaethau'r Bil drafft sy'n cyflwyno CDU yn gwaredu un o brif achosion tensiwn sy'n achosi gwrthdaro. Yn ogystal, bydd pwyslais y Bil drafft ar gynnwys plant a phobl ifanc, a rhieni'r plant yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy a datblygiad CDU, yn arwain at ddull mwy cydsyniol o gynllunio. Yn olaf, bydd darpariaethau'r Bil drafft ynghylch CDU yn ysgogi proses lai biwrocraidd a llai llafurus o ran amser ar gyfer cynllunio darpariaeth. Dylai'r broses hon fod yn symlach i'w deall a dylai achosi llai o wrthdaro.

Rhagor o gydweithredu

- 3.78 Lle y mae awdurdod lleol yn gofyn am gymorth neu wybodaeth gan awdurdod lleol arall, mae'r Bil drafft (adran 49) yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod yn rhaid i gorff y GIG, neu sefydliad addysg bellach wrth iddo arfer unrhyw un o'i swyddogaethau ynghylch ADY, gydymffurfio â'r cais oni bai y cred y byddai gwneud hynny'n:

- a) anghydnaws â dyletswyddau'r corff;
- b) cael effaith andwyol ar y modd y caiff ei swyddogaethau eu harfer.

- 3.79 Mae'r ddyletswydd i rannu gwybodaeth yn ddyletswydd newydd a bydd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion cyfredol sydd ynghlwm wrth fethiant cyrff i rannu gwybodaeth mewn modd mor effeithiol ag y dylent. Bydd canllawiau clir yn ategu hyn. Mae'r ddyletswydd i helpu'n debyg i'r hyn a geir o fewn y ddeddfwriaeth bresennol ynghylch AAA a bydd yn sail i'r gwaith o sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael eu cynnwys mewn modd priodol yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu CDU i'r rhai ag anghenion mwy difrifol a chymhleth. Lle y mae angen mewnbwn gan asiantaethau eraill er mwyn cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc i orchfygu rhwystrau i ddysgu, bydd y Bil drafft yn sicrhau bod y CDU yn cynnwys darpariaeth ddysgu ychwanegol a gymeradwyr gan wasanaethau ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill ynghyd ag addysg. Bydd CDU yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'n glir pa asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflenwi'r elfennau unigol.
- 3.80 Mae'r Bil drafft (adran 16) yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod angen i CDU a chynlluniau eraill sy'n gysylltiedig â'r un dysgwr gael eu paratoi, eu hadolygu neu eu diwygio ar yr un pryd. Efallai y caiff cynlluniau eraill eu cynnwys yn y CDU yn ogystal; mae hyn yn adlewyrchu'r darpariaethau a gaiff eu cynnwys o dan adran 58 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ddarpariaeth hon yn creu sail ddeddfwriaethol glir ar gyfer osgoi dyblygu ymdrech a dryswch sy'n digwydd lle y caiff nifer o gynlluniau eu llunio ar gyfer yr un person. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i gysoni ac integreiddio prosesau cynllunio a fyddai'n digwydd ar wahân fel arall. O safbwynt plant sy'n derbyn gofal yn benodol, ac er mwyn cydnabod y ffaith bod cyfran sylweddol iawn o blant o'r fath yn debygol o fod ag ADY, mae'r Bil drafft (adran 56) yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod modd i reoliadau gael eu llunio a fyddai'n caniatáu, ymysg pethau eraill, integreiddio ffurfiol o CDU yn y cynlluniau addysgol y bydd ganddynt o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- 3.81 Mae'r Bil drafft (adran 14) yn cynnwys dyletswydd newydd ar gyrff ieuchyd i gyflenwi unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynhwysir o fewn y CDU y maent wedi cytuno i'w darparu. Mae'r ddyletswydd hon yn cynrychioli cam sylweddol ymlaen o ran sicrhau rhagor o eglurder a sicrwydd ynghylch pwy fydd yn cyflenwi beth o fewn CDU o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol o ran datganiadau AAA.
- 3.82 Mae'r Bil drafft (adran 47) hefyd yn gosod dyletswydd newydd ar fyrdau ieuchyd lleol i benodi swyddog meddygol neu glinigol dynodedig. Rôl y swyddog hwn fydd sicrhau bod modelau gwasanaeth priodol o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol; darparu arweinyddiaeth o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn gallu bodloni'r dyletswyddau perthnasol; cysylltu â phartneriaid a gwasanaethu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol; ac ysgogi a hwyluso cydweithio effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol er lles plant ag ADY. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y bydd y swyddog meddygol neu glinigol dynodedig yn rhan o'r gwaith o asesu ac adolygu CDU unigol, ac eithrio fel rhan o'i arfer clinigol arferol. Eto i gyd, byddai'n gyfrifol am sicrhau

bod y bwrdd iechyd lleol yn rhoi mewnbwn priodol. At ei gilydd, bydd swyddogion meddygol neu glinigol dynodedig yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o wella effeithiolrwydd y cydweithio rhwng Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol, a chynyddu'r cydweithio hwnnw, wrth iddynt gyflenwi gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.

- 3.83 Yn ogystal, lle y mae Bwrdd Iechyd Lleol, wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol, yn barnu bod ganddo/ganddi ADY (neu fod hynny'n debygol), bydd y Bil drafft (adran 48) yn rhoi'r disgresiwn iddynt dynnu sylw'r awdurdod lleol priodol at hyn (a hefyd hysbysu rhiant y plentyn eu bod yn gwneud hynny) os cred mai dyna sydd orau er lles y plentyn.

Osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach

- 3.84 Mae'r Bil drafft (adran 37) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau rhwng plant, pobl ifanc a rhieni, ac ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill. Byddai hyn yn cynnwys trefnu bod person annibynnol ar gael i helpu i ddatrys anghytundeb. Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni'n ymwybodol o'r trefniadau hyn. Caiff y Cod ei ddefnyddio i bwysleisio mai blaenoriaeth gyntaf awdurdodau lleol ddylai fod osgoi anghytundebau drwy ddatblygu ffyrdd o sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni'n derbyn cefnogaeth i ddeall y penderfyniadau a wneir sy'n effeithio arnynt a bod yn rhan o'r penderfyniadau hyn. Dylid hefyd rhoi sicrwydd priodol iddynt a chynnig cyfleoedd iddynt godi unrhyw bryderon a sicrhau bod eu cwestiynau'n cael eu hateb. Eto i gyd, os bydd anghytundebau'n digwydd, dylai'r trefniadau ganolbwyntio ar sicrhau bod y rhain yn cael eu datrys cyn gynted â phosibl ac ar lefel mor leol â phosibl. Mae datblygu a gweithredu trefniadau effeithiol ar gyfer osgoi anghytundebau a'u datrys yn gwbl allweddol er mwyn gwella ymddiriedaeth plant, pobl ifanc a rhieni yn y system a lleihau'r graddau y maent yn teimlo bod angen iddynt arfer eu hawliau apelio.

Hawliau clir a chyson i apelio

- 3.85 Mae'r Bil drafft (adran 63) yn ailenwi ac yn ehangu cylch gwaith Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Enw newydd y tribiwnlys fydd Tribiwnlys Addysg Cymru ("y Tribiwnlys"). Mae'r Bil drafft yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu bod cyfansoddiad ac aelodaeth y Tribiwnlys, ynghyd â'r trefniadau o ran tâl a threuliau, yn parhau (adrannau 63 i 65). Mae'r enw newydd yn adlewyrchu ei rôl o safbwynt gwneud penderfyniadau ynghylch apelau o ran ADY a hefyd rôl bresennol Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru o safbwynt gwneud penderfyniadau ynghylch honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd sy'n gysylltiedig ag ysgolion. Bydd y Tribiwnlys yn gyfrifol am y swyddogaeth hon, yn unol â'r drefn bresennol. Ar hyn o bryd, dim ond plant a phobl ifanc sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion a gynhelir sydd â'r hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru o safbwynt eu ADY. Bydd y Bil drafft yn cyflwyno hawliau apelio mwy teg drwy

estyn yr hawl hwn i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach neu sefydliadau ôl-16 arbenigol.

- 3.86 Mae'r Bil drafft (adran 40) yn galluogi plentyn neu berson ifanc hyd at 25 oed, neu riant plentyn, i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn:
- a) penderfyniad ynghylch a oes gan berson ADY;
 - b) penderfyniad gan awdurdod lleol ynghylch a oes angen paratoi a chynnal CDU ar gyfer person ifanc;
 - c) y disgrifiad o ADY person mewn cynllun datblygu unigol;
 - d) y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir mewn CDU;
 - e) yr ysgol a gaiff ei henwi mewn CDU at ddiben derbyn neu'r math o ysgol neu sefydliad a bennir yn y cynllun;
 - f) os na chaiff ysgol neu sefydliad ei enwi mewn CDU, y ffaith honno;
 - g) penderfyniad i beidio â chymryd cyfrifoldeb am gynllun datblygu unigol yn dilyn cais i ystyried gwneud hynny;
 - h) penderfyniad i beidio â diwygio CDU;
 - i) penderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU.
- 3.87 Er na ddylid ond troi at y Tribiwnlys os nad oes dewis arall, bydd rhoi'r hawl i apelio i dribiwnlys annibynnol y mae ei benderfyniadau'n rhai sy'n rhwymo (adran 42) yn sicrhau bod y system newydd ar gyfer cefnogi ADY yn gadarn a bod gan blant, pobl ifanc a rhieni hyder ynddi. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod y dyletswyddau o ran dysgwyr ag ADY yn cael eu cyflawni'n briodol. Bydd hyn yn diogelu hawliau plant a phobl ifanc ac yn sicrhau rhagor o degwch.
- 3.88 Bydd estyn hawliau apelio i gynnwys dysgwyr ôl-16 sy'n dilyn addysg bellach neu hyfforddiant yn helpu i ategu ystod oedran 0-25 y system newydd a bydd yn cyflawni ein nod craidd o sicrhau dull mwy teg.
- 3.89 Mae'r Bil drafft (adran 40) yn galluogi Gweinidogion Cymru i lunio rheoliadau ynghylch trafodion y Tribiwnlys wrth ymdrin ag apêl ADY a'r modd yr eir i'r afael ag apêl o'r fath. Gall gofynion gael eu gosod mewn perthynas â datgelu dogfennau a phresenoldeb yng nghyfarfodydd y Tribiwnlys. Os bydd y Tribiwnlys yn cyflwyno gorchymyn mae'n rhaid i'r awdurdod lleol dan sylw gydymffurfio â'r gorchymyn hwnnw cyn diwedd y cyfnod a ragnodir mewn rheoliadau, o'r dyddiad y cafodd ei lunio.
- 3.90 Mae'r Bil drafft (adran 44) hefyd yn caniatáu i barti i unrhyw drafodion ynghylch ADY gerbron y Tribiwnlys apelio i'r Uwch Dribiwnlys ynghylch unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n deillio o benderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys yn y trafodion hynny.

Cod gorfodol

- 3.91 Mae'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Cod ar ADY (adran 4).
Bydd y Cod yn berthnasol i'r rhai sydd â swyddogaethau o dan y Bil drafft hwn a bydd modd iddo orfodi'r canlynol:

- (Ile caiff hyn ei bennu yn y Bil drafft) ofynion gorfodol y mae'n rhaid i gyrff perthnasol weithredu'n unol â hwy;
 - canllawiau y mae'n rhaid i'r gyrff hynny a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill roi sylw dyledus iddynt.
- 3.92 Bydd creu Cod o'r math hwn yn sicrhau bod gan y system newydd ar gyfer ADY ffiniau clir y mae modd eu gorfodi ar lefel gyfreithiol. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill hynny sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu o fewn y system hon. Cod ar gyfer ymarferwyr fydd y Cod yn y bôn er mwyn eu helpu i ddeall y system newydd ar gyfer ADY a'i gweithredu.
- 3.93 Bydd y Bil drafft, yn benodol, yn sicrhau bod y Cod yn cynnwys gofynion manwl ynghylch sut y dylai CDU gael eu paratoi, eu cynnal a'u hadolygu. Bydd hyn yn cynnwys ei gwneud hi'n ofynnol i'r cynllun fod ar ffurf benodol a chynnwys pethau penodol. Bydd hefyd yn ofynnol i bobl benodol gyflawni rhai rolau a/neu gymryd rhai camau o safbwynt paratoi, cynnal ac adolygu CDU o fewn terfynau amser penodol. Bydd y Bil drafft hefyd yn sicrhau bod y Cod yn disgrifio swyddogaethau Cydlynwyr ADY ac yn gosod gofynion o safbwynt darparu gwasanaethau eirioli annibynnol.
- 3.94 Mae'r Bil drafft (adran 5) yn ei gwneud hi'n ofynnol i sicrhau bod y Cod yn destun ymgynghoriad ag awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach, Estyn ac eraill. Yn ogystal, rydym yn cynnig y byddai'n rhaid i'r Cod (ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau dilynol) gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol am 40 diwrnod. Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu cyn diwedd y cyfnod o 40 diwrnod na fydd yn cymeradwyo fersiwn drafft y Cod, ni chaiff Gweinidog Cymru gyhoeddi'r Cod arfaethedig ar ffurf y fersiwn drafft hwnnw. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud pob ymdrech i sicrhau cydymffurfiaeth briodol â'r Cod drwy Estyn neu ei rolau ei hun.

4. Ymgynghori

- 4.1 Cafwyd ymrwymiad gan Brif Weinidog Cymru yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2011 i ymgynghori'n briodol ac i ymgysylltu'n ystyrlon gyda'n partneriaid wrth ddatblygu deddfwriaeth. Yn unol â'r datganiad hwn cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau Bapur Gwyn ar 22 Mai 2014 ynghylch y cynigion ar gyfer y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yr oedd y Papur Gwyn yn gwahodd sylwadau ar bob un o'r cynigion ar gyfer y Bil ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen ymgynghori lawn ar gael yn:
<http://wales.gov.uk/consultations/education/proposals-for-additional-learning-needs-white-paper/?lang=cy>.
- 4.2 Cyhoeddwyd y Papur Gwyn yn dilyn cyhoeddi dogfen ymgynghori flaenorol cyn y broses ddeddfu ym mis Mehefin 2012, sef 'Ymlaen mewn Partneriaeth dros Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol', a ddisgrifiodd weledigaeth eang o system ddiwygiedig. Gallwch weld y ddogfen ymgynghori drwy'r ddolen ganlynol:
<http://gov.wales/consultations/education/senframeworkconsultation/?lang=cy>
- 4.3 Cyhoeddwyd yn ogystal ymgynghoriad penodol a oedd wedi'i deilwra i bobl ifanc, fel rhan o gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ar yr un pryd â'r Papur Gwyn. Roedd yr ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc yn cynnwys deg cwestiwn a oedd yn mynd i'r afael â'r materion yr oedd Llywodraeth Cymru'n awyddus i glywed barn pobl ifanc yn eu cylch. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gyfer pobl ifanc hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, drwy ddilyn y ddolen ganlynol:
<http://gov.wales/consultations/education/proposals-for-additional-learning-needs-white-paper/?lang=cy>
- 4.4 Ymgynghorodd y Papur Gwyn ar gynigion i:
- Gyflwyno'r termau 'anghenion dysgu ychwanegol' a 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' er mwyn disodli'r termau presennol sef 'anghenion addysgol arbennig' a 'darpariaeth addysgol arbennig'.
 - Cyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a fyddai'n disodli datganiadau AAA, asesiadau ôl-16 (o dan adran 140 o Ddeddf 2000) a Chynlluniau Addysg Unigol anstatudol (CAU) a chynlluniau ôl-16.
 - Ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ynghylch Cod Ymarfer ar ADY a'i gyhoeddi. Gallai'r Cod hwn gynnwys:
 - gofynion gorfodol y bydd yn rhaid i'r cyrff perthnasol (awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, unedau cyfeirio disgyblion, byrddau iechyd lleol a Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn fwy na thebyg) weithredu'n unol â hwy;
 - canllawiau y mae'n rhaid i'r cyrff hynny a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill roi sylw dyledus iddynt.

- Nodi'r gofynion lleiaf o safbwynt gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn CDU, a'i gwneud hi'n ofynnol i'r Cod nodi gofynion gorfodol manwl a fydd yn ategu hyn.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi CDU a sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yng Nghynllun Gweithredu'r CDU yn cael ei chyflwyno ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed y nodwyd bod ganddynt ADY ac sy'n derbyn neu'n dymuno derbyn addysg neu hyfforddiant.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, ac unedau cyfeirio disgyblion wneud pob ymdrech i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn CDU y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei chynnig.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth addysg arbenigol ar gyfer dysgwyr ôl-16 lle y mae'r CDU yn pennu bod hyn yn angenrheidiol er mwyn bodloni anghenion plentyn neu berson ifanc.
- Gwahardd lleoli unrhyw blentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru i gynnig y math o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u rhieni yn cael eu cynnwys, yr ymgynghorir â hwy ac y gwrandewir ar eu barn o'r dechrau'n deg a chydol y broses asesu a chynllunio sydd ynghlwm wrth y CDU.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i sicrhau bod CDU yn cael eu hadolygu unwaith y flwyddyn, man lleiaf, a hefyd ei gwneud hi'n bosibl iddynt gael eu hadolygu'n gynharach neu'n fwy aml lle y bo hynny'n briodol.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cod Ymarfer gynnwys canllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ynghylch adnabod plant ag ADY yn gynnwys iawn, gan gynnwys y plant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a sefydliadau addysg bellach gydweithredu a rhannu gwybodaeth am asesu, cynllunio a chyflawni darpariaeth er mwyn bodloni anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cod Ymarfer gynnwys canllawiau a fydd yn cefnogi arferion gwaith effeithiol rhwng gwahanol asiantaethau.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion prif ffrwd ddynodi Cydlynnydd ADY.

- Sicrhau bod modd i CDU ddisodli Cynlluniau Addysg Personol neu gyflawni eu swyddogaethau o safbwynt plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth a chynghor a hefyd ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau (i awdurdodau), gan gynnwys gofynion gorfodol lle y bo angen.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau a'i gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddio prosesau cwynion lleol cyn cyfeirio apêl i'r Tribiwnlys Addysg.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol benodi person annibynnol a fydd yn ei gwneud hi'n haws i ddatrys anghytundebau.
- Sicrhau bod hawl i gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn:
 - penderfyniad i beidio â sefydlu CDU;
 - gwrthod cais i adolygu CDU;
 - cynnwys CDU, gan gynnwys y disgrifiad o anghenion y plentyn neu'r person ifanc neu'r ddarpariaeth addysgol sy'n ofynnol ar gyfer bodloni'r anghenion hynny;
 - methiant i gyflwyno'r ddarpariaeth a nodwyd yn y CDU;
 - penderfyniad i ddirwyn CDU i ben.
- Rhoi'r hawl i apelio i unrhyw blentyn, person ifanc o oedran ysgol neu is sydd â CDU (neu ei riant) neu sy'n credu y dylai fod â CDU.
- Estyn yr hawl i apelio i ddysgwyr ôl-16 sydd ag ADY, hyd at 25 oed, sy'n derbyn neu sy'n dymuno derbyn addysg neu hyfforddiant.
- Ailddatgan y darpariaethau presennol mewn perthynas â gwasanaethau eirioli annibynnol a chyfeillion achos, ond ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau ynghylch hyn, gan gynnwys gofynion gorfodol lle y bo angen.

4.5 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o naw wythnos a daeth i ben ar 25 Gorffennaf 2014. Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 215 o ymatebion. Cyflwynodd pedwar o bobl ifanc eu hymatebion drwy'r holiadur yn eu fersiwn hwy o'r ddogfen ymgynghori. Derbyniwyd un ar ddeg o ymatebion oddi wrth sefydliadau ar draws y DU nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru. Roedd y sylwadau a gyflwynwyd yn yr ymatebion hyn yn gysylltiedig â'r modd y byddai'r cynigion yn effeithio ar ddysgwyr yng Nghymru.

4.6 Mae **Tabl 1** yn crynhoi dosbarthiad yr ymatebion o wahanol sectorau.

Tabl 1: Crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn

Sector	Nifer yr ymatebion a dderbyniwyd
Llywodraeth Leol	40
Ysgolion	27
Ysgolion arbennig	4
Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig	9
Y Sector Addysg Bellach	5
Sefydliadau Dysgu Seiliedig ar Waith	3
Sefydliadau cyn ysgol	2
Gweithwyr proffesiynol ym maes addysg	8
Undebau Athrawon	3
Byrddau Iechyd Lleol	16
Gweithwyr iechyd proffesiynol	12
Sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus	7
Sefydliadau'r trydydd sector	39
Unigolion	40
Cyfanswm	215

- 4.7 Yn ogystal â'r ymgynghoriad ysgrifenedig, cafodd gweithdai eu cynnal ar gyfer plant a phobl ifanc a'u rhieni. Daeth 174 o blant a 55 o rieni a gofalwyr i'r gweithdai hyn. Comisiynwyd contractwr i ddarparu'r gweithdai ar ran Llywodraeth Cymru. Defnyddiodd y contractwr ddulliau cynhwysol a chyfranogol er mwyn sicrhau dealltwriaeth dda ac annog plant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr i ystyried y cwestiynau hyn. Cydweithiodd y contractwr â'r canlynol:
- pedwar ar ddeg grŵp o blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol; gwnaeth cyfanswm o 174 o blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol gymryd rhan;
 - chwe grŵp o rieni/gofalwyr - gwnaeth cyfanswm o 55 o rieni/gofalwyr gymryd rhan.
- 4.8 Roedd y plant a'r bobl ifanc rhwng 8 ac 20+ a daethant o wahanol leoliadau addysg, o addysg gynradd, addysg uwchradd ac addysg bellach. Daeth disgyblion o ysgolion prif ffrwd a hefyd ysgolion arbennig. Roeddent oll wedi cofrestru fel dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac ar gynlluniau fel Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu roedd ganddynt Ddatganiadau AAA ynghyd ag anghenion cymorth dysgu eang iawn eu hystod. Cyfrannodd grwpiau o wahanol rannau o Gymru. Cynigiwyd gweithdai Cymraeg neu Saesneg i bob grŵp a derbyniodd grwpiau Cymraeg wahoddiadau penodol i gymryd rhan. Manteisiodd dwy ysgol arbennig cyfrwng Cymraeg ar y cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai Cymraeg.
- 4.9 Canolbwyntiodd y gweithdai ar y tri phrif nod a bennwyd yn y Papur Gwyn:
- cyfraith unigol ynghylch sut i gefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 mlwydd oed y mae arnynt angen cymorth â dysgu;

- system unigol ar gyfer cydweithio fel y gall pob gwasanaeth gamu i mewn yn gynnar, gan gynnig y gefnogaeth gywir i'r plant a'r bobl ifanc y mae arnynt angen cymorth â dysgu;
 - gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth glir sy'n deg i bawb os bydd pethau'n mynd o'i le neu os nad ydynt yn hoffi penderfyniad.
- 4.10 Ystyriwyd yn y gweithdai gyfres o gwestiynau a oedd yn gysylltiedig â phob un o'r nodau hyn. Daeth y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad o fersiwn hawdd ei deall Llywodraeth Cymru o'r Papur Gwyn sef *Y cynlluniau ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol - ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc*.
- 4.11 Mae canlyniadau'r ymarfer ymgynghori hwn wedi'u defnyddio er mwyn llywio'r broses o ddatblygu polisiau. Cafodd crynodebau o'r ymatebion i'r Papur Gwyn a'r gweithdai eu cyhoeddi ar 14 Hydref 2014 a gallwch eu gweld yn: <http://wales.gov.uk/consultations/education/proposals-for-additional-learning-needs-white-paper/?lang=cy>.
- 4.12 Mewn Datganiad Ysgrifenedig cysylltiedig gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau eglurodd sut yr oedd camau'n cael eu cymryd ynghylch rhai o'r pwyntiau pwysicaf y tynnwyd sylw atynt yn yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys:
- Pwysleisio y byddai'r CDU yn rhoi'r un diogelwch statudol i ddysgwyr 0-25 oed sydd ag ADY â'r datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig presennol;
 - Egluro mai'r term 'pob ymdrech' oedd y term cyfreithiol presennol sy'n cael ei ddefnyddio mewn perthynas ag ysgolion, ac roeddem yn cynnig ei estyn i gynnwys sefydliadau addysg bellach;
 - Rhoi sicrwydd y byddai anghenion pawb sydd ag ADY, gan gynnwys y rhai â'r anghenion mwyaf, yn cael eu bodloni;
 - Byddai rhaglen hyrwyddo ynghyd â hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar draws yr asiantaethau perthnasol sy'n cydweithio â phlant a phobl ifanc ag ADY yn cyd-fynd â'r broses o gyflwyno'r diwygiadau ynghyd â Chod newydd;
 - Amlinellu'r bwriad i gyhoeddi Cod gyda gofynion gorfodol a chanllawiau statudol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.
- 4.13 Gallwch weld y Datganiad Ysgrifenedig llawn gan y Gweinidog ar wefan Llywodraeth Cymru: <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2014/additionallearningneeds/?lang=cy>

Crynodeb o'r ymatebion

- 4.14 Ceir crynodeb isod o'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Y negeseuon allweddol

- 4.15 At ei gilydd, cafodd cynigion Llywodraeth Cymru eu croesawu gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Cafodd pwysigrwydd egwyddorion sylfaenol, fel yr angen i wrando ar blant a phobl ifanc ac i gydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth weithredu system ddiwygiedig, ei bwysleisio gan randdeiliaid.

Defnyddio'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol

- 4.16 Cafodd y term arfaethedig Anghenion Dysgu Ychwanegol ei groesawu gan ystod eang o ymatebwyr ac nid oedd ond nifer bach o ymatebwyr o blaid term gwahanol. Yn ogystal, cytunai'r rhan fwyaf â'r cynnig y dylai'r system hefyd fodloni anghenion plant a phobl ifanc, o'u geni hyd nes y byddant yn 25 mlwydd oed. Eu prif bryder oedd yr angen i sicrhau bod y cyllid a'r adnoddau'n ddigonol a bod y system yn gweithredu'n effeithiol. Er mwyn sicrhau hyn, teimlai'r ymatebwyr fod angen sicrhau bod y system yn cael ei harwain a'i chydgysylltu'n effeithiol a'i bod yn sicrhau parhad o ran darpariaeth, ac yn arbennig ar adegau trosglwyddo allweddol ym mywydau pobl ifanc.

Cynlluniau Datblygu Unigol

- 4.17 Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr â'r cynnig y dylai fod gan bob person ifanc ag ADY hawl i Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i sicrhau bod y CDU yn mynd i'r afael ag anghenion unigol plant a phobl ifanc. Cytunai llawer o'r ymatebwyr â'r cynigion ynghylch yr angen i gynllunio'r system mewn modd sy'n sicrhau cyn lleied â phosibl o fiwrocratiaeth ac sy'n lleihau nifer yr asesiadau ar wahân. Cytunai'r rhan fwyaf y dylai dulliau amlddisgyblaethol/rhyngbroffesiynol gael eu defnyddio wrth ddatblygu CDU. Yn ogystal, awgrymodd rhai y dylai cynnwys CDU gael ei ragnodi er mwyn sicrhau manylion cynhwysfawr mewn modd sy'n gymesur â'r angen a hefyd dylai canllawiau clir am fanylder yr wybodaeth a'i natur gael eu cynnwys. Pwysleisiwyd yn ogystal fod angen i'r CDU fod yn hyblyg ac yn ddogfennau 'byw' y byddai modd eu haddasu er mwyn bodloni anghenion dysgwyr.
- 4.18 Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai fod gan blant a phobl ifanc sydd ar Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy hawl i CDU, mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith y gallai hyn roi pwysau ar adnoddau a chapasiti. Byddai hyn yn awgrymu bod angen sicrhau eglurder o ran y ffaith y gallai anghenion a bennir mewn CDU gael eu bodloni drwy ddarpariaeth gynhwysol yn ogystal â darpariaeth arbenigol. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith y gallai cyflwyno cynlluniau statudol ar gyfer dysgwyr sydd ag ystod ehangach o anghenion na'r rhai sydd eisoes â datganiadau AAA olygu bod llai o adnoddau ar gael i gefnogi'r rhai â'r anghenion mwyaf. Eto i gyd, mae plant a phobl ifanc mewn ysgolion sydd ag ystod eang o anghenion eisoes yn derbyn asesiadau a chefnogaeth a gaiff eu cofnodi a'u hadolygu mewn gwahanol gynlluniau statudol ac anstatudol. Bwriad y cynigion hyn oedd uno'r strwythur deddfwriaethol drwy gyflwyno

cynllun unigol yn lle pob cynllun o'r fath. Byddai'r un hawliau statudol ynghlwm wrth y cynllun unigol hwn, pa bynnag mor gymhleth yw'r angen neu beth bynnag yw'r lleoliad addysg. Byddai'r Cod yn rhoi eglurder ynghylch y diffiniad newydd o ADY er mwyn sicrhau bod ADY y dysgwyr y mae'r diffiniad hwn yn eu cynnwys yn cael eu bodloni drwy CDU statudol.

- 4.19 Roedd ymatebwyr o faes llywodraeth leol yn bryderus ynghylch y ffaith mai awdurdodau lleol fyddai'n gyfrifol yn y pen draw am baratoi CDU a sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni. Er bod y rhan fwyaf (ond nid pawb) o blaid y cynnig mai'r awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol am hyn, mynegwyd pryderon y gallent fod yn atebol am wasanaethau a ddarperir gan gyrff nad oes ganddynt unrhyw reolaeth drostynt, er enghraifft ac yn benodol wasanaethau iechyd. Teimlai rhai fod angen atgyfnerthu'r hyn a oedd yn cael ei bennu: er enghraifft, dylai dyletswydd i gydweithredu ddod yn ofyniad i dderbyn cyfrifoldeb ar y cyd.

Cod ymarfer

- 4.20 Roedd cryn gefnogaeth i'r cynnig i gyflwyno Cod Ymarfer a fyddai wedi'i ategu gan ofynion gorfodol ac a fyddai'n berthnasol i awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach, byrddau iechyd lleol a'r Tribiwnlys AAA. Cytunai'r ymatebwyr yn ogystal y dylai hyn lywio gwaith cyrff/darparwyr eraill gan y byddai hynny'n sicrhau rhagor o gysondeb o safbwynt y modd y câi CDU eu gweithredu.

Gofyniad ar sefydliadau addysg bellach i wneud pob ymdrech

- 4.21 Er bod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno'n gyffredinol â'r egwyddor y dylai fod yn ofynnol i sefydliadau AB fodloni anghenion pobl ifanc ag ADY, mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith bod y term 'pob ymdrech' yn rhy llac ac eang i fod yn sail ar gyfer dwyn darparwyr i gyfrif, er ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn deddfwriaeth gyfredol. Gwnaeth rhai ymatebwyr hefyd dynnu sylw at bwysigrwydd y sector Dysgu Seiliedig ar Waith a'r rôl yr oedd yn rhaid iddo ei chwarae o safbwynt bodloni anghenion pobl ifanc ag ADY.

Mynediad at ddarpariaeth arbenigol

- 4.22 Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth addysg arbenigol ar gyfer dysgwyr ôl-16 y tu allan i faes Addysg Bellach lle roedd hynny'n ofynnol, awgrymwyd bod angen rhagor o fanylion ynghylch beth yn union y byddai hynny'n ei olygu. Pwysleisiwyd yr angen am barhad o safbwynt darpariaeth.

- 4.23 Cafodd sylwadau tebyg eu cyflwyno ynghylch lleoliadau mewn ysgolion annibynnol nad oeddent wedi'u cofrestru i gynnig y ddarpariaeth a bennir yn y CDU. Credai'r ymatebwyr fod y cynnig yn rhesymol o ran sicrhau ansawdd a'r hyn a ddisgwyliid gan ddarparwyr, ond pwysleisiodd eraill yr angen i allu ymateb i anghenion unigol ac arbenigol iawn. Cafodd y goblygiadau o safbwynt gofynion monitro ac arolygu hefyd eu pwysleisio, ac yn arbennig gan lywodraeth leol ac Estyn.

Gofyniad i gydweithredu a rhannu gwybodaeth

- 4.24 Cytunai'r rhan fwyaf â'r cynigion hyn. Gwnaeth yr ymatebwyr awgrymu ffyrdd o wneud prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn haws. Eto i gyd, cafwyd sawl cyfeiriad at wendidau o ran y modd yr oedd gwasanaethau wedi cydweithio yn y gorffennol. Roedd yr angen am ofynion cadarn er mwyn sicrhau bod gwahanol ddarparwyr yn cydweithio i gyflawni gwir ymateb amlddisgyblaethol/ rhyngbroffesiynol i anghenion dysgwyr ag ADY yn thema bwysig yn yr ymatebion.

Cynigion i gyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol yn lle Cynlluniau Addysg Personol

- 4.25 Er bod y cynnig hwn wedi'i groesawu mynegwyd rhai pryderon ynghylch y manylion o ran sut y byddai unrhyw system ddiwygiedig yn gweithio. Nid oedd pob ymatebwr o'r farn y byddai angen CDU ar blant sy'n derbyn gofal. Eto i gyd, roedd llawer yn cydnabod y gallai llawer o'r fiwrocratiaeth a'r dyblygu a oedd ynghlwm wrth asesu gael eu lleihau petai Cynlluniau Datblygu Unigol yn disodli Cynlluniau Addysg Personol.

Datrys anghytundebau

- 4.26 Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr â'r syniad y dylai awdurdodau lleol gynnal trefniadau lleol ar gyfer datrys anghytundebau ond teimlai lleiafrif y gallai hyn greu cam ychwanegol ar gyfer teuluoedd/gofalwyr. Cafodd y pwynt hwn ei ailbwysleisio pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a ddylai fod yn ofynnol i brosesau lleol ar gyfer ymdrin â chwynion gael eu defnyddio cyn i apelau gael eu cyflwyno i'r Tribiwnlys. Awgrymwyd y dylai amserlen benodol gael ei phennu er mwyn osgoi gormod o oedi o ran datrys materion yn lleol.
- 4.27 Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion o safbwynt estyn yr hawl i apelio i Dribiwnlys, roedd rhai'n dymuno derbyn rhagor o fanylion, ac yn arbennig ynghylch y gwahanol faterion y gallai'r Tribiwnlys ymdrin â hwy a materion eraill. Er enghraifft, teimlai'r ymatebwyr o faes llywodraeth leol y dylai'r Tribiwnlys hefyd allu mynd i'r afael â materion nad oeddent o dan awdurdodaeth awdurdodau lleol. Ar yr un pryd, cafodd yr angen i sicrhau hawl i apelio os byddai CDU yn cael ei wrthod ei nodi gan y Tribiwnlys. Credai llawer o ymatebwyr y dylai plant a phobl ifanc, ynghyd â rhieni/gofalwyr, allu ysgogi apêl.

Materion eraill

- 4.28 Roedd barn gref ymysg gweithwyr proffesiynol ym maes addysg, ac yn arbennig seicolegwyr addysg, a oedd yn ategu dadleuon eu cymdeithas genedlaethol y dylai seicolegwyr addysg chwarae rhan flaenllaw yn y modd y dylai gwasanaethau ar gyfer dysgwyr ag ADY gael eu hasesu a'u cyflenwi.
- 4.29 Awgrymodd rhai y dylid ystyried strwythurau cyflenwi eraill. Roedd rhai o blaid sicrhau rôl fwy amlwg i'r Consortia Rhanbarthol tra teimlai eraill y dylai prosesau gael eu harwain gan gyrrff sy'n annibynnol ar awdurdodau lleol.
- 4.30 Roedd sawl corff, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, yn poeni nad oedd y cynigion yn cyfeirio'n benodol at hawliau plant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr i wasanaethau cyfrwng Cymraeg ac y dylid gwarantu eu hawl i allu defnyddio pob proses gan gynnwys asesu, trafod ac apelau yn y Gymraeg.

Ymgysylltu ychwanegol

- 4.31 Roedd y materion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn yn destun ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid cyn cyhoeddi'r Papur ac ar ôl hynny. Mae'r gwaith ymgysylltu wedi canolbwyntio ar ddarpariaethau arfaethedig y Bil drafft ynghyd â geiriad y Cod drafft. Mae'r gwaith ymgysylltu sydd wedi mynd rhagddo ers cyhoeddi'r Papur Gwyn wedi cynnwys cyfarfodydd, cyflwyniadau a gweithdai gyda:
- Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA) – drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen sydd wedi cyfarfod unwaith y mis ers mis Rhagfyr 2014;
 - Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg – gan gynnwys drwy weithdy diwrnod gyda seicolegwyr addysg o holl awdurdodau lleol Cymru;
 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC);
 - Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a'i his-grŵp ar Gynhwysiant;
 - NATSPEC (cymdeithas y colegau arbenigol annibynnol);
 - Grŵp Cynghori ar Anableddau Dysgu;
 - Panel Ymarferwyr Ysgol;
 - Colegau Cymru Colleges Wales – gan gynnwys drwy weithdy gyda'i rwydwaith o ymarferwyr ym maes anawsterau a/neu anableddau dysgu;
 - Grwpiau Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig;
 - Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar;
 - Cymdeithasau Penaethiaid Ysgolion Arbennig De a Gogledd Cymru (SWASSH a NWASSH); Grŵp Partneriaeth Undeb;
 - Estyn;
 - Comisiynydd Plant Cymru.
- 4.32 Mae trafodaethau wedi'u cynnal ag Adran Addysg Llywodraeth y DU ynghylch rhai materion trawsffiniol sy'n deillio o'r newidiadau arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys cefnogi plant a phobl ifanc o Gymru sy'n mynychu sefydliad addysg yn Lloegr ac i'r gwrthwyneb. Mae trafodaethau hefyd wedi'u cynnal ynghylch

cefnogi pobl ifanc o Gymru sydd ag ADY ac sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yn Lloegr ac i'r gwrthwyneb.

5. Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth

- 5.1 Mae'r Bil drafft yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth.
- 5.2 Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ynghylch cynnwys yr is-ddeddfwriaeth lle bernir bod hynny'n briodol. Caiff union natur yr ymgynghori ei bennu unwaith y caiff y cynigion eu cwblhau'n derfynol.
- 5.3 Mae **Tabl 2** isod yn dangos, mewn perthynas â phob darpariaeth:
- yr unigolyn neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
 - ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
 - priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
 - y weithdrefn a ddefnyddir, os o gwbl, ynghyd â'r rhesymau pam y tybir ei bod yn briodol.
- 5.4 Defnyddiwyd canllawiau Cwnsler Cyffredinol Cymru wrth nodi'r gweithdrefnau. Ym mis Ionawr 2012 cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol ganllawiau ynghylch y ffactorau a fyddai'n tueddu i nodi a ddylai'r weithdrefn negyddol neu'r weithdrefn gadarnhaol gael ei defnyddio.
- 5.5 Byddai'r weithdrefn gadarnhaol yn cael ei defnyddio mewn perthynas â'r canlynol –
- a. pwerau sy'n ei gwneud hi'n bosibl i ddarpariaeth gael ei gwneud a allai effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddfau Seneddol, Mesurau'r Cynulliad neu Ddeddfau'r Cynulliad;
 - b. pwerau sy'n anelu'n benodol at alluogi Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol i roi pwerau sylweddol pellach i'w hunain;
 - c. pwerau i weithredu yng Nghymru ddarpariaethau, er enghraifft Deddfau Seneddol sy'n rhan o'r Ddeddf ei hun yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon (gydag addasiadau neu hebddynt);
 - d. pwerau i orfodi neu gynyddu trethiant neu feichiau ariannol eraill arwyddocaol ar y cyhoedd;
 - e. darpariaeth sy'n golygu gwariant sylweddol gan y Llywodraeth;
 - f. pwerau i greu darpariaethau troseddol anarferol neu gosbau sifil anarferol;
 - g. pwerau i roi pwerau anarferol o ran mynediad, archwilio neu arolygu, neu ddarparu ar gyfer casglu gwybodaeth o dan bwerau gorfodaeth;
 - h. pwerau sy'n gosod dyletswyddau beichus ar y cyhoedd (ee gofyniad i roi symiau drwy ddiogelwch, neu derfynau amser byr iawn i gydymffurfio â rhwymedigaeth).
 - i. pwerau sy'n cynnwys ystyriaethau pwysig iawn nad ydynt wedi'u cynnwys o dan y penawdau uchod (ee lle caiff y pwrpas yn unig ei osod gan y Ddeddf alluogi a lle caiff prif sylwedd y cynllun deddfwriaethol ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir wrth arfer y pŵer).
- 5.6 Byddai'r weithdrefn negyddol yn cael ei defnyddio mewn perthynas â'r canlynol –

- a. manylion cymharol fân sydd i destun y rheoliadau o fewn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol neu mae'n dechnegol;
- b. credwn y gallai fod yn briodol i ddiweddarau'r mater dan sylw yn rheolaidd;
- c. efallai y byddai'n briodol deddfu'n gyflym (ee er mwyn osgoi gweithdrefnau torri rheolau neu er mwyn diogelu iechyd pobl neu iechyd anifeiliaid neu'r amgylchedd);
- d. mae disgresiwn Llywodraeth Cymru ynghylch cynnwys yr is-ddeddfwriaeth yn gyfyngedig (ee deddfwriaeth sy'n rhoi effaith i rai darpariaethau o fewn cyfraith yr UE);
- e. byddai'n briodol cyfuno darpariaeth i'w gwneud o dan y pŵer gyda darpariaeth a all gael ei gwneud o dan bŵer arall lle y gallai'r ail fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Tabl 2: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar gyfer darpariaethau'r Bil drafft.

Adran:	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
3(4) Darpariaeth ddysgu ychwanegol	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Bil drafft yn cyfeirio at oedran plentyn. Byddai rheoliadau o dan yr adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddisodli'r cyfeiriadau presennol at yr oedran tri gyda chyfeiriadau at wahanol oedran, mewn ymateb i newidiadau ym mholisi'r blynyddoedd cynnar neu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Byddai pwerau dirprwyedig felly'n briodol.	Gweithdrefn gadarnhaol	Yn ei gwneud hi'n bosibl i ddarpariaeth gael ei gwneud a allai effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddfau Seneddol, Mesurau'r Cynulliad neu Ddeddfau'r Cynulliad.
4(4): Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a 5: yn nodi'r weithdrefn	Gweinidogion Cymru	Cod	Y Cod ADY fydd y brif ddogfen a gaiff ei defnyddio gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflenwi'r system newydd ar y lefel weithredol, ac yn arbennig awdurdodau lleol a staff ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Mae'r pwerau gwneud gofynion a allai gael eu harfer drwy'r Cod yn gysylltiedig â'r manylion technegol ynghylch y modd y mae awdurdodau lleol ac aelodau staff yn cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â CDU, rhoi gwybodaeth a chyingor a gwasanaethau eirioli annibynnol. Ymddengys ei bod hi'n briodol sicrhau bod y gofynion gweithredol manwl hyn yn cael eu	Gweithdrefn Statudol, fel y'i hamlinellir yn adran 5 o'r Ddeddf.	Bernir ei bod hi'n briodol fod y darpariaethau a gynhwysir yn y Cod y mae'n rhaid i gyrff perthnasol weithredu yn unol â hwy yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad

			cynnwys yn y ddogfen sydd, mewn gwirionedd, yn llawlyfr gweithredol. Bydd pennu gofynion mewn Cod yn hytrach nag ar wyneb y Bil drafft neu mewn rheoliadau yn ei gwneud hi'n bosibl i ddefnyddio iaith y bydd yn haws i bobl sydd â diddordeb yn y mater ei deall.		Cenedlaethol. Caiff y weithdrefn ei nodi ar wyneb y Bil ac adlewyrcha'r weithdrefn a ddefnyddiwyd wrth osod y Codau ar Dderbyniadau i Ysgolion a Threfniadaeth Ysgolion.
5(4)(b): Yn nodi pryd y daw'r Cod i rym	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae'r Bil drafft yn ei gwneud hi'n bosibl i'r Cod ADY ddod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn. Mae'r pŵer dirprwyedig hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y diwrnod a bennir yn cyd-fynd â'r trefniadau trosiannol y cytunir arnynt â rhanddeiliaid ar ôl i'r Bil drafft gael ei basio	Dim	Yn rhagnodi mater technegol a gweinyddol sy'n annhebygol o fod yn ddadleuol.
12(3)(c)(ii): Cynlluniau datblygu unigol: awdurdodau lleol	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol benderfynu, a hynny'n unol â rheoliadau, a oes angen iddynt baratoi a chynnal cynllun ar gyfer person ifanc. Mae pennu meini prawf ar gyfer penderfynu pryd y mae angen iddynt wneud hynny yn cyd-fynd â phwerau dirprwyedig gan y bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru addasu dros amser y meini prawf a ddylai gael eu	Gweithdrefn gadarnhaol	Caiff prif sylwedd y mater dan sylw ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy arfer y pŵer.

			cymhwyso mewn ymateb i angen ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.		
12(6)(b): Cynlluniau datblygu unigol: awdurdodau lleol	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth heblaw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o dan rai amgylchiadau. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau mathau eraill o ddarpariaeth y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei sicrhau. Gallai hyn newid dros amser, mewn ymateb i ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Byddai pwerau dirprwyedig felly'n briodol.	Gweithdrefn negyddol	Mae'n rhagnodi materion technegol a gweinyddol, a all gael eu diweddarau o bryd i'w gilydd.
21(1)(b): Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau o dan adran	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ailystyried, ar gais, benderfyniad corff llywodraethu i roi'r gorau i gynnal CDU. Bydd y pwerau dirprwyedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi cyfnod pan all plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc gyflwyno cais i awdurdod lleol mewn perthynas ag ailystyriaeth o'r fath. Byddai pwerau dirprwyedig felly'n briodol	Gweithdrefn negyddol	Yn rhagnodi mater technegol a gweinyddol sy'n annhebygol o fod yn ddadleuol.
23: Rheoliadau ynghylch trosglwyddo cynlluniau datblygu unigol	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi manylion ynghylch sut y dylai CDU gael eu trosglwyddo pan fydd plentyn neu berson ifanc sydd â CDU yn trosglwyddo i sefydliad addysg gwahanol a/neu i wahanol awdurdod lleol. Efallai y bydd angen diwygio'r manylion hyn dros amser ac yn rheolaidd mewn ymateb i ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Byddai pwerau dirprwyedig felly'n briodol	Gweithdrefn gadarnhaol	Bydd y rheoliadau a gaiff eu llunio o dan y pŵer yn rhannol dechnegol ond byddant yn rhagnodi elfennau pwysig ynghylch y

					modd y mae'r Bil ADY yn sicrhau cysondeb a dilyniant wrth i ddysgwyr drosglwyddo o wahanol gyfnodau addysg.
29(4): Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Byddai rheoliadau o dan yr adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi'r amgylchiadau dros dro ac eithriadol pan na fyddai o dan ddyletswydd i ffafrio addysg prif ffrwd i blentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y bydd angen diwygio'r amgylchiadau hyn dros amser, mewn ymateb i ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth neu angen ac felly mae pwerau dirprwyedig yn briodol	Gweithdrefn negyddol	Nid yw'r mater dan sylw yn yr is-ddeddfwriaeth yn fanwl iawn ac nid yw'n debygol o fod yn ddadleuol.
33(5): Rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Wrth i awdurdodau lleol arfer eu dyletswyddau o dan y Bil drafft hwn ni allant ond sicrhau addysg neu hyfforddiant ar gyfer plentyn neu berson ifanc mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu Loegr os yw'r sefydliad dan sylw ar y rhestr a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 33. Mae pwerau dirprwyedig yn addas ar gyfer hyn gan eu bod yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ychwanegu a diwygio pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chasglu fel rhan o'r rhestr; gosod gofynion y mae'n rhaid	Gweithdrefn negyddol	Mae'n rhagnodi materion technegol a gweinyddol penodol, a all gael eu diweddarau o bryd i'w gilydd.

			cydymffurfio â hwy er mwyn cael bod ar y rhestr; tynnu oddi ar y rhestr; a hawliau sefydliadau i apelio yn erbyn penderfyniadau. Caiff y prif ddyletswyddau eu gosod ar wyneb y Bil drafft ond bydd angen diwygio'r gofynion manwl dros amser.		
39(1): Ffrindiau achos	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn caniatáu i ffrindiau achos gael eu defnyddio er mwyn cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc. Mae pwerau dirprwyedig yn addas ar gyfer y manylion hyn gan eu bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio dros amser ac mewn ymateb i amgylchiadau newidiol sut y gallai ffrindiau achos gael eu defnyddio er mwyn cefnogi hawliau'r plentyn/person ifanc.	Gweithdrefn gadarnhaol	Caiff prif sylwedd y mater dan sylw ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy arfer y pŵer.
40(4): Apelau	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn rhoi'r hawl i blant, rhieni a phobl ifanc apelio yn erbyn penderfyniad a wneir, gan gynnwys y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei derbyn, lle teimlir nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu bodloni. Gallai'r manylion ynghylch sut y gall apelau o'r fath gael eu gwneud newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i ystyriaethau ymarferol a all newid.	Gweithdrefn gadarnhaol	Caiff prif sylwedd y mater dan sylw ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy arfer y pŵer.
41(1): Y weithdrefn ar apelau	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Gallai'r manylion ynghylch sut y gall apelau o'r fath gael eu gwneud newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i ystyriaethau ymarferol a all newid.	Gweithdrefn gadarnhaol	Caiff prif sylwedd y mater dan sylw ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy

					arfer y pŵer.
42 Cydydffurfedd â gorchmynion	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau y cyfnod pan fydd yn rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol dan sylw gydymffurfio a gorchymyn Tribiwnlys Addysg Cymru, gan ddechrau ar ddyddiad ei lunio. Efallai y bydd angen i hyn newid o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae pwerau dirprwyedig felly'n addas.	Gweithdrefn negyddol	Mae'n rhagnodi materion technegol a gweinyddol penodol, a all gael eu diweddarau o bryd i'w gilydd.
46(3): Cydlunydd Anghenion Dysgu Ychwanegol	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn gosod dyletswydd ar holl gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau o fewn sector addysg bellach Cymru i ddynodi aelod o staff yn 'gydlunydd anghenion dysgu ychwanegol'. Bydd y pwerau dirprwyedig arfaethedig yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru bennu pa gymwysterau rhagnodedig neu brofiadau rhagnodedig y mae'n rhaid i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol fod ganddynt, a byddant yn rhoi unrhyw swyddogaethau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith Cydlunydd Anghenion Dysgu Ychwanegol fel y bo angen er mwyn sicrhau bod modd iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Efallai y bydd angen diweddarau'r rhain o bryd i'w gilydd, a hynny mewn ymateb i ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac anghenion.	Gweithdrefn negyddol	Mae'n rhagnodi materion technegol a gweinyddol penodol, a all gael eu diweddarau o bryd i'w gilydd.
49(5): Dyletswyddau cyrff cyhoeddus	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth a help i awdurdodau lleol. Mae pwerau	Gweithdrefn negyddol	Yn rhagnodi mater technegol neu

penodol i ddarparu gwybodaeth a help arall			dirprwyedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu amserlen ragnodedig y mae'n rhaid i gorff neu berson gydymffurfio â hi o ran cais o dan y ddyletswydd hon. Gall yr amserlenni newid o bryd i'w gilydd, yn unol ag angen sy'n seiliedig ar dystiolaeth.		weinyddol sy'n anhebygol o fod yn ddadleuol.
51(1). Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Rheoliadau sy'n galluogi awdurdod lleol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae pwerau dirprwyedig yn addas ar gyfer hyn gan eu bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu manylion technegol ynghylch telerau ac amodau y gallai fod angen eu newid o bryd i'w gilydd.	Gweithdrefn negyddol	Mae'n rhagnodi materion technegol a gweinyddol penodol, a all gael eu diweddarau o bryd i'w gilydd.
52(1): Rheoliadau ynghylch datgelu a defnyddio gwybodaeth	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd pwerau dirprwyedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu pwy ddylai dderbyn copïau ysgrifenedig o gynllun; darparu ar gyfer datgelu cynlluniau; a darparu ynghylch gwybodaeth a gaiff ei chasglu wrth i gynllun gael ei baratoi a'i gynnal. Bydd y rhain yn rhai technegol ac maent yn debygol o newid o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu ystyriaethau ymarferol a all newid	Gweithdrefn gadarnhaol	Caiff prif sylwedd y mater dan sylw ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy arfer y pŵer.
53(1): Rhieni heb alluedd	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwneud rheoliadau er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gyfreithiol ddigonol gan berson priodol i rieni a phobl ifanc heb alluedd meddyliol ar adeg pan fydd yn ofynnol iddynt wneud penderfyniad neu fynegi eu barn.	Gweithdrefn gadarnhaol	Yn ei gwneud hi'n bosibl i ddarpariaeth gael ei gwneud a allai effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau

					Deddfau Seneddol, Mesurau'r Cynulliad neu Ddeddfau'r Cynulliad.
55(3): Personau y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r adran hon yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru sy'n eu galluogi i wneud darpariaeth bellach ynghylch y personau y mae awdurdod lleol yng Nghymru'n gyfrifol amdano. Caiff y prif ddyletswyddau eu nodi ar wyneb y Bil drafft. Efallai y bydd angen diwygio'r manylion technegol dros amser.	Gweithdrefn negyddol	Manylion cymharol fân sydd i destun yr is-ddeddfwriaeth o fewn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol
56(1): Rheoliadau ynghylch plant sy'n derbyn gofal a phersonau a fu gynt yn derbyn gofal	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd pwerau dirprwyedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch cefnogaeth gan awdurdodau lleol i hybu cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, a darpariaeth ynghylch y rhai sydd ag ADY.	Gweithdrefn gadarnhaol os yw deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei diwygio. Gweithdrefn negyddol fel arall.	Gweithdrefn gadarnhaol os ydynt yn ei gwneud hi'n bosibl i ddarpariaeth gael ei gwneud a allai effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddfau Seneddol, Mesurau'r Cynulliad neu Ddeddfau'r Cynulliad.

					Gweithdrefn negyddol os ydynt yn rhagnodi mater technegol neu weinyddol sy'n anhebygol o fod yn ddadleuol.
57(2): Ystyr "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" a thermau allweddol eraill	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Byddai rheoliadau o dan yr adran hon yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud diwygiad technegol iawn i ystyr 'awdurdod cartref'; mewn perthynas â pherson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth sydd hefyd yn derbyn gofal os bydd polisi yn y dyfodol yn golygu bod hynny'n ofynnol.	Gweithdrefn negyddol	Manylion cymharol fân sydd i destun y rheoliadau o fewn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol ac mae'n dechnegol;
58(2)(b) Paratoi cynlluniau datblygu unigol ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth:	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol benderfynu, a hynny'n unol â rheoliadau, a oes angen iddynt gynnal cynllun ar gyfer person ifanc pan fydd yn cael ei ryddhau. Mae pennu meini prawf ar gyfer penderfynu pryd y mae angen iddynt wneud hynny yn cyd-fynd â phwerau dirprwyedig gan y bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru addasu dros amser y meini prawf a ddylai gael eu cymhwyso mewn ymateb i angen ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	Gweithdrefn negyddol	Yn rhagnodi mater technegol neu weinyddol sy'n anhebygol o fod yn ddadleuol.
62(4): Apelau	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyflwyno apelau i'r Tribiwnlys mewn	Gweithdrefn gadarnhaol	Caiff prif sylwedd y

			perthynas â pherson sy'n cael ei gadw'n gaeth. Mae pwerau dirprwyedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch cyflwyno a gwneud penderfyniadau ynghylch apelau, gan roi rhagor o bwerau i'r Tribiwnlys ynghylch gwneud penderfyniad ynghylch apêl ac ynghylch apelau na chaiff eu gwrthwynebu. Gallai'r manylion ynghylch sut y gall apelau o'r fath gael eu gwneud newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i ystyriaethau ymarferol a all newid.		mater dan sylw ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy arfer y pŵer.
63(6): Cyfansoddi Tribiwnlys Addysg Cymru	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn pennu cyfansoddiad Tribiwnlys Addysg Cymru. Mae pwerau dirprwyedig yn galluogi Gweinidogion Cymru, gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, i: (a) ddarparu i awdurdodaeth y Tribiwnlys gael ei harfer gan unrhyw nifer o dribiwnlysoedd y mae'r Llywydd yn penderfynu arno o bryd i'w gilydd, (b) gwneud unrhyw ddarpariaeth arall mewn cysylltiad â sefydlu'r Tribiwnlys a'i barhad yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol. Gallai fod angen i'r manylion technegol o fewn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon gael eu newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i ystyriaethau ymarferol a all newid	Gweithdrefn negyddol	Mae'n rhagnodi materion technegol, a all gael eu diweddarau o bryd i'w gilydd.
64(2): Y Llywydd ac aelodau'r paneli	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil drafft yn pennu darpariaethau ynghylch penodi person yn llywydd, a phenodi person yn aelod o banel y cadeirydd cyfreithiol neu'r panel lleyg. Mae pwerau dirprwyedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i	Gweithdrefn negyddol	Mae'n rhagnodi materion technegol a gweinyddol, a all gael eu

			ragnodi'r gofynion y mae'n rhaid i berson eu bodloni er mwyn cael ei benodi'n aelod o'r panel lleyg. Byddai'r rhain yn rhai technegol ac efallai y cânt eu diweddaru o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu ystyriaethau newydd		diweddaru o bryd i'w gilydd.
66(1): Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae pwerau dirprwyedig yn addas ar gyfer rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol ac unrhyw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed, os bernir bod hynny'n angenrheidiol. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.	Gweithdrefn gadarnhaol os yw deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei diwygio. Gweithdrefn negyddol fel arall.	Gweithdrefn gadarnhaol os ydynt yn ei gwneud hi'n bosibl i ddarpariaeth gael ei gwneud a allai effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddfau Seneddol, Mesurau'r Cynulliad neu Ddeddfau'r Cynulliad. Gweithdrefn negyddol os ydynt yn rhagnodi mater technegol neu weinyddol sy'n anhebygol o fod yn ddadleuol.

69(2) Dod i rym	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Heblaw am adrannau 1, 67, 68 a 70, mae'r Bil drafft wedi'i alluogi i ddod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol. Mae'r pŵer dirprwyedig hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y diwrnod a bennir yn cyd-fynd â'r trefniadau trosiannol y cytunir arnynt â rhanddeiliaid ar ôl i'r Bil drafft gael ei basio	Dim	Yn rhagnodi mater technegol a gweinyddol sy'n anhebygol o fod yn ddadleuol.
-----------------	--------------------	-----------	---	-----	---

RHAN 2 - ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL DRAFFT

Mae asesiad effaith rheoleiddiol drafft wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil drafft a gellir ei weld yn Rhan 2.

6. Yr Opsiynau

- 6.1 Amlinellir tri opsiwn isod a chaiff y manteision a'r anfanfeision eu hystyried yn fyr. Ceir dadansoddiad o gostau a manteision pob un ym mhennod 7.

Opsiwn 1: Gwneud dim – cynnal y trefniadau deddfwriaethol presennol ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu.

- 6.2 Ni fyddai'r opsiwn 'gwneud dim' yn newid y trefniant deddfwriaethol presennol. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnal y fframweithiau deddfwriaethol presennol ynghylch AAA ac anawsterau a/neu anableddau dysgu. Byddai'n cynnal yn benodol:
- y gwahaniaeth presennol rhwng dysgwyr ag AAA sydd â datganiad a'r rhai nad oes ganddynt ddatganiad;
 - y prosesau sydd ynghlwm wrth asesu ar gyfer datganiad AAA a chyhoeddi datganiad AAA;
 - dyletswyddau Gweinidogion Cymru o safbwynt:
 - asesu dysgwyr ôl-16 a threfnu Cynllun Sgiliau Dysgu;
 - cyllido darpariaeth ôl-16 arbenigol;
 - cymeradwyo ysgolion annibynnol fel bod modd lleoli dysgwyr ag AAA ynddynt.

Y Manteision

- Ni fyddai unrhyw gostau trosiannol/gweithredu ychwanegol ynghlwm wrth Opsiwn 1 ac ni fyddai ychwaith unrhyw ofynion o ran hyfforddiant na datblygiad proffesiynol ynghlwm wrth weithredu systemau neu brosesau newydd.

Yr Anfanfeision

- Byddai'r system bresennol o safbwynt asesu a chefnogi dysgwyr ag AAA ac anawsterau a/neu anableddau dysgu yn parhau'n annigonol ac yn aneffeithlon.
- Nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig opsiwn polisi synhwyrol ar gyfer dull hirdymor ac effeithiol o gefnogi dysgwyr ag AAA neu anawsterau a/neu anableddau dysgu. Mae'r cyn Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; Swyddfa Archwilio Cymru; y Comisiwn Archwilio ac Estyn wedi cytuno ers 2003 fod y system bresennol yn rhy fiwrocrataidd, nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn ac nid yw'n hawdd ei defnyddio.
- Mae'r opsiwn hwn yn cynnal system sydd wedi hen ddyddio ac nad yw'n adlewyrchu dull presennol Llywodraeth Cymru o roi llais i blant, pobl ifanc

a rhieni a'u grymuso i wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy, fel y dull a bennir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

- Byddai Llywodraeth Cymru'n parhau'n gyfrifol am gynllunio a chyllido darpariaeth ôl-16 arbenigol. Mae'r system hon yn seiliedig ar angen unigol a gall darpariaeth arbenigol sydd wedi'i theilwra fod yn gostus. Mae'r costau sydd ynghlwm wrth gyllido darpariaeth ôl-16 arbenigol wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Opsiwn 2: Cyflwyno system o ADY yn seiliedig ar gynigion yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn 2012 yn lle'r trefniadau deddfwriaethol presennol ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA neu anawsterau a/neu anableddau dysgu.

6.3 Byddai Opsiwn 2 yn golygu cyflwyno Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a fyddai'n disodli'r fframweithiau deddfwriaethol presennol ar gyfer AAA ac anawsterau a/neu anableddau dysgu. Byddai'r Bil yn seiliedig ar y cynigion a gafodd eu cynnwys yn y ddau ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012 sef *'Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol'*⁴ a *'Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig'*⁵.

6.4 Y cynigion a nodwyd yn nogfennau ymgynghori 2012 oedd cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n:

- rhoi sail statudol i'r cysyniad o 'Anghenion Ychwanegol' (AY) a fyddai'n cynnwys anawsterau sy'n gysylltiedig ag anghenion corfforol, synhwyrol neu anghenion iechyd meddwl; anghenion cyfathrebu; y gallu i ddysgu; neu ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Gallai hyn gynnwys plant a phobl ifanc sy'n cael eu cynnwys yn y categorïau a restrir y cyfeirir atynt yn y canllawiau *'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion'*.⁶ Er y byddai'r modd y byddent yn derbyn cefnogaeth yn dibynnu ar eu hangen unigol sydd wedi'i asesu, o dan system arfaethedig 2012 gallai'r plant a'r bobl ifanc sy'n gymwys ar gyfer Cynllun Datblygu Unigol gynnwys:
 - plant o deuluoedd sy'n wynebu amgylchiadau anodd;
 - disgyblion ag AAA;
 - disgyblion ag anabledd corfforol, anhwylder datblygiadol neu salwch meddwl;
 - disgyblion sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol;
 - plant sy'n ceisio lloches/sy'n ffoaduriaid;
 - sipsiwn a theithwyr;
 - plant gweithwyr mudol;
 - disgyblion mwy abl a thalentog;
 - plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol;

⁴ <http://gov.wales/consultations/education/senframeworkconsultation/?lang=cy>

⁵ <http://gov.wales/consultations/education/senregistration/?lang=cy>

⁶

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?lang=cy>

- disgyblion ag anghenion meddygol neu sydd wedi colli defnydd o un neu fwy o'r synhwyrâu;
- rhieni ifanc a merched ifanc sy'n feichiog;
- pobl ifanc sy'n troseddu;
- gofalwyr ifanc;
- disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol;
- plant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol ac sydd â ffobia ysgol;
- disgyblion sy'n perfformio neu sydd â gwaith;
- creu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) newydd ac integredig ar gyfer dysgwyr ag AY a fydd yn disodli'r cynlluniau statudol presennol (ee Datganiadau AAA) a chynlluniau anstatudol (ee cynlluniau addysg unigol ar gyfer dysgwyr a gefnogir ar hyn o bryd drwy Gweithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau ar gyfer dysgwyr ôl-16);
- creu gwahanol fathau o CDU gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar unigolion; rhai lle y mae ganddynt fel dysgwyr hawl sydd wedi'i diogelu'n statudol o ran addysg, iechyd a gofal cymdeithasol; rhai y bydd canllawiau ar eu cyfer yn y Cod Ymarfer; a rhai fel mater o arfer dda ar gyfer gwahanol grwpiau oedran sy'n rhan o'r gwahanol gategorïau o angen sydd o fewn cwrmpas AY;
- estyn ystod oedran y dysgwyr ag anghenion difrifol a/neu gymhleth sydd â hawl i CDU o'u geni hyd nes y byddant yn 25 mlwydd oed;
- gweithredu CDU ar y we y byddai modd cysylltu cynlluniau eraill iddo neu osod un arall yn ei le;
- cyflwyno rôl y 'Cyddlynnydd Cefnogi' sef yr unigolyn a fyddai'n bennaf gyfrifol am gydlynw gwasanaethau ar gyfer y dysgwyr ag AY;
- cyflwyno paneli amlasiantaeth lleol o'r enw 'Paneli Cefnogi' a fyddai'n asesu ac yn cymeradwyo'r pecyn o wasanaethau arbenigol sydd eu hangen ar y dysgwr ag AY ac a fyddai'n cael eu darparu ym maes addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd;
- cyflwyno 'Paneli Cefnogi' rhanbarthol a fydd yn hwyluso cynllunio a chomisiynu strategol ar y cyd;
- gosod dyletswyddau ar gyffwrthnasol (fel awdurdodau lleol a'r GIG);
- cyflwyno proses ar gyfer cyfryngu a datrys anghydfodau. Byddai cyfrifoldeb cyffredinol ar bob asiantaeth a sefydliad i gydweithio er mwyn dod i benderfyniad terfynol;
- estyn yr hawliau presennol i gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys i gynnwys yr ystod oedran newydd. Byddai gofyn, fodd bynnag, i bob anghydfod ddilyn y broses ar gyfer datrys anghydfodau yn gyntaf;
- ehangu cylch gwaith y Tribiwnlys presennol er mwyn cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai hyn yn ddarostyngedig i gamau diogelu priodol ynghylch materion yn ymwneud â dyfarniad clinigol o angen;
- estyn y trefniadau presennol ar gyfer Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni er mwyn cynnwys dysgwyr ag AY a'u rhieni/gofalwyr;
- gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi cod ymarfer ynghylch y fframwaith statudol newydd ar gyfer AY;
- cyflwyno system ar gyfer sicrhau ansawdd er mwyn monitro deilliannau dysgwyr ag ADY;

- pennu bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu angen, ac am sicrhau a chyllido darpariaeth addysg bellach arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu;
- diwygio'r system ar gyfer cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol o safbwynt AAA.

Y Manteision

- Byddai Opsiwn 2 yn sicrhau bod gan nifer sylweddol uwch o ddysgwyr hawl i CDU o'i gymharu â'r nifer sydd â hawl iddynt o dan y fframweithiau deddfwriaethol presennol ar gyfer AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu.
- Byddai'r CDU yn ceisio disodli neu integreiddio'r holl gynlluniau unigol eraill y gallai'r dysgwr fod yn ddarostyngedig iddynt gan gynnwys cynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai cynlluniau statudol a chynlluniau anstatudol presennol yn cael eu disodli gan gynllun unigol, y CDU, a ddatblygir drwy ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion. Byddai hyn hefyd yn cynnwys, lle y bo'n berthnasol, hawl wedi'i diogelu'n statudol y rhai sydd ag anghenion cymhleth a/neu ddifrifol.
- Byddai'n cyflwyno cyfres unigol o drefniadau ar gyfer dysgwyr ag anghenion difrifol a/neu gymhleth, o'u geni hyd nes y byddant yn 25 mlwydd oed.
- Byddai'n mynd i'r afael â diffygion y system bresennol o ran y ffaith ei bod yn achosi gwrthdaro ac yn llafurus o ran amser i'r rhai sydd ynghlwm wrth y broses. Byddai hefyd yn ceisio gwella'r modd yr ymdrinnir â phryderon ac anghytundebau.
- Byddai prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu gwella drwy system a fyddai'n olrhain deilliannau dysgwyr, yr adnoddau cysylltiedig a neilltuwyd, adborth perthnasol gan bawb perthnasol a dangosyddion perfformiad.
- Byddai cyflwyno CDU ar y we yn galluogi gweithwyr proffesiynol i gael gafael ar CDU dysgwyr yn electronig a chyfrannu atynt.
- Trwy'r Paneli Cefnogi rhanbarthol, byddai cynllunio a chomisiynu strategol ar y cyd yn sicrhau bod gwasanaethau lleol a phriodol o ran oedran yn cael eu darparu yn y gymuned i'r dysgwyr hynny ag AY cymhleth/difrifol a'r trefniadau cyllido ar y cyd cysylltiedig ac angenrheidiol. Byddai cynnwys deiliaid cyllidebau o bob asiantaeth o fewn yr aelodaeth yn sicrhau ymatebion hyblyg o ran cyllid ar gyfer dysgwyr ag AY cymhleth a/neu ddifrifol y mae arnynt angen lleoliad a gefnogir o fewn y rhanbarth neu leoliad arbenigol o fewn y rhanbarth/y tu allan i'r rhanbarth.
- Byddai'n diwygio'r broses o leoli person ifanc mewn sefydliad ôl-16 arbenigol, sy'n broses aneffeithlon ac aneffeithiol. Byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau a chyllido lleoliadau addysg bellach arbenigol, gan wella'r broses drosglwyddo ac annog awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 i gydweithio'n fwy effeithiol.

Yr Anfanteision

- Byddai'r diffiniad arfaethedig o AY yn cael ei ehangu o'r categori presennol o AAA i gynnwys y rhai yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru

ynghylch Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion. Byddai hyn yn golygu bod nifer y plant y byddai gofyn trefnu cynllun statudol ar eu cyfer lawer yn uwch na nifer presennol y plant sydd â hawl i Ddatganiad AAA. Gallai'r broses ynghyd â'r goblygiadau gweinyddol o ystyried y ffaith y byddai nifer uwch o ddysgwyr yn cael eu cynnwys o dan ddiffiniad newydd o AY fod yn feichus iawn i ymarferwyr ac yn gostus i ysgolion, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

- Byddai'r cynnig yn cyflwyno system aneglur a biwrocraidaidd o CDU statudol a CDU anstatudol. Byddai hyn yn efelychu'r problemau presennol o fewn y system bresennol ar gyfer datganiadau. Ni fyddai'r cynnig ychwaith yn ymdrin â'r annhegwch tybiedig presennol o ran y ffaith na fyddai hawl pob dysgwr i'r ddarpariaeth gymeradwy wedi'i diogelu'n statudol.
- Byddai'r cynnig hefyd yn golygu ei bod yn ofynnol adolygu CDU statudol bob 6 mis. Byddai hyn yn feichus iawn i'r holl randdeiliaid y byddai gofyn iddynt fod yn rhan o hyn. Yr adborth a gafwyd o'r prosiectau peilot ADY a wnaeth dreialu adolygiadau 6 misol oedd fod hyn yn creu llwyth gwaith na fyddai modd ei reoli.
- Mae'r model yn y ddogfen ymgynghori ynghylch ymateb wedi'i raddoli (o ran oedran a lefel yr angen) yn ddryslyd gan ei fod yn cynnwys categorïau ar gyfer y rhai ag anghenion cymhleth a'r rhai ag anghenion difrifol a/neu gymhleth. Byddai'r opsiwn hwn yn troi'r 'frwydr bresennol am ddatganiad' yn 'frwydr am asesiad/diagnosis o anghenion cymhleth' er mwyn sicrhau darpariaeth amlasiantaeth.
- Os byddai'r CDU yn disodli neu'n integreiddio'r holl gynlluniau eraill, gallai gwasanaethau addysg fod yn arwain o ran meysydd nad ydynt yn gysylltiedig ag addysg. Gallai rhai farnu mai nhw sy'n gyfrifol am y meysydd hyn, ee lle y gallai plentyn fod â chynllun gofal iechyd neu gynllun gofal personol.
- Cynigiodd yr opsiwn hwn y byddai CDU yn cael eu hestyn er mwyn cynnwys dysgwyr eraill, fel mater o arfer dda. Byddai sicrhau CDU ar gyfer pob dysgwr yn feichus iawn o ran amser i ymarferwyr a byddai goblygiadau o ran cost i'r ysgol/sefydliad addysg bellach. Yn y bôn, bernir na fyddai'n gynaliadwy.
- Goblygiadau ariannol posibl ar gyfer awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a byrddau iechyd lleol o ystyried y swyddogaethau ychwanegol sy'n ofynnol a/neu'r ystod oedran estynedig. Disgrifir y rhain mewn rhagor o fanylder ym Mhennod 7.
- Gallai cyflwyno cyfryngu o fewn y broses anghydfodau arwain at oblygiadau sylweddol o safbwynt cost ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru, a gallai rhieni farnu ei fod yn rhwystro'n gyfreithlon apêl rhag cyrraedd y Tribiwnlys.
- Byddai ehangu cylch gwaith y Tribiwnlys i gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol yn gostus iawn yn sgil yr angen i benodi gweithwyr meddygol proffesiynol sydd â'r cymwysterau clinigol angenrheidiol. Byddai hefyd yn creu anghydraddoldeb yn y system gan y byddai gan y rhai sydd ag anghenion iechyd cysylltiedig ddwy ffordd o gyflwyno cwyn. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y gallai hyn danseilio egwyddorion craidd y GIG o safbwynt darparu a blaenoriaethu gwasanaethau iechyd ar sail angen clinigol.

- Byddai cyflwyno CDU ar y we yn golygu bod angen y lefelau diogelwch uchaf posibl er mwyn sicrhau na fyddai modd i wybodaeth gyfrinachol gael ei rhannu'n amhriodol. Byddai system o'r fath yn gostus iawn i'w datblygu a'i chyflwyno. Wynebodd prosiectau peilot ADY rwystrau o safbwynt darbwyllo pob asiantaeth i fabwysiadu system ar-lein. Gwrthododd gwasanaethau iechyd, yn benodol, ddefnyddio'r CDU ar-lein. Mae risg gwirioneddol felly na fyddai pob asiantaeth yn defnyddio system o'r fath.
- Efallai y byddai cynnydd cychwynnol yn y baich gweinyddol a fyddai'n deillio o drosglwyddo o'r systemau deddfwriaethol presennol ac ar wahân i system unigol. Fodd bynnag, gallai cyfathrebu effeithiol a chmau gweithredu graddol helpu i leihau'r cynnydd.

Opsiwn 3: Cyflwyno system unedig ac unigol yn seiliedig ar ADY yn unol â Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru 'Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol' (2014) yn lle'r trefniadau deddfwriaethol presennol ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA neu anawsterau a/neu anabledau dysgu. Dyma'r opsiwn a ffeirir.

- 6.5 Yn sgil ystyried ymhellach y cynigion a nodwyd yn opsiwn 2, a'r adborth a dderbyniwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriadau yn 2012, datblygwyd Papur Gwyn sef 'Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol' a gyhoeddwyd at ddiben ymgynghori ym mis Mai 2014. Ceisiodd y cynigion ym Mhapur Gwyn 2014 fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynghylch gwahanol agweddau ar gynigion 2012, ac ystyriwyd gwahanol ffactorau eraill fel canlyniadau prosiectau peilot ADY, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Plant a Theuluoedd 2014. Ers hynny rydym wedi ystyried ymhellach yr ymatebion i'r Papur Gwyn ac rydym wedi cynnwys y cynigion hyn ym Mil drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), sef opsiwn 3.
- 6.6 Mae Opsiwn 3 yn golygu cyflwyno Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn gweithredu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff prif ddarpariaethau'r Bil drafft eu disgrifio ym Mhennod 3. Mae'r cynigion yn opsiwn 3 yn adeiladu ar y rhai a nodwyd yn opsiwn 2. Caiff rhai ohonynt eu mireinio er mwyn cyflawni'n well fwriadau polisi gwreiddiol opsiwn 2 a chaiff rhai eu hail greu'n sylweddol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig atebion ymarferol i ddiffygion y system bresennol ac yn ystyried newidiadau o fewn y cyd-destun polisi a deddfwriaethol ehangach, ond hefyd yn parhau'n flaengar ac yn radical.
- 6.7 Yn yr un modd ag opsiwn 2, byddai opsiwn 3 yn:
- Cyflwyno CDU statudol yn lle'r cynlluniau statudol ac anstatudol presennol ar gyfer dysgwyr ag AAA ac anawsterau a/neu anabledau dysgu;
 - Creu cynllun unigol ar gyfer dysgwyr o'u geni hyd nes y byddant yn 25 mlwydd oed;
 - Gosod dyletswyddau ar gyrff perthnasol (fel awdurdodau lleol a'r GIG);

- Estyn yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys er mwyn cynnwys yr ystod oedran newydd;
- Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi Cod;
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu angen, a sicrhau a chyllido darpariaeth addysg bellach arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu;
- Diwygio'r system ar gyfer cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol o safbwynt AAA

Eto i gyd, ni fyddai opsiwn 3 yn:

- Estyn cwmpas CDU i'r grŵp eang iawn o blant a phobl ifanc y mae'r term 'Anghenion Ychwanegol' yn eu cynnwys (yn hytrach byddai opsiwn 3 yn canolbwyntio ar 'ADY' sy'n cyfateb i raddau helaeth i'r diffiniad presennol o AAA ac anawsterau a/neu anableddau dysgu)
- Gwahaniaethu rhwng plant a phobl ifanc sydd â CDU, gan sicrhau bod rhai ond nid pawb yn cael eu diogelu'n statudol;
- Gweithredu CDU ar y we ag iddo sail statudol;
- Cyflwyno rôl cydlynnydd cefnogi;
- Cyflwyno paneli amlasiantaeth;
- Cyflwyno paneli cefnogi rhanbarthol;
- Ei gwneud hi'n ofynnol i weithdrefnau datrys anghydfod gael eu cynnal cyn y gall apêl gael ei chyflwyno;
- Ehangu cylch gwaith y Tribiwnlys er mwyn cynnwys ieuchyd a gofal cymdeithasol.

6.8 Diben y cynigion yn opsiwn 3 yw cyflawni tri amcan cyffredinol, gan greu:

- fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol;
- system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chynngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau.

Y Manteision

- Byddai gan bob dysgwr ag AAA yr un hawl i sicrhau bod ei anghenion yn cael eu pennu a'i fod yn derbyn y ddarpariaeth sydd ei hangen arno i gefnogi ei ddysgu, pa bynnag mor gymhleth yw ei anghenion. Byddai gan bob dysgwr sydd ag ADY hawl i gynllun statudol, y CDU, lle y byddai'r ddarpariaeth a bennir yn y cynllun gweithredu yn cael ei diogelu'n statudol.
- Effaith hyn fydd sicrhau bod gan bob dysgwr â CDU yr un hawl i apelio, pa bynnag mor gymhleth yw ei anghenion.
- O'i gymharu â'r cwmpas eang o ddysgwyr y byddai opsiwn 2 yn eu cynnwys, byddai'r diffiniad arfaethedig o ADY yn cynnal y pwyslais ar y rhai y mae mwyaf angen cefnogaeth arnynt. O'r herwydd, ni ddylai nifer y dysgwyr sy'n cael eu cynnwys o dan y diffiniad newydd hwn o ADY fod yn uwch na'r nifer sy'n cael eu cynnwys ar hyn o bryd o dan y diffiniad o AAA

neu'r diffiniad o "anawsterau a/neu anabledau dysgu" ym maes addysg ôl-16.

- Byddai'n creu trefniadau cyson ar gyfer y dysgwyr hynny ag ADY o'u geni hyd nes y byddant yn 25 mlwydd oed.
- Byddai Opsiwn 3 yn gwneud y broses statudol bresennol yn fwy hyblyg ac yn gwaredu'r gwahaniaethu rhwng darpariaeth addysgol arbennig sydd wedi'i diogelu'n statudol a darpariaeth addysgol arbennig nad yw wedi'i diogelu'n statudol. Byddai'r hyblygrwydd a fyddai ynghlwm wrth y system arfaethedig yn sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir i'r plentyn neu'r person ifanc yn cyd-fynd â'i anghenion wrth iddynt newid dros amser. Yn ogystal, os oes gan y plentyn ADY byddai'n sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei diogelu'n statudol.
- Byddai cynllun unigol, y CDU, yn cael ei gyflwyno a fyddai'n cynnwys dysgwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Byddai hyn yn sicrhau gwell cydlyniant a pharhad ac yn annog awdurdodau lleol a darparwyr addysg i gynllunio'n gynharach ar gyfer trosglwyddo. Canlyniad hyn fyddai trosglwyddiad haws rhwng sefydliadau a byddai unrhyw ddarpariaeth sydd ei hangen ar berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach yn cael ei phennu cyn iddo ddechrau ar ei gwrs.
- Dylai'r broses achosi llai o wrthdaro a dylai leihau'r diffyg ymddiriedaeth a'r rhwystredigaeth y mae rhieni/gofalwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Byddai'r broses o roi datganiadau, sef proses y mae rhai yn ei hystyried yn un sy'n digwydd drostynt, yn cael ei disodli gan CDU a gaiff ei ddatblygu drwy ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion. Byddai'r dysgwr a'r rhiant/gofalwr yn cael eu cynnwys gydol y broses. Byddai hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy. Byddai'r broses hefyd yn lleihau lefel y gwrthdaro ac yn ei gwneud hi'n haws i ddatrys anghytundebau'n gynnar.
- Byddai proses fwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer sicrhau darpariaeth ôl-16 arbenigol i ddysgwyr. Byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau a chyllido lleoliadau addysg bellach arbenigol sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni anghenion y person ifanc. Byddai hyn yn hwyluso gwell cysylltiadau rhwng adrannau addysg ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, sy'n angenrheidiol er mwyn cefnogi trosglwyddiad effeithiol dysgwyr i ddarpariaeth ôl-16 arbenigol.
- Byddai gwella'r broses gofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol ac atal awdurdodau lleol rhag lleoli dysgwr mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru ar gyfer bodloni mathau penodol o ADY yn sicrhau system fwy effeithiol ar gyfer lleoli dysgwyr ag ADY o fewn y sector annibynnol. Byddai hyn hefyd yn arwain at wybodaeth fwy clir a gwell sicrwydd i'r awdurdod lleol a'r rhiant fod modd i ysgol annibynnol fodloni anghenion y dysgwr, a gaiff eu nodi o fewn eu CDU.
- Byddai'r systemau ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor yn cael eu gwella a dylent olygu bod unrhyw anghytundebau'n cael eu datrys yn gynharach.

Yr Anfanteision

- Gallai trosglwyddo o'r systemau deddfwriaethol presennol ac ar wahân i system unigol olygu cynnydd cychwynnol yn y baich gweinyddol. Fodd bynnag, gallai cyfathrebu effeithiol a chymau gweithredu graddol helpu i leihau'r cynnydd.
- Goblygiadau ariannol posibl ar gyfer awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a byrddau iechyd lleol o ystyried y swyddogaethau ychwanegol sy'n ofynnol a/neu'r ystod oedran estynedig. Disgrifir y rhain mewn rhagor o fanylder ym Mhennod 7.

7. Costau a manteision

- 7.1 Mae'r bennod hon yn dadansoddi costau a manteision opsiynau pennod 6. Mae'r asesiad o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiynau 2 a 3 yn seiliedig ar waith dadansoddi gan Lywodraeth Cymru a mewnbwn gan Lywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, Estyn a Gyrfa Cymru. Pan gynhaliodd Deloitte adolygiad annibynnol (gweler isod) bu cyswllt agos ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, ysgolion amrywiol (meithrinfeydd, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac uned cyfeirio disgyblion) a sefydliadau addysg bellach. Rhoddir gwerth ariannol i'r costau lle y bo'n bosibl. Mae'n eithriadol o anodd pennu gwerth marchnad i fanteision ac felly rydym wedi cynnwys disgrifiad ohonynt.

An examination of the provision of funding for learners with special educational needs or learning difficulties and/or disabilities (Deloitte, 2015)

- 7.2 Yn 2014 comisiynodd Llywodraeth Cymru Deloitte i gynnal adolygiad annibynnol er mwyn ymchwilio a dadansoddi bob agwedd ar y costau sydd ynghlwm wrth gefnogi dysgwyr ag AAA neu anawsterau a/neu anabledau dysgu o dan y fframweithiau deddfwriaethol presennol ar draws Cymru. Roedd hyn yn cynnwys ystyried cyfanswm y costau mewn pedwar maes allweddol:
- asesu angen;
 - darparu cefnogaeth;
 - adolygiadau;
 - anghydfodau ac apelau.
- 7.3 Aeth Deloitte ati i ddadansoddi ystadegau sydd wedi'u cyhoeddi gan gynnwys gwariant Alldro Refeniw Awdurdodau Lleol, datganiadau altro Adran 52, data CYBLD⁷/Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru⁸, Adroddiadau Blynnyddol Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru⁹; etc; casglu a dadansoddi data arolygon ynghylch rhanddeiliaid allweddol fel awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, ysgolion, Gyrfa Cymru; a lle y bo'n bosibl ragdybio lle nad oedd modd casglu'r wybodaeth ariannol angenrheidiol. Mae adroddiad Deloitte ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/additoinal-learning-needs-reform/?skip=1&lang=cy>
- 7.4 Rydym wedi defnyddio casgliadau adroddiad Deloitte fel sail i'n dadansoddiad

⁷ <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/pupillevelannualschoolcensus/?lang=cy>

⁸ <http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/datacollection/llwr09/?lang=cy>

⁹ <http://sentw.gov.wales/about/areports/?lang=cy>

o'r costau a'r manteision. Eto i gyd, fel y noda Deloitte yn eu hadroddiad: *'It was apparent ... that the information needed ... is simply not recorded at the present time, including a lack of records on how much is spent meeting SEN/LDD needs as well as cost information at a process level. For example schools record how much they spend on salaries, equipment...but they do not analyse their spending into particular functions.'*

- 7.5 O'r herwydd, dylai'r holl gostau o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn gael eu hystyried fel yr amcangyfrifon gorau, ar sail casgliadau adroddiad Deloitte a'r dystiolaeth sydd ar gael.

Opsion 1: Gwneud dim – cynnal y trefniadau presennol

- 7.6 Os byddai'r system bresennol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag AAA neu anawsterau a/neu anableddau dysgu yn parhau ni fyddai unrhyw gostau trosglwyddo/gweithredu. Fel y dengys y tabl isod, nid yw costau'r system yn sefydlog. Gallant newid yn unol ag anghenion y dysgwyr ag AAA ac anawsterau a/neu anableddau dysgu. Gallai'r costau sydd ynghlwm wrth leoliadau ôl-16 arbenigol gynyddu yn sgil y diffyg cydweithio, diffygion y trefniadau trosglwyddo a'r diffyg blaengynllunio. Disgwylir i'r costau o dan yr opsiwn 'Gwneud dim' barhau'n gymharol gyson yn y tymor byr. Mae'r tabl isod yn amcangyfrif cyfanswm y cyllid a ddarperir gan gyrff cyhoeddus mewn perthynas ag AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu bob blwyddyn rhwng 2011 a 2014 yng Nghymru. Yn 2013-14, amcangyfrifodd Deloitte fod cyfanswm o £354.1 miliwn wedi'i wario ar ddarpariaeth AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu ar draws Cymru.

Tabl 1: Cyllid a ddarparwyd yn ystod y tair blynedd rhwng 2011 a 2014

	2011-12 (£m)	2012-13 (£m)	2013-14 (£m)
Llywodraeth Cymru (Lleoliadau Ôl-16 Arbenigol)	8.9	9.7	10.4
Gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol	167.5	155.7	138.4
Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol	5.6	5.8	6.1
Ysgolion	157.1	178.3	176.2
Sefydliadau Addysg Bellach	7.3	7.4	7.5
Byrddau Iechyd Lleol	13.7	14.1	14.7
Gyrfa Cymru	0.8	0.7	0.7

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru	0.1	0.2	0.1
Cyfanswm	361.0	371.9	354.1

Ffynhonnell: Adroddiad Deloitte, Mawrth 2015

7.7 Yn 2013-14 roedd 107,842 o ddysgwyr¹⁰ yng Nghymru wedi'u pennu fel rhai ag AAA. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi'u categorïddio fel dysgwyr a gefnogir gan Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ac sydd â Datganiad AAA. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y dysgwyr ag AAA rhwng 2011-12 a 2013-14.

Tabl 2: Nifer y plant ag AAA

	2011-12	2012-13	2013-14
LLEOLIADAU A GYNHELIR			
Cyfanswm nifer y disgyblion mewn lleoliad a gynhelir	465,943	464,868	465,081
Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	89,940	91,053	92,773
Dysgwyr â Datganiad	13,098	12,738	12,530
Cyfanswm mewn lleoliadau a gynhelir	103,038	103,791	105,303
LLEOLIADAU ANNIBYNNOL			
Cyfanswm nifer y disgyblion mewn lleoliad annibynnol	8,929	8,862	8,603
Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1009	1043	1092
Dysgwyr â Datganiad	343	386	388
Cyfanswm mewn lleoliadau annibynnol	1352	1429	1480
Addysg heblaw yn yr ysgol			
Cyfanswm nifer y dysgwyr sy'n	2,577	2,577	2,367

¹⁰ <https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/pupilssen-by-localauthorityregion-provision>

derbyn eu haddysg heblaw yn yr ysgol			
Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	557	589	635
Dysgwyr â Datganiad	365	443	424
Cyfanswm sy'n derbyn eu haddysg heblaw yn yr ysgol	922	1032	1059
Cyfanswm nifer y disgyblion	477,449	476,307	476,051
Cyfanswm a gefnogir gan Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	91,506	92,685	94,500
Cyfanswm â Datganiad	13,806	13,567	13,342
Cyfanswm y Ddarpariaeth AAA	105,312	106,252	107,842

Ffynhonnell: StatsCymru

7.8 Mae'r tabl isod yn dangos nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed mewn darpariaeth ôl-16 yng Nghymru sydd wedi nodi bob blwyddyn rhwng 2011 a 2014 bod ganddynt anabledd. Mae hyn yn cynnwys y rhai ag anhawster/anabledd dysgu a'r rhai ag anabledd corfforol. Dylid nodi nad oes yn rhaid i'r dysgwyr sy'n trosglwyddo i Addysg Bellach nodi bod ganddynt anabledd. Yn 2013-14, nododd 8408 o ddysgwyr rhwng 16 a 25 oed a oedd mewn darpariaeth ôl-16 yng Nghymru fod ganddynt anhawster a/neu anabledd dysgu a/neu anabledd corfforol.

7.9 Gallai person ifanc gael ei leoli mewn coleg annibynnol arbenigol os yw ei anghenion yn golygu bod angen darpariaeth o'r fath arno. Byddai gan y bobl ifanc hyn anhawster a/neu anabledd dysgu sy'n golygu bod angen darpariaeth arbenigol arnynt i fodloni eu hanghenion.

Tabl 3: Nifer y bobl ifanc mewn darpariaeth ôl-16 sydd ag anhawster a/neu anabledd dysgu a/neu anabledd corfforol

	2011-12	2012-13	2013-14
Cyfanswm y dysgwyr sydd wedi cofrestru mewn lleoliad Addysg Bellach prif ffrwd	80,660	80,690	79,805
Nifer y dysgwyr ag anhawster a/neu anabledd dysgu mewn lleoliad Addysg Bellach prif ffrwd (yn cynnwys anabledd corfforol)	8,255	7,515	8,130
Coleg Arbenigol Annibynnol	254	250	278
Cyfanswm nifer y dysgwyr ag anhawster a/neu anabledd dysgu/anabledd	8,509	7,765	8,408

Costau yn ôl Sector

Llywodraeth Cymru

Lleoliadau ôl-16 arbenigol annibynnol

7.10 Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru o safbwynt cyllido darpariaeth ôl-16 arbenigol. Mae'r cyllid hwn yn gysylltiedig â'r gefnogaeth a ddarperir. Gall dysgwyr ôl-16 ag anhawster a/neu anabledd dysgu ac nad oes modd i'w hanghenion gael eu bodloni o fewn sefydliadau addysg bellach prif ffrwd dderbyn addysg mewn colegau arbenigol annibynnol. Mae Llywodraeth Cymru'n cyllido'r ddarpariaeth, gan ystyried pob achos yn unigol, a lle y bo'n briodol mae adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol perthnasol a/neu'r bwrdd iechyd lleol yn cyfrannu at gost lleoliad unigol. Rhaglenni astudio dros ddwy neu dair blynedd yw'r rhai a gyllidir.

7.11 Mae Tabl 4 yn dangos cyfanswm cost lleoliadau mewn colegau arbenigol annibynnol dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2013-14, darparwyd £16.7m er mwyn galluogi 278 o ddysgwyr i dderbyn addysg mewn coleg arbenigol annibynnol. Mae gan bob dysgwr gyfres benodol o anghenion sy'n galw am becyn unigryw o gefnogaeth. Mae anghenion rhai dysgwyr lawer yn fwy costus nag anghenion dysgwyr eraill.

Tabl 4: Cost Dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol

	2011/12	2012/13	2013/14
Cyfraniad gan Lywodraeth Cymru	£8.9m	£9.7m	£10.4m
Cyfraniad gan fyrddau iechyd lleol	£0.6m	£0.7m	£0.8m
Cyfraniad gan awdurdodau lleol (gwasanaethau cymdeithasol)	£5.1m	£5.3m	£5.5m
Cyfanswm y gost	£14.6m	£15.7m	£16.7m

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

7.12 Mae Llywodraeth Cymru yn cyflogi chwe aelod o staff i reoli'r broses ymgeisio, cymeradwyo a chyllido sydd ynghlwm wrth leoliadau arbenigol. Dim ond pedwar aelod o staff, fodd bynnag, sy'n canolbwyntio'n llwyr ar gyllido lleoliadau arbenigol. Mae'r rheolwr hefyd yn treulio oddeutu 12 wythnos bob blwyddyn ar yr agwedd hon ar ei waith. Cost flynyddol gros y cyflog, yn cynnwys costau teithio a chostau cynhaliadau cyfartalog dros dair blynedd, yw £166,700.

Cymeradwyaeth a chydsyniad unigol ar gyfer ysgolion annibynnol

- 7.13 Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru o safbwynt cymeradwyo ysgolion annibynnol i dderbyn dysgwyr sydd â datganiadau AAA. Ar hyn o bryd mae'r broses gymeradwyo ynghylch ysgolion annibynnol o safbwynt AAA yn rhan integredig o'r broses gyffredinol ar gyfer cofrestru ysgolion annibynnol. Mae cofrestriad ysgol annibynnol yn nodi a fyddai hi'n derbyn disgyblion ag AAA a pha ddarpariaeth y gall ei chynnig. Nid yw'n bosibl, o'r herwydd, i bennu cost benodol ar gyfer y rhan o'r broses gofrestru sydd ynghlwm wrth gymeradwyo darpariaeth i ddysgwyr ag AAA.
- 7.14 Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn rhoi cydsyniad ar sail unigol i awdurdod lleol leoli dysgwr sydd â datganiad AAA mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chymeradwyo. Derbyniwyd 27 o geisiadau oddi wrth awdurdodau lleol yn 2013-14 yn gofyn am gydsyniad Llywodraeth Cymru i leoli dysgwr â datganiad AAA mewn ysgol annibynnol. I gael cydsyniad ar gyfer lleoli disgybl unigol mewn ysgol annibynnol, mae'n rhaid i awdurdod lleol ysgrifennu i Lywodraeth Cymru, gan amgáu copi o ddatganiad AAA y plentyn, argymhelliad yn nodi y dylai'r plentyn gael ei leoli yn yr ysgol annibynnol honno a chadarnhad gan yr ysgol ei bod yn hapus i dderbyn y dysgwr. Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio cyngor gan Estyn er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn addas. Ar sail y cyngor hwn, bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu a fydd yn cydsynio i'r lleoliad a byddant yn hysbysu'r awdurdod lleol ynghylch eu penderfyniad. Mae'r broses hon yn cymryd rhwng 4 a 6 wythnos, ar gyfartaledd, ac mae'n creu cyfnod o ansicrwydd i'r dysgwyr a'r rhieni. Mae swyddogion o fewn awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru ac Estyn yn treulio amser yn cyfnewid gwaith papur. Amcangyfrifir bod tua 2.5 awr yn cael eu treulio ar bob cais. Mae Llywodraeth Cymru'n cyflogi 1 aelod o staff ar hyn o bryd sy'n treulio llai nag 1 wythnos y flwyddyn ar yr agwedd hon ar ei waith.

Awdurdodau lleol

- 7.15 Mae awdurdodau lleol yn darparu dau wasanaeth sy'n chwarae rhan bwysig o fewn y system bresennol ar gyfer AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu sef gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Amcangyfrifodd Deloitte mai costau gwasanaethau addysg awdurdodau lleol o safbwynt AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu yn 2013-14 oedd £138.4m ac mai'r gost i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol oedd £6.1 miliwn. Byddai'r cyfanswm hwn yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn gwario oddeutu £144.5 miliwn ar ddarpariaeth ar gyfer AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu (heb gynnwys cyllid dirprwyedig ysgolion).

Gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol

- 7.16 Mae Deloitte wedi amcangyfrif bod gwasanaethau addysg awdurdodau lleol, gyda'i gilydd, wedi buddsoddi cyfanswm o £461.6 miliwn mewn AAA dros dair blynedd (2011 hyd 2014). Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys gwariant gros ar addysg mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth ym maes anghenion addysgol arbennig; cyllido lleoedd ar gyfer plant o dan 5

sydd ag AAA ac nad ydynt mewn meithrinfa a thaliadau rhwng awdurdodau lleol mewn perthynas ag AAA. O ystyried cyfanswm y buddsoddiad dros dair blynedd mewn AAA, dywedodd Deloitte nad oedd modd dadgyfuno oddeutu 17% ohono ar draws y pedwar maes allweddol. O'r herwydd gallai'r canrannau a amcangyfrifir gan Deloitte fod yn sylweddol uwch.

- 7.17 Mae gan awdurdodau lleol wahanol brosesau ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth. Mae'r gwahaniaethau hyn yn cynnwys nifer y staff, gradd y staff a'r amser a gaiff ei dreulio ar y broses. Amcangyfrifa Deloitte fod gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gwario oddeutu 6% o'u buddsoddiad cyfan dros dair blynedd mewn AAA ar asesu.
- 7.18 Mae Deloitte wedi amcangyfrif bod yr amser a dreulir yn adolygu ceisiadau am asesiadau statudol (er mwyn penderfynu a oes angen Datganiad AAA) yn amrywio o 1 i 2.25 awr a bod yr amser a dreulir yn cyflawni asesiadau statudol yn amrywio o 24 i 65 awr. Byddai hyn yn awgrymu bod hyd y broses gynllunio sydd ynghlwm wrth system bresennol awdurdodau lleol ar gyfer datganiadau AAA yn amrywio o 25 awr i 67.25 awr fesul asesiad statudol.
- 7.19 Gall y system asesu statudol bresennol gymryd hyd at 26 wythnos. Caiff hyn ei nodi yn y rheoliadau presennol ac yng Nghod Ymarfer AAA Cymru.
- 7.20 Amcangyfrifa Deloitte fod gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gwario oddeutu 2% o'u buddsoddiad cyfan dros dair blynedd mewn AAA ar adolygiadau. Mae gan awdurdodau lleol wahanol brosesau ar gyfer adolygu cynlluniau. Mae'r gwahaniaethau hyn yn cynnwys nifer y staff, gradd y staff a'r amser a gaiff ei dreulio ar y broses. Mae Deloitte wedi amcangyfrif y gall yr amser a dreulir yn cefnogi'r broses adolygu flynyddol statudol ar gyfer dysgwyr sydd â Datganiadau AAA amrywio o 4 i 16 awr. Mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol hefyd yn rhan o adolygiadau ond nid oedd yn bosibl amcangyfrif eu rhan yn y broses.
- 7.21 Amcangyfrifa Deloitte fod gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gwario oddeutu 75% o'u buddsoddiad cyfan dros dair blynedd mewn AAA ar ddarparu cefnogaeth. Credir, fodd bynnag, fod y ffigur yn debygol o fod yn uwch. Y rheswm am hyn yw fod Deloitte hefyd wedi nodi bod cyfran o gyfanswm y buddsoddiad ar ddysgwyr dan 5 sydd ag AAA ond nad ydynt mewn meithrinfa a gynhelir ac ar daliadau digolledu rhwng awdurdodau mewn perthynas ag AAA hefyd yn debygol o fod ar ddarparu cefnogaeth.
- 7.22 Mae gwasanaethau addysg awdurdodau lleol hefyd yn debygol o wario arian ar anghydfodau ac apelau ynghylch AAA. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau eirioli a/neu wasanaethau gwybodaeth y mae sefydliadau trydydd parti o dan gontract i'w darparu. Eto i gyd, nid yw Deloitte wedi gallu dadgyfuno union gyfran neu gyfran amcangyfrifol o'r buddsoddiad cyfan dros dair blynedd mewn AAA mewn perthynas â hyn.

Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

- 7.23 Amcangyfrifa Deloitte fod gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi gwario oddeutu £6.1 miliwn ar AAA yn 2013-14. Ar draws y 3 blynedd (2011 hyd 2014) amcangyfrifodd Deloitte eu bod wedi buddsoddi cyfanswm o £17.5 miliwn dros dair blynedd mewn AAA (gweler tabl 1). Mae hyn yn cynnwys gwariant sy'n gysylltiedig ag addysgu plant sy'n derbyn gofal ac sydd ag AAA a chyfraniad gwasanaethau cymdeithasol o ran cyllido lleoliadau ar gyfer dysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Eto i gyd, nid oedd modd i Deloitte ddadgyfuno union gyfran neu gyfran amcangyfrifol o gyfanswm gwariant gwasanaethau cymdeithasol ar AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu o safbwynt y pedair thema allweddol (gweler tudalen 9) gan na chaiff data eu cofnodi yn y modd hwn. Nid yw'r costau hyn felly'n hysbys.
- 7.24 Gall gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol fod yn rhan o'r broses asesu a/neu adolygu ar gyfer AAA ond nid oes modd amcangyfrif eu rhan nac ychwaith ddadgyfuno'r amser a dreulir yn gwneud y gwaith hwn. Nid yw'r costau hyn felly'n hysbys.
- 7.25 Nid oes unrhyw ddata ariannol ar gael ynghylch y gwariant sydd ynghlwm wrth addysgu plant sy'n derbyn gofal ac sydd ag AAA. Yn 2013-14 roedd gan 64% o'r plant o oedran ysgol gorfodol a oedd yn derbyn gofal AAA. Ar sail y ffigur hwn mae Deloitte wedi amcangyfrif bod oddeutu £600,000 o'r gwariant gros ar addysgu plant sy'n derbyn gofal yn 2013-14 yn gysylltiedig â darpariaeth AAA.
- 7.26 Mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol hefyd yn cyfrannu at gyllido lleoliadau mewn colegau arbenigol annibynnol. Yn 2013-14 cyfrannodd gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol £5.5 miliwn tuag at leoli 278 o ddysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol (gweler tabl 4).

Ysgolion

- 7.27 Amcangyfrifa Deloitte fod ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion arbennig, wedi derbyn cyfanswm o £176.2 miliwn yn 2013-14 drwy gyllideb ysgolion ddirprwyedig yr awdurdodau lleol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag AAA (gweler tabl 1). Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar adroddiadau Alltro Refeniw yr awdurdodau lleol.
- 7.28 Mae Deloitte wedi amcangyfrif bod ysgolion wedi gwario cyfanswm o £511.6 miliwn ar AAA rhwng 2011 a 2014. Mae Deloitte wedi amcangyfrif gwariant cyfartalog rhwng y pedwar maes allweddol (isod). Eto i gyd, gallai'r gwariant ar AAA fod yn uwch neu'n is o fewn ysgolion mewn gwahanol awdurdodau lleol yn sgil lefelau amrywiol y cyllid dirprwyedig y mae ysgolion yn ei dderbyn.
- 7.29 Mae Deloitte wedi amcangyfrif bod 2% o fuddsoddiad cyfunol ysgolion dros dair blynedd mewn AAA (2011 hyd 2014) yn cael ei wario ar asesu anghenion. Mae hyn yn cynnwys yr arian y mae ysgolion yn ei wario ar gynlluniau anstatudol, fel y rhai ar gyfer disgyblion a gefnogir o dan Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, a

datganiadau statudol AAA. Ceir amrywiadau sylweddol o safbwynt yr amcangyfrifon o'r amser a dreulir ar asesiadau statudol - o 90 munud i 12 awr fesul asesiad. Ceir hefyd amrywiadau sylweddol o safbwynt yr amcangyfrifon o'r amser a dreulir ar gynlluniau anstatudol - o 1 i 3 awr.

- 7.30 Mae Deloitte wedi amcangyfrif bod 3% o fuddsoddiad cyfunol ysgolion dros dair blynedd mewn AAA (2011 hyd 2014) yn cael ei wario ar adolygu cynlluniau statudol ac anstatudol. Ceir amrywiadau sylweddol o safbwynt yr amcangyfrifon o'r amser a dreulir ar adolygu cynlluniau statudol - o awr i 10 awr ar gyfartaledd. Ceir hefyd amrywiadau sylweddol o safbwynt yr amcangyfrifon o'r amser a dreulir ar adolygu cynlluniau anstatudol - o 10 munud i 2 awr.
- 7.31 Mae Deloitte wedi amcangyfrif bod 95% o fuddsoddiad cyfunol ysgolion dros dair blynedd mewn AAA (2011 hyd 2014) yn cael ei wario ar ddarparu cefnogaeth. Dyma gyfanswm o £489.5 miliwn dros y tair blynedd.
- 7.32 Mae Deloitte wedi amcangyfrif bod llai nag 1% o fuddsoddiad cyfunol ysgolion dros dair blynedd mewn AAA (2011 hyd 2014) yn cael ei wario ar ddatrys anghydfodau ac ymdrin ag apelau.

Sefydliadau Addysg Bellach Prif Ffrwd

- 7.33 Mae Deloitte wedi amcangyfrif bod sefydliadau addysg bellach wedi derbyn cyfanswm o £7.5 miliwn o gyllid prif ffrwd ac ar wahân yn 2013-14 ar gyfer darpariaeth i ddysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (gweler tabl 1). Daw'r cyllid hwn oddi wrth Lywodraeth Cymru a gallai gael ei ddefnyddio, er enghraifft, ar gyfer cynnig cefnogaeth unigol i ddysgwyr a gweithwyr cefnogi cyfathrebu. Derbyniodd sefydliadau addysg bellach werth £22.2 miliwn o gyllid prif ffrwd a chyllid ar wahân rhwng 2011 a 2014. Awgryma Deloitte y gallai cyfran fach o'r cyllid fod yn gysylltiedig ag asesiad o angen ac adolygiadau blynyddol, ond nid oedd modd i Deloitte ddadgyfuno'r cyllid rhwng y ddau faes allweddol hyn. Nid yw'r costau hyn felly'n hysbys. Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg bellach yn ogystal (fel amod i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru) gynnal asesiad sgiliau hanfodol ar gyfer pob dysgwr newydd. Disgwylir y byddai asesiad o'r fath yn debygol o bennu dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.

Byrddau Iechyd Lleol

- 7.34 Amcangyfrifa Deloitte fod y byrddau iechyd lleol wedi buddsoddi £14.7 miliwn mewn AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu yn 2013-14. Mae Deloitte hefyd wedi amcangyfrif bod y byrddau iechyd lleol (rhwng 2011 a 2014) wedi buddsoddi cyfanswm o £42.5 miliwn mewn AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu. Mae hyn yn cynnwys gwariant cyllideb rhaglen y byrddau iechyd lleol ar gyfer problemau sydd ynghlwm wrth anableddau dysgu a chyfraniad y byrddau iechyd lleol at leoliadau ôl-16 arbenigol. Yn 2013-14 cyfrannodd y byrddau iechyd lleol £800,000 tuag at leoli 278 o ddysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol (gweler tabl 4 uchod).

- 7.35 Nid oedd modd i Deloitte ddadgyfuno union gyfran neu gyfran amcangyfrifol o gyfanswm gwariant byrddau iechyd lleol ar AAA/anawsterau a/neu anabledau dysgu o safbwynt y pedair thema allweddol gan na chaiff data eu cofnodi yn y modd hwn. Nid yw'r costau hyn felly'n hysbys.
- 7.36 O dan Reoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002, mae'n rhaid i awdurdod lleol geisio cyngor meddygol wrth gynnal asesiad statudol. Nodwyd yn 2013/14 fod gan 12,530 o ddysgwyr ddatganiadau AAA (gweler tabl 1). Nid oedd modd i Deloitte, fodd bynnag, bennu faint o asesiadau statudol newydd oedd yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Byddai nifer o asesiadau statudol wedi cael eu cynnal yn ogystal na fyddent wedi arwain at ddatganiadau AAA ond a fyddai wedi galw am fewnbwn gan weithwyr iechyd proffesiynol. O'r herwydd byddai nifer yr asesiadau statudol y byddai'r byrddau iechyd lleol wedi bod ynghlwm wrthynt wedi bod yn uwch na nifer y datganiadau terfynol. Nid oedd modd i Deloitte gasglu data ynghylch hyn, fodd bynnag. Nid yw'r costau hyn felly'n hysbys.
- 7.37 O dan Ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol yn ogystal i helpu ar gais awdurdod lleol â'r gwaith o gyflenwi ei swyddogaethau AAA mwy cyffredinol. Gallai'r swyddogaethau hyn gynnwys ymwneud â dysgwyr sydd ag AAA ond nad oes ganddynt ddatganiad. Gallai hyn gynnwys achos lle y mae gan blentyn angen meddygol, fel ASD ac ADHD, a bod ganddo AAA ond nid datganiad. O'r herwydd mae byrddau iechyd lleol yn aml yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynlluniau anstatudol (fel Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy).
- 7.38 Ar hyn o bryd mae gofyn i fyrddau iechyd lleol fod yn rhan o'r broses adolygu flynyddol ar gyfer plant sydd â datganiad AAA. Gall byrddau iechyd lleol hefyd fod yn rhan o'r broses adolygu ar gyfer plant ar gynlluniau anstatudol (hy Cynlluniau Addysg Unigol ar gyfer dysgwr ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy) lle y gofynnir am eu mewnbwn. Yn 2013-14 roedd 34,627 o blant yn derbyn cymorth gan Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (gweler tabl 1), ond nid yw'n bosibl nodi faint o'r adolygiadau hyn y bu staff o'r byrddau iechyd lleol ynghlwm wrthynt. Nid yw'r costau hyn, felly'n, hysbys.
- 7.39 Nid oes dyletswydd statudol ar fyrddau iechyd lleol ar hyn o bryd i ymwneud â'r gwaith cynllunio sydd ynghlwm wrth gynlluniau addysgol ar gyfer dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach prif ffrwd. Fodd bynnag, mae dyletswydd ar sefydliadau addysg bellach i ofalu am bobl ifanc, a all gynnwys tynnu eu sylw neu eu cyfeirio at gefnogaeth gan fyrddau iechyd lleol os byddant yn ymwybodol o unrhyw broblemau iechyd. Nid oes dyletswydd statudol ar fyrddau iechyd lleol ar hyn o bryd ychwaith i ymwneud â'r gwaith o adolygu cynlluniau addysgol o fewn sefydliadau addysg bellach.
- 7.40 Nid oes gofyn ar hyn o bryd i fyrddau iechyd lleol fod yn rhan o apelau y mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Cymru yn eu derbyn. Mae proses ar wahân yn bodoli ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch darpariaeth y GIG. Mae gweithdrefn gwynion y GIG sef 'Gweithio i Wella' (o dan Reoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion a Threfniadau Unioni Cam) (Cymru) 2011) yn

galluogi plant, rhieni a phobl ifanc i gyflwyno cwynion ffurfiol yn erbyn y bwrdd iechyd lleol.

Cyrff Eraill

Gyrfa Cymru

- 7.41 Amcangyfrifa Deloitte fod Gyrfa Cymru wedi buddsoddi £0.74 miliwn mewn AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu yn 2013/14 (gweler tabl 1). Amcangyfrifir bod Gyrfa Cymru wedi buddsoddi cyfanswm o £2.2 miliwn mewn AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu dros y tair blynedd rhwng 2011 a 2014. Amcangyfrifa Deloitte fod 64% o gyfanswm y gwariant ar gefnogi dysgwyr ag AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu dros y tair blynedd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith asesu. Mae hyn yn cynnwys asesu anghenion pobl ifanc o safbwynt addysg a hyfforddiant, yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, a chyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru am leoliadau mewn colegau arbenigol annibynnol.
- 7.42 Yn 2013-14 cefnogodd Gyrfa Cymru 1,103 o ddysgwyr drwy lunio Cynlluniau Dysgu a Sgiliau ar eu cyfer. Gall staff dreulio tua 10 awr, ar gyfartaledd, yn datblygu'r cynlluniau hyn. Roedd 119 o'r rhain yn geisiadau am gyllid ar gyfer lleoli dysgwr mewn coleg arbenigol annibynnol. Mae hyn yn galw am 35 awr ychwanegol o waith gan staff. Pennodd Gyrfa Cymru y gyfradd gyfartalog gros ar gyfer aelodau staff, sef £27.55 yr awr. Mae hyn yn gyfystyr ag oddeutu £147,530 y flwyddyn mewn costau staff.
- 7.43 Amcangyfrifa Deloitte fod y 34% sy'n weddill o gyfanswm y gwariant ar AAA dros y tair blynedd wedi'i ddefnyddio ar gyfer adolygiadau blynyddol o ddysgwyr sydd â datganiad, fel rhan o'r broses o'u trosglwyddo i addysg bellach. Mae Deloitte wedi amcangyfrif y gall staff dreulio dwy awr, ar gyfartaledd, yn cynnal adolygiad. Cynhaliodd Gyrfa Cymru y nifer canlynol o adolygiadau:

Tabl 5: Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd gan Gyrfa Cymru

Blwyddyn	Nifer yr Adolygiadau
2011-12	5,234
2012-13	4,298
2013-14	4,668

- 7.44 Mae'r 4,668 o adolygiadau a gafodd eu cynnal gan Gyrfa Cymru yn 2013-14 yn gyfwerth ag oddeutu £257,210 mewn costau staff ar gyfer 2013-14.

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

- 7.45 Mae gan rieni dysgwyr ag AAA, a dysgwyr eu hunain, yr hawl i gyflwyno apêl i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ynghylch penderfyniadau gan awdurdodau lleol am ddarpariaeth addysgol arbennig dysgwyr. Mae adroddiad blynyddol diweddaraf Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig

Cymru yn nodi bod y Tribiwnlys wedi cofrestru 78 o apelau ac wedi mynd i'r afael â chyfanswm o 84 o apelau yn ystod 2013-14.

- 7.46 Caiff Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Gwariodd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gyfanswm o £128,488 yn 2013-14. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys ffioedd a threuliau aelodau am drafodion y Tribiwnlys, a digwyddiadau'r Tribiwnlys (costau gwrandawiadau).
- 7.47 Mae'r Tribiwnlys yn darparu hyfforddiant cynefino ar gyfer aelodau newydd, sy'n cynnwys y canlynol gan amlaf:
- hyfforddiant cynefino yn Swyddfa'r Tribiwnlys - 1 diwrnod
 - arsylwi ar wrandawiadau – 1 diwrnod
 - gwrandawriad gydag Arsylllydd yn bresennol - 2 ddiwrnod
- 7.48 Byddai unrhyw hyfforddiant cynefino ar gyfer aelodau newydd yn costio £1,410 fesul aelod ynghyd â ffioedd ychwanegol ar gyfer teithio a chynhaliadau, a chostau gweinyddol i'r Tribiwnlys o ran paratoi'r trefniadau.
- 7.49 Nid yw Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn ymwneud ag unrhyw agwedd arall ar y system AAA, hy asesu angen; darparu cefnogaeth; neu adolygiadau.

Estyn

- 7.50 Ar hyn o bryd mae Estyn ynghlwm wrth y broses gofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol sy'n dymuno derbyn dysgwyr ag AAA. Er nad yw'n bosibl dadgyfuno cost cofrestru rhwng yr ysgolion annibynnol sy'n dymuno derbyn dysgwyr ag AAA a'r rhai nad ydynt, mae modd pennu cost ymdrin â chais am newid perthnasol i gofrestrriad ysgol o safbwynt AAA. Mae cost ymgymryd â chais am newid perthnasol yn dibynnu ar nifer o ffactorau fel maint a natur yr ysgol annibynnol a'r dystiolaeth o waith arolygu sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, mae Estyn wedi nodi ei bod yn cymryd, ar gyfartaledd, 3.5 o ddiwrnodau arolygydd i ymdrin â phob cais am newid. Cafwyd un cais am newid perthnasol yn 2013-14. Ar sail cyfradd ddyddiol o £880, sy'n cynnwys costau fel cyhoeddi, mae Estyn yn ysgwyddo, ar gyfartaledd, gost o £3,080 y flwyddyn.
- 7.51 Mae Estyn hefyd ynghlwm wrth y broses lle y mae gwasanaeth addysg awdurdod lleol yn ceisio cydsyniad Gweinidogion Cymru i leoli dysgwr sydd â datganiad AAA mewn ysgol annibynnol. Gall y broses gyfan gymryd, ar gyfartaledd, rhwng 4 a 6 wythnos. I Estyn, mae'r gweithgareddau penodol gan arolygwyr yn cynnwys asesu ceisiadau a chyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru. Mae Estyn wedi nodi ei bod yn cymryd, ar gyfartaledd, 1 diwrnod i arolygydd ymdrin ag un cais. Yn 2013-14 cafwyd 27 o geisiadau gan awdurdodau lleol i leoli dysgwr sydd â datganiad AAA mewn ysgol annibynnol. Roedd 20 o geisiadau yn ymwneud â lleoliadau yng Nghymru. Nid oes ond gofyn i Estyn asesu'r ceisiadau hynny sy'n ymwneud â lleoli dysgwyr yng Nghymru. O'r herwydd, yn 2013-14, ar sail cyfradd ddyddiol arolygydd,

costiodd tua £17,550 i Estyn asesu 20 o geisiadau am leoliadau mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru.

- 7.52 Mae Estyn hefyd yn monitro'n flynyddol ysgolion annibynnol a gaiff eu cymeradwyo i dderbyn dysgwyr sydd ag AAA yn gyffredinol, a cholegau arbenigol annibynnol yng Nghymru. Ar gyfartaledd mae ymweliad monitro blynyddol yn y naill sefydliad neu'r llall yn golygu 6.33 o ddyddiau arolygydd. Yn 2013-14 cynhaliwyd 21 o ymweliadau monitro blynyddol mewn ysgolion annibynnol a 6 o ymweliadau monitro blynyddol mewn colegau arbenigol annibynnol. Ar sail cyfradd ddyddiol arolygydd, gwariodd Estyn tua £150,070 ar gynnal ymweliadau monitro blynyddol mewn ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol annibynnol yn 2013-14.

Y Manteision

- 7.53 Prif fantais yr opsiwn hwn yw osgoi unrhyw gostau gweithredu a chostau trosiannol a fyddai ynghlwm wrth system newydd.

Opsiwn 2: Cyflwyno system o ADY yn seiliedig ar gynigion yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn 2012 yn lle'r trefniadau deddfwriaethol presennol ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA neu anawsterau a/neu anableddau dysgu

- 7.54 Mae'r opsiwn hwn yn rhoi rhagor o bwyslais ar y broses o gynllunio ac adolygu'r ddarpariaeth mewn modd sy'n canolbwyntio ar unigolion, yn unol ag egwyddorion ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion. Hoffai Llywodraeth Cymru hybu'r defnydd o gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn fwy eang a sicrhau ei fod yn digwydd mewn modd cyson. Nid yw'r costau sy'n deillio o hyn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol oherwydd mai gwaith polisi cyffredinol yw hwn sy'n gysylltiedig â hybu cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gall y gwaith hwn fynd rhagddo'n annibynnol ar unrhyw ddatblygiadau deddfwriaethol. Unwaith y caiff hyn ei sefydlu byddai'n creu dull gweithio a fyddai'n sicrhau bod y plentyn wrth wraidd y broses, pa bynnag fframwaith deddfwriaethol sydd yn ei le.

Costau yn ôl Sector

Llywodraeth Cymru

Cod Ymarfer

- 7.55 O dan yr opsiwn hwn byddai Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddatblygu Cod Ymarfer newydd a fyddai'n ategu'r system newydd. Byddai'r Cod Ymarfer yn cynnwys gwybodaeth am y modd y byddai'r system newydd yn gweithio a byddai'n cynnwys canllawiau ar gyfer rhanddeiliaid allweddol ynghylch sut y dylent ymgymryd â'u cyfrifoldebau. Y gost a fyddai ynghlwm wrth lunio Cod Ymarfer, o safbwynt staff, yw £43,790. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar un

swyddog Band Rheoli 2 amser llawn am flwyddyn a dwy wythnos o waith gan swyddog Gradd 7. Byddai gofyn hefyd ymgynghori ynghylch y Cod Ymarfer, ei gyfieithu a'i hyrwyddo. Gallai hyn gostio oddeutu £30,000. Byddai felly'n costio oddeutu £73,790 i lunio Cod Ymarfer. Cost drosiannol untro fyddai hon.

Cynllun Datblygu Unigol

- 7.56 Byddai Llywodraeth Cymru'n creu CDU ar y we o dan yr opsiwn hwn. Byddai angen cyflwyno'r mesurau diogelwch gorau posibl er mwyn sicrhau na allai gwybodaeth gyfrinachol gael ei rhannu'n amhriodol. Byddai hefyd angen sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau diogelu data. Nid oes system ar y we wedi'i datblygu, ond cafodd system ei hystyried o fewn un o'r awdurdodau lleol a fu'n rhan o'r cynlluniau peilot. Amcangyfrifwyd y byddai system sy'n cynnig mynediad i deuluoedd, staff ysgolion ac awdurdodau lleol a gweithwyr proffesiynol iechyd a rhai'r trydydd sector yn costio oddeutu £135,000 i'w sefydlu dros gyfnod o dair blynedd. Byddai hyn yn cynnwys dylunio, datblygu, profi, hyfforddiant, caledwedd a meddalwedd system (y byddai angen trwydded newydd ar ei gyfer bob 3 blynedd) a fyddai'n cael ei defnyddio o fewn ardaloedd hyd at 8 awdurdod lleol.
- 7.57 Wrth fodelu'r datblygiad hwn dylid nodi'r ffaith bod y fanyleb yn pennu bod angen system a allai gadw cannoedd o gofnodion. Byddai cynnydd yn nifer y cofnodion yn debygol o effeithio ar y gofynion o ran diogelwch ac felly'r gost. Yn ogystal, byddai angen datblygwyr amser llawn ar gyfer datblygu system gwbl newydd a fyddai'n mynd yn gwbl fyw. Byddai angen hefyd lefel o gefnogaeth a chynhaliadaeth barhaus. O'r herwydd golyga'r gwaith sydd ynghlwm wrth weithredu system ar gyfer Cymru gyfan fod y costau yn debygol o fod lawer yn uwch, o bosibl tua £400,000 ar sail cymhariaeth â systemau eraill ar y we Llywodraeth Cymru. Eto i gyd, nid oes unrhyw waith modelu ariannol wedi'i wneud er mwyn pennu'r union gostau.

Cyfathrebu a Chodi Ymwybyddiaeth

- 7.58 Byddai Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am hyrwyddo'r system newydd. Mae'n hanfodol fod pawb sydd ynghlwm wrth gyflenwi a monitro'r system newydd (gan gynnwys staff ac ymarferwyr o awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, ysgolion, y Tribiwnlys, byrddau iechyd lleol, y trydydd sector, Estyn ac eraill) yn ei deall. Byddai Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr hyfforddiant presennol ar gyfer llywodraethwyr ysgolion yn cael ei addasu er mwyn cynnwys y system newydd. Byddai sesiynau codi ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal ar gyfer ymarferwyr a rhanddeiliaid ar draws Cymru. Y gost i Lywodraeth Cymru yn sgil diwygio deunyddiau hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr a chynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth ar draws Cymru fyddai oddeutu £23,600. Mae'r gost hon yn seiliedig ar 20 wythnos o waith gan swyddog Band Rheoli 1. Cost drosiannol untro fyddai hon.

Cofrestru ysgolion annibynnol

- 7.59 O dan yr opsiwn hwn byddai angen i ysgolion annibynnol gofrestru'r mathau o AY y gallent ddarparu ar eu cyfer, gan ddefnyddio'r broses gofrestru o dan

a160 o Ddeddf Addysg 2002. Byddai'r gofyn i gofrestru'n golygu y byddai angen i ysgol annibynnol gyflwyno cais am newid perthnasol i'w chofrestriad. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflogi dau aelod o staff i reoli'r broses o gofrestru ysgolion annibynnol. O'r herwydd ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol o safbwynt amser staff ar gyfer prosesu ceisiadau o dan yr opsiwn hwn.

- 7.60 Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn diwygio'r canllawiau presennol ar gyfer ysgolion annibynnol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am y broses gofrestru newydd yn glir. Amcangyfrifir mai cost hyn fyddai £4,790. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar 4 wythnos o waith gan swyddog Band Rheoli 1. Cost drosiannol untro fyddai hon.

Lleoliadau ôl-16 arbenigol annibynnol

- 7.61 Ni fyddai bellach yn ofynnol i Lywodraeth Cymru asesu, sicrhau neu gyllido lleoliad gyda darparwr addysg bellach arbenigol. Fel y nodir o dan opsiwn 1 (paragraffau 7.10 – 7.12), gwariodd Llywodraeth Cymru £10.4 miliwn ar y swyddogaeth hon yn 2013-14. Byddai'r swyddogaeth hon yn trosglwyddo i awdurdodau lleol. Ni fyddai cyllid ar gyfer y swyddogaeth hon bellach yn cael ei glustnodi. Rhagwelir y caiff ei ariannu gan y Grant Cynnal Refeniw. Mater i'r Is-grŵp Dosbarthu (sef is-grŵp o Gyngor Partneriaeth Cymru) a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus fydd dosbarthu'r cyllid hwn o fewn y Grant Cynnal Refeniw. Byddai'r trosglwyddiad rheolaidd o gyllid yn dechrau mewn da bryd er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer datblygu systemau a chymeradwyo ceisiadau.
- 7.62 Ni fyddai bellach yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gymeradwyo lleoliadau arbenigol unigol oherwydd byddai angen sicrhau bod darparwyr annibynnol wedi'u cofrestru. Mae gan Lywodraeth Cymru dîm o 6 o bobl ar hyn o bryd ar gyfer prosesu'r ceisiadau hyn, sy'n costio £179,000 y flwyddyn.
- 7.63 Caiff canllawiau eu llunio ar gyfer gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ynghylch y broses o sicrhau lleoliadau o fewn colegau arbenigol annibynnol. Byddai'r canllawiau hyn yn egluro i awdurdodau lleol y broses o asesu anghenion dysgwyr a sicrhau darpariaeth ôl-16 arbenigol ar eu cyfer. Byddai'n costio oddeutu £4,720 i Lywodraeth Cymru lunio'r canllawiau hyn. Mae'r gost hon yn seiliedig ar 4 wythnos o waith gan swyddog Band Rheoli 1. Cost drosiannol untro fyddai hon.
- 7.64 Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ar gyfer gwasanaethau addysg awdurdodau lleol er mwyn egluro'r system newydd ar gyfer sicrhau darpariaeth ôl-16 arbenigol. Disgwylir i'r hyfforddiant gael ei ddarparu ar lefel y consortia addysg lleol. Y gost a fyddai ynghlwm wrth ddatblygu a darparu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth fyddai oddeutu £4,720. Mae'r gost hon yn seiliedig ar 4 wythnos o waith gan swyddog Band Rheoli 1. Cost drosiannol untro fyddai hon.

Awdurdodau Lleol

Gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol

- 7.65 Byddai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn parhau'n gyfrifol am gynllunio'r asesiad o angen ac adolygu cynlluniau statudol. Mae hi eisoes yn ofynnol yn statudol i staff gwasanaethau addysg awdurdodau lleol fod yn rhan o drafodaethau ynghylch asesu ac adolygu. Byddai'r gofyniad hwn yn parhau o dan yr opsiwn hwn. Y dysgwyr hynny y byddai ganddynt hawl i gynllun statudol fyddai'r rhai sydd â'r anghenion mwy cymhleth a/neu ddifrifol neu'r rhai sydd ag anghenion sylweddol. Byddai'r nifer hwn yn gymharol debyg i nifer y dysgwyr sydd â chynllun statudol ar hyn o bryd. O'r herwydd byddai'r costau'n parhau'n debyg iawn i'r costau presennol.
- 7.66 Byddai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth er mwyn bodloni anghenion dysgwyr ag AY. Byddai hyn yn berthnasol i'r dysgwyr hynny sydd â hawl i CDU statudol. Gan na fyddai awdurdodau lleol ond yn ymwneud â'r dysgwyr hynny sydd â CDU statudol, disgwylir y byddai'n cyfateb i raddau helaeth i nifer y dysgwyr sydd â Datganiadau AAA.
- 7.67 Ni fyddai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddysgwyr ôl-16 sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach prif ffrwd.
- 7.68 Byddai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gyfrifol am benodi Cydlynnydd Cefnogi, fel y nodir ym Mhennod 6. Byddai canllawiau ynghylch y swydd newydd hon yn cael eu datblygu fel rhan o'r Cod Ymarfer newydd. Ni fyddem yn rhagweld y bydd swydd newydd yn cael ei chreu ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn, ond mater i'r awdurdodau lleol fyddai pennu'r ffordd orau o gyflawni'r swyddogaeth hon. Os byddai system newydd yn cael ei chreu, byddai'n gost barhaus.
- 7.69 Byddai 'Paneli Cefnogi' hefyd yn cael eu sefydlu ar lefel leol a rhanbarthol. Paneli amlasiantaeth fyddai'r rhain a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer asesu a chymeradwyo'r pecyn o wasanaethau arbenigol a ddarperir gan wasanaethau addysg, cymdeithasol ac iechyd. Ar lefel leol byddai'r rhain yn cael eu defnyddio ar gyfer hwyluso cynllunio a chomisiynu strategol ar y cyd. Nid yw'n bosibl pennu costau sy'n gysylltiedig â mynychu 'Paneli Cefnogi' rhanbarthol gan y byddai'n dibynnu ar lefel yr angen ymhob rhanbarth. Eto i gyd, byddai angen i'r aelodau gynnwys pobl ar y lefel briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cyllid. Dyma gost newydd a rheolaidd.
- 7.70 Byddai'n ofynnol o hyd i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl; sicrhau bod pobl yn ymwybodol o drefniadau'r system; atal apelau ac wynebu apelau. Mae dyletswydd eisoes ar awdurdodau lleol i ddatrys anghytundebau a darparu gwybodaeth a chyngor. Fel rheol mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy Wasanaethau Partneriaethau Rhieni. Mae'r Cod Ymarfer AAA presennol yn cyfeirio at y term 'Gwasanaeth Partneriaethau Rhieni.' Yn yr un modd, mae dyletswydd eisoes ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli. Gall y rhain hefyd ddarparu gwybodaeth a chyngor. Fel y nodir yn opsiwn 1 (gweler paragraff 7.22), mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio

sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu'r gwasanaethau hyn. O dan yr opsiwn hwn byddai'r Gwasanaeth Partneriaethau Rhieni yn cael ei estyn i gynnwys dysgwyr ag AY a'u rhieni/gofalwyr. Ni fyddem yn rhagweld cynnydd yn y defnydd o un o'r gwasanaethau hyn yn yr hirdymor, ond efallai y bydd cynnydd cychwynnol yn y defnydd o'r gwasanaethau hyn gan ddysgwyr a rhieni sy'n ceisio gwybodaeth a chynghor, neu ar gyfer mynd i'r afael ag anghydfodau yn sgil ansicrwydd am y system newydd. Nid oes modd pennu unrhyw gynnydd posibl yn y tymor byr felly nid yw'r costau posibl hyn yn hysbys.

- 7.71 O dan yr opsiwn hwn, byddai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn rhan o'r broses gyfryngu cyn y byddai'r anghydfod yn cael ei gyflwyno gerbron y Tribiwnlys. Byddai hyn yn gost i'r awdurdod lleol, ond gallai'r arbedion cost posibl a allai ddeillio o ddatrys anghydfodau drwy gyfryngu wneud iawn am hyn. Gallai cyfryngu leihau nifer yr apelau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol fod yn rhan ohonynt. Efallai na fyddai cyfryngu ar ei ben ei hun, fodd bynnag, yn lleihau nifer yr anghydfodau a gyflwynir gerbron y Tribiwnlys. Os yw'r dysgwr a/neu rieni dysgwr mewn anghydfod â'r awdurdod lleol a bod gofyn iddynt fynychu sesiynau cyfryngu nid yw'n debygol iawn y bydd y naill neu'r llall yn barod iawn i gyfaddawdu a thrafod. Gallai hyn olygu na chaiff yr arbedion posibl o ran costau eu cyflawni.
- 7.72 Gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar unigolion o fewn y system newydd nid ydym yn disgwyl i nifer cyffredinol yr apelau ynghylch materion addysg gynyddu'n sylweddol ond gallent leihau dros amser gan y byddai dysgwyr a rhieni'n cael eu cynnwys yn fwy yn y broses o wneud penderfyniadau. Rydym yn cydnabod y gallai nifer yr apelau gynyddu yn y tymor byr, yn sgil y newidiadau o ran rhoi hawliau apelio i ddysgwyr mewn lleoliadau addysg ôl-16 a'r posibilrwydd y gallai'r ddeddfwriaeth gael ei phrofi.
- 7.73 Ar hyn o bryd caiff Cynlluniau Dysgu a Sgiliau eu datblygu gan Gyrfa Cymru (fel y nodir o dan opsiwn 1 – paragraffau 7.41 – 7.43) ar gyfer y dysgwyr hynny ag anawsterau a/neu anabledau dysgu sy'n trosglwyddo i Addysg Bellach. Bydd y CDU yn disodli'r Cynllun Dysgu a Sgiliau. Golyga'r opsiwn hwn mai gwasanaethau addysg y 22 awdurdod lleol fyddai'n ysgwyddo'r swyddogaeth hon (sef datblygu'r CDU) ynghyd â'r costau cysylltiedig. Yn 2013-14 gwariodd Gyrfa Cymru £147,530 ar gostau staff a fu ynghlwm wrth ddatblygu Cynlluniau Dysgu a Sgiliau. Byddai'r gost hon yn gost reolaidd i wasanaethau addysg y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Eto i gyd, gan na fyddai gofyn creu cynllun newydd sy'n cyfateb i'r Cynllun Dysgu a Sgiliau, byddai'r swyddogaeth hon yn dod yn rhan o broses adolygu'r CDU ac felly dylai arwain at arbedion o safbwynt amser a chostau.
- 7.74 Byddai awdurdodau lleol hefyd yn derbyn cyfrifoldeb am gyllido lleoliadau mewn colegau arbenigol; Llywodraeth Cymru sy'n cyllido lleoliadau o'r fath ar hyn o bryd (gweler 7.10 – 7.12 a 7.62). Caiff lleoliadau ôl-16 arbenigol eu trefnu fel y bo angen ac felly nid oes rheswm dros gredu y byddai nifer y lleoliadau'n cynyddu neu y byddai angen i'r cyllid sy'n ofynnol gynyddu o dan yr opsiwn hwn. Eto i gyd, oherwydd bod lleoliadau arbenigol yn cael eu trefnu fel y bo angen gallai'r awdurdodau lleol wynebu costau cynyddol os bydd nifer

y lleoliadau arbenigol a/neu'r ddarpariaeth arbenigol sydd eu hangen yn cynyddu. Byddai awdurdodau lleol yn derbyn y cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu ar hyn o bryd (£10.4 miliwn bob blwyddyn). Ni fyddai cyllid ar gyfer y swyddogaeth hon bellach yn cael ei glustnodi a rhagwelir y caiff ei gyllido gan y Grant Cynnal Refeniw. Mater i'r Is-grŵp Dosbarthu (sef is-grŵp o Gyngor Partneriaeth Cymru) a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus fydd dosbarthu'r cyllid hwn o fewn y Grant Cynnal Refeniw. Byddai sicrhau gwell cydweithio ar draws gwasanaethau addysg ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn golygu bod awdurdodau lleol mewn gwell sefyllfa i drafod costau penodol. Gallai gwella gallu awdurdodau lleol i gynllunio'n well ar gyfer trosglwyddiadau effeithiol i addysg ôl-16 addas hefyd arwain at leihad o ran costau.

- 7.75 Byddai cost weinyddol i wasanaethau addysg awdurdodau lleol am ysgwyddo cyfrifoldeb sicrhau lleoliad a chyllido ceisiadau ar gyfer y rhai y mae angen darpariaeth ôl-16 arbenigol arnynt. Fel y nodir o dan opsiwn 1, costau gweinyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r swyddogaeth hon yw £179,000 y flwyddyn. Ar sail costau presennol Llywodraeth Cymru, rydym yn amcangyfrif y byddai'n costio hyd at £179,000 y flwyddyn i'r 22 awdurdod lleol ar draws Cymru i gwblhau ceisiadau cyllido ar gyfer lleoliadau ôl-16 arbenigol. Byddai angen ystyried hyn wrth i gyllid gael ei drosglwyddo o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol.
- 7.76 Yn ogystal, byddai disgwyl i wasanaethau addysg awdurdodau lleol fynychu sesiwn ymwybyddiaeth unigol ynghylch y broses sydd ynghlwm wrth leoliadau ôl-16 arbenigol. Llywodraeth Cymru fyddai'n darparu'r sesiwn hon (gweler uchod) ar y system newydd. Amcangyfrifir mai cost anfon un aelod o staff ar y lefel briodol i fynychu diwrnod o hyfforddiant fyddai £300 fesul awdurdod. Mae hyn yn gyfwerth â chyfanswm o £6,600 ar draws y 22 awdurdod lleol. Cost drosiannol untro fyddai hon.

Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

- 7.77 Wrth asesu angen ac adolygu cynlluniau statudol ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth a/neu ddifrifol o'u geni hyd nes y byddant yn 25 mlwydd oed, byddai'n ofynnol yn statudol i staff o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol fod yn rhan o'r trafodaethau. O dan yr opsiwn hwn byddai gwasanaethau cymdeithasol mewn partneriaeth gyfartal â gwasanaethau addysg a gwasanaethau iechyd ac felly byddent yn rhan o unrhyw waith asesu ac adolygu mewn perthynas â chynlluniau statudol.
- 7.78 O dan yr opsiwn hwn y cynnig fyddai creu cynllun unigol, y CDU, a fyddai'n disodli neu'n integreiddio'r holl gynlluniau unigol eraill y gallai dysgwr fod yn ddarostyngedig ydynt. Eto i gyd, ni fyddai'n disodli Cynllun Gofal a Thriniaeth sy'n ofynnol o dan y gyfraith ynghylch iechyd meddwl. Gallai hyn greu arbediad posibl i wasanaethau cymdeithasol gan y gallai'r broses fod yn fwy syml na'r broses bresennol hy defnyddio cynlluniau ar wahân ar gyfer yr un dysgwr. Eto i gyd, ni fyddai'r opsiwn hwn yn lleihau'r amser sydd ar ei angen ar weithwyr proffesiynol ym maes gwasanaethau cymdeithasol i asesu angen, yn unol â'r cynllun statudol. Yn yr un modd ag opsiwn 1, rydym yn disgwyl i'r

amser a dreulir ar waith asesu barhau i amrywio, yn unol ag anghenion unigol y dysgwr.

- 7.79 Gallai cynnal un cyfarfod adolygu er mwyn trafod gwahanol gynlluniau arwain at arbedion ariannol posibl i wasanaethau cymdeithasol gan y byddai hyn yn fwy effeithlon na chynnal adolygiadau ar wahân o wahanol gynlluniau (sef y sefyllfa bresennol). Eto i gyd, mae'r opsiwn hwn yn cynnig bod yn rhaid i'r CDU gael ei adolygu bob 6 mis man lleiaf yn hytrach na bob blwyddyn man lleiaf (sef y sefyllfa bresennol a ddisgrifir yn opsiwn 1). Byddai hyn yn cynyddu'r baich ar wasanaethau cymdeithasol gan y byddai gofyn iddynt fynychu'r cyfarfodydd amlasiantaeth yn fwy aml ac efallai na fyddai cynlluniau eraill yn cynnwys yr un gofynion o safbwynt amllder adolygiadau. Gallai hyn olygu na chaiff manteision posibl cydlynu amseriad adolygiadau eu cyflawni.
- 7.80 Byddai awdurdodau lleol yn parhau'n gyfrifol am sicrhau bod anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal yn cael eu bodloni. O dan yr opsiwn hwn byddai modd i'r CDU ddisodli neu integreiddio'r broses gynllunio ac adolygu sydd ynghlwm wrth y Cynllun Addysg Personol (CAP). Gan y byddai gwasanaethau cymdeithasol yn gysylltiedig â CDU statudol gallai gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol arbed arian o bosibl drwy ymuno yn y modd hwn, gan y byddai modd asesu ac adolygu'r cynlluniau ar yr un pryd.
- 7.81 Fel y nodir uchod, byddai cyflwyno Paneli Cefnogi yn ei gwneud hi'n ofynnol i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol fod yn bresennol. Maent eisoes yn rhan o drafodaethau amlddisgyblaethol ynghylch anghenion difrifol a/neu gymhleth dysgwyr ac rydym yn rhagweld y byddai nifer y trafodaethau hyn yn cyfateb i raddau helaeth i'r lefelau presennol. Nid yw'n bosibl pennu costau sy'n gysylltiedig â mynychu 'Paneli Cefnogi' rhanbarthol gan y byddai'n dibynnu ar lefel yr angen ymhob rhanbarth. Eto i gyd, byddai angen i'r aelodau gynnwys pobl ar y lefel briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cyllid. Dyma gost newydd a rheolaidd ond nid yw'r swm yn hysbys.
- 7.82 Byddai gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn parhau'n gyfrifol am gyfrannu at leoliadau ôl-16 arbenigol. Gwariodd gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol £5.5 miliwn ar y swyddogaeth hon yn 2013-14. Fel y trafodir uchod (mewn perthynas â gwasanaethau addysg awdurdodau lleol) nid ydym yn disgwyl i nifer y dysgwyr sy'n mynychu Colegau Arbenigol Annibynnol gynyddu.

Ysgolion

- 7.83 Fel y nodir o fewn opsiwn 1 (paragraff 7.31), mae Deloitte wedi amcangyfrif bod ysgolion (gan gynnwys ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion) yn gwario 95% o'u gwariant AAA ar ddarparu cefnogaeth. Byddai cyflwyno prosesau sicrhau ansawdd drwy system er mwyn monitro deilliannau dysgwyr ag ADY, ac olrhain yr adnoddau cysylltiedig a ddyrannwyd, yn helpu i sicrhau bod yr arian a gaiff ei wario ar ddarpariaeth yn cael ei dargedu'n well drwy'r ymyriadau mwyaf effeithiol.

- 7.84 Nid ydym yn disgwyl i'r amser a dreulir ar gynllunio ac adolygu cynlluniau statudol ac anstatudol fod yn wahanol iawn i'r hyn a nodir o dan opsiwn 1 (paragraff 7.30). Y dysgwyr a fyddai'n derbyn cynllun statudol o dan opsiwn 1 fyddai'r rhai â'r anghenion mwyaf difrifol a/neu gymhleth. Nid ydym yn disgwyl i nifer y dysgwyr hyn newid o dan yr opsiwn hwn, ond gallai ehangu'r diffiniad arwain at gynnydd posibl.
- 7.85 Disgwylir i nifer y plant a allai dderbyn cynllun anstatudol gynyddu'n sylweddol o dan yr opsiwn hwn. Er enghraifft, yn 2013-14 roedd 92,773 o ddysgwyr yn derbyn cefnogaeth drwy Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (gweler tabl 1). Yn ogystal byddai plant sy'n derbyn gofal yn cyfrif am oddeutu 1% o gyfanswm y disgyblion, y rhai y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn cyfrif am oddeutu 3% ohonynt a Sipsiwn/Teithwyr yn cyfrif am 0.2% ohonynt. Byddai gan y dysgwyr hyn hefyd hawl i gynllun anstatudol. Yn 2013/14 roedd cyfanswm o 465,081 o blant ysgol wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir (gweler tabl 1). Nid yw'n bosibl pennu union nifer y dysgwyr a fyddai'n gymwys i dderbyn cynllun anstatudol (o dan y categori ehangach o AY) gan na chaiff y data hyn eu casglu. Rhagwelir, fodd bynnag, y byddai canran uchel o gyfanswm nifer y disgyblion yn gymwys i gael cynllun o'r fath. Fel y nodir o dan opsiwn 1, os byddai'n cymryd 2 awr ar gyfartaledd i asesu'r angen a hefyd rhwng 10 munud a 2 awr i adolygu'r cynlluniau hyn, gallai ysgolion wynebu costau gweinyddol sylweddol yn rheolaidd.
- 7.86 Byddai Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am hyrwyddo'r system newydd mewn perthynas ag AY. Fel y nodir uchod, byddai Cod Ymarfer yn cael ei ddatblygu a fyddai'n cynnwys canllawiau a gwybodaeth ar gyfer ysgolion ynghylch eu cyfrifoldebau. Byddai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod cyrff llywodraethu ysgolion yn deall eu cyfrifoldebau a byddai Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr hyfforddiant presennol ar gyfer llywodraethwyr ysgolion yn cael ei addasu er mwyn adlewyrchu'r system newydd ar gyfer AY. Byddai Llywodraeth Cymru a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol hefyd yn sicrhau, gan ddefnyddio rhwydweithiau perthnasol ym maes AY, fod cydlynwyr ysgolion yn deall eu cyfrifoldebau. Disgwylir y byddai cydlynwyr AY ysgolion yn cefnogi staff fel y bo angen er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Ni ddisgwylir i ysgolion wynebu unrhyw gostau ychwanegol yn sgil hyn gan y byddai dyddiau HMS ar gyfer ymarferwyr yn codi ymwybyddiaeth o'r mater.

Sefydliadau Addysg Bellach Prif Ffrwd

- 7.87 Byddai gofyn i sefydliadau addysg bellach sicrhau darpariaeth ar gyfer yr un nifer o ddysgwyr; ni fyddai hyn yn cynyddu'r costau iddynt. Byddai sefydliadau addysg bellach yn parhau'n gyfrifol am asesu anghenion dysgwyr ac adolygu cynlluniau addysg. Byddai nifer y dysgwyr a fyddai â hawl i CDU statudol yn cyfateb i raddau helaeth i'r nifer sydd â hawl i Gynllun Dysgu a Sgiliau o dan y system bresennol. Byddai sefydliadau addysg bellach yn gyfrifol am adolygu'r cynlluniau bob 6 mis man lleiaf. Byddai costau ychwanegol i sefydliadau addysg bellach ynghlwm wrth y gofyniad newydd hwn. Yn ogystal, gallai'r

dysgwyr hynny sy'n rhan o'r categori ehangach o AY mewn sefydliadau addysg bellach dderbyn CDU anstatudol fel mater o arfer dda. Gallai hyn gynyddu'n sylweddol y baich gweinyddol ar gyfer y rhai mewn sefydliadau addysg bellach.

- 7.88 Byddai Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am hyrwyddo'r system newydd mewn perthynas ag AY. Fel y nodir uchod, byddai Cod Ymarfer yn cael ei ddatblygu a fyddai'n cynnwys canllawiau a gwybodaeth am y system newydd. Mater i sefydliadau addysg bellach fyddai pennu'r ffordd orau o godi ymwybyddiaeth eu staff o'r system newydd. Ni fyddai'r sefydliadau addysg bellach yn ysgwyddo unrhyw gostau gan y byddai disgwyl i waith codi ymwybyddiaeth gael ei gynnwys mewn prosesau presennol ar gyfer hyfforddi a datblygu staff.

Byrddau Iechyd Lleol

- 7.89 Mae gofyn i fyrddau iechyd lleol gyllido'r ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â'r GIG ar gyfer AAA/anawsterau a/neu anabledau dysgu y maent yn cytuno i'w chynnig. Daw'r cyllid hwn o gyllidebau presennol. Mae gan y GIG eisoes lwybrau/fframweithiau sydd wedi'u sefydlu er mwyn helpu i flaenoriaethu'r ddarpariaeth ar sail angen clinigol. Byddai'r rhain yn cael eu defnyddio o hyd. Nid ydym yn rhagweld y byddai cost bresennol y gefnogaeth a ddarperir gan y GIG yn newid o dan yr opsiwn hwn. Eto i gyd gallai'r ffaith y bydd anghenion ychwanegol yn cael eu pennu drwy ddarparu cynlluniau anstatudol i gategori ehangach o ddysgwyr neu'r ystod oedran fwy (o dan yr opsiwn hwn) effeithio ar gostau'r byrddau iechyd lleol.
- 7.90 Byddai byrddau iechyd lleol yn cael eu cynnwys ymhob CDU, a byddai'r rhai rhwng 19 a 25 yn cael eu diogelu'n statudol. Gallai hyn olygu cost newydd ac ychwanegol i'r byrddau iechyd lleol gan y byddai gofyn i'r gweithwyr iechyd proffesiynol fod yn rhan o gynlluniau statudol a chynnig y ddarpariaeth sy'n ofynnol.
- 7.91 Fel y nodir o dan opsiwn 1 (paragraffau 7.36 – 7.38), mae byrddau iechyd lleol yn cyfrannu ar hyn o bryd at gynlluniau statudol ac anstatudol ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion. Nid yw cynnwys byrddau iechyd lleol wrth asesu angen ac adolygu cynlluniau statudol ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion sydd ag AY a'r costau sy'n gysylltiedig â'r prosesau hyn yn debygol o newid.
- 7.92 Yn yr un modd â'r system bresennol, byddai cyngor proffesiynol yn agwedd orfodol ar y broses o lunio CDU statudol a'i adolygu. O'r herwydd nid yw nifer yr achosion lle y mae gofyn i fyrddau iechyd lleol gyfrannu yn debygol o newid. Mae gan 12,520 o ddysgwyr ddatganiad AAA ar hyn o bryd. Byddem yn disgwyl i'r un nifer o ddysgwyr fod â hawl i dderbyn CDU statudol.
- 7.93 Fel y nodwyd ynghynt, byddai gofyn i staff gwasanaethau iechyd fynychu cyfarfodydd Paneli Cefnogi. Maent eisoes yn rhan o drafodaethau amlddisgyblaethol ynghylch anghenion difrifol a/neu gymhleth dysgwyr ac rydym yn rhagweld y byddai trafodaethau Paneli Cefnogi lleol yn cyfateb i raddau helaeth i'r trafodaethau amlasiantaethol hynny sy'n digwydd o dan y system bresennol. Gallai bod yn rhan o gynlluniau statudol ar gyfer dysgwyr

19-25 oed gynyddu nifer y trafodaethau gan baneli cefnogi lleol a gallai effaith o ran cost fod ynghlwm wrth hyn gan y byddai disgwyl i weithwyr ieuchyd proffesiynol fynychu'r cyfarfodydd. Nid yw'n bosibl pennu costau sy'n gysylltiedig â mynychu 'Paneli Cefnogi' rhanbarthol gan y byddai'n dibynnu ar lefel yr angen ymhob rhanbarth ar draws yr ystod oedran ehangach. Eto i gyd, byddai angen i'r aelodau gynnwys pobl ar y lefel briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cyllid. Dyma gost newydd a rheolaidd ond nid yw'r swm yn hysbys.

- 7.94 Byddai dyletswydd ar fyrddau ieuchyd lleol o hyd i gydymffurfio â chais am gymorth gan awdurdod lleol, gan gynnwys mewn perthynas â dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol. O dan y system bresennol ar gyfer AAA, nid yw byrddau ieuchyd lleol ond yn ymwneud â dysgwyr a gefnogir gan Gweithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, hy lle y mae angen cyngor a chefnogaeth arbenigol. Mae 34,627 o blant yn derbyn cefnogaeth gan Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ar hyn o bryd.¹¹ Nid oes modd pennu'r gost i fyrddau ieuchyd lleol o safbwynt cefnogi Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Nid yw'r costau hyn felly'n hysbys. Er y byddai'r categori o AY yn ehangach na'r categori presennol o ddysgwyr ag AAA, mae'n bosibl y gallai grŵp llawer iawn mwy o ddysgwyr dderbyn cynlluniau anstatudol. Er nad oes disgwyl i anghenion ieuchyd plant fod yn wahanol i'r lefelau presennol gallai anghenion ieuchyd ychwanegol gael eu pennu o dan y categori ehangach o ddysgwyr. Nid ydym yn disgwyl cynnydd sylweddol na hirdymor yn y costau i'r byrddau ieuchyd lleol a allai ddeillio o'r opsiwn hwn.
- 7.95 Fel y nodir uchod, mae'r opsiwn hwn yn cynnig creu cynllun unigol, y CDU, a fyddai hefyd yn disodli neu'n integreiddio'r holl gynlluniau unigol eraill y gallai dysgwr fod yn ddarostyngedig iddynt. Eto i gyd, ni fyddai'n disodli Cynllun Gofal a Thriniaeth sy'n ofyniad o dan y gyfraith ynghylch ieuchyd meddwl. Gallai hyn greu arbediad posibl i wasanaethau cymdeithasol gan y gallai'r broses fod yn fwy syml na'r broses bresennol hy defnyddio cynlluniau ar wahân ar gyfer yr un dysgwr.
- 7.96 O dan yr opsiwn hwn mae CDU statudol yn berthnasol i ddysgwyr hyd nes y byddant yn 25 oed. Byddai gofyn i fyrddau ieuchyd lleol fod ynghlwm wrth asesu ac adolygu unrhyw ddysgwr sydd â hawl i dderbyn CDU statudol ac sy'n dechrau mewn sefydliad addysg bellach neu'n ei fynychu. Os oes gan ddysgwr CDU statudol byddai gofyn i gynrychiolydd o'r bwrdd ieuchyd lleol fod yn bresennol bob tro y caiff y CDU ei adolygu. Byddai hyn yn debygol o gynyddu'r gost i fyrddau ieuchyd lleol o safbwynt ymwneud â'r dysgwyr hynny sydd rhwng 19 a 25 oed.
- 7.97 Byddai byrddau ieuchyd lleol yn parhau'n gyfrifol am gyfrannu at gyllido lleoliadau ôl-16 arbenigol ar gyfer y dysgwyr hynny y mae angen lleoliad o'r fath arnynt. Bydd y gost hon yn parhau. Fel y nodir o dan opsiwn 1, gwariodd byrddau ieuchyd lleol £0.8 miliwn ar y swyddogaeth hon yn 2013-14. Rhagwelir

¹¹ <https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/pupilssen-by-localauthorityregion-provision>

na fyddai nifer y dysgwyr sy'n dechrau derbyn darpariaeth ôl-16 arbenigol yn wahanol iawn i'r lefelau presennol. Byddai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn gyfrifol am y CDU. Er nad ydym yn rhagweld y byddai gofyn i fyrddau iechyd lleol ymwneud mwy ag adolygu cynlluniau statudol mewn perthynas â lleoliadau arbenigol ôl-16, byddai amllder yr adolygiadau (bob 6 mis o dan yr opsiwn hwn) yn fwy o faich i'r byrddau iechyd lleol gan y byddai gofyn iddynt fynychu'r adolygiadau hyn. Dyma gost ychwanegol i'r byrddau iechyd lleol.

- 7.98 Gallai byrddau iechyd lleol fod yn destun apelau o ran eu mewnbwn i CDU statudol. Gallai hyn arwain at gost iddynt. Yn 2012-13 ymdriniodd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru â chyfanswm o 102 o apelau. Nid oedd yr apelau hyn ond yn ymwneud â materion addysg. Rhagwelir y byddai nifer o apelau ynghylch materion yn ymwneud â swyddogaethau byrddau iechyd lleol a fyddai'n cael eu cyfeirio at Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru o dan yr opsiwn hwn. Mae gan y GIG broses gwynion eisoes o'r enw 'Gweithio i Wella.' Byddai angen diwygio'r canllawiau ynghylch 'Gweithio i Wella' er mwyn sicrhau eglurder ynghylch y cyswllt rhwng y broses a'r system apelio o dan yr opsiwn hwn. Gallai dysgwyr o fewn addysg ôl-16 sydd â chynlluniau statudol wneud rhagor o ddefnydd o 'Gweithio i Wella' a byddai cost yn deillio o hyn i'r byrddau iechyd lleol. Gallai'r Ombwdsmon hefyd chwarae rhan fwy amlwg yn y broses. Nid oes modd amcangyfrif faint o apelau ynghylch CDU statudol fyddai'n gysylltiedig â swyddogaethau byrddau iechyd lleol. O'r herwydd, nid oes modd pennu cost, ond byddai'n gost newydd a rheolaidd i'r bwrdd iechyd lleol.

Cyrff Eraill

Gyrfa Cymru

- 7.99 Byddai Gyrfa Cymru'n parhau i gefnogi asesiadau o angen ac adolygu cynlluniau statudol ac anstatudol fel rhan o'r broses o gynllunio trosglwyddo.
- 7.100 Ni fyddai Gyrfa Cymru bellach yn rhan o'r gwaith o lunio Cynllun Dysgu a Sgiliau ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Canlyniad hyn fyddai arbediad cyffredinol amcangyfrifol o £147,530 y flwyddyn.
- 7.101 Ni fyddai bellach yn ofynnol i Gyrfa Cymru gefnogi dysgwyr i gyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer lleoliadau ôl-16 arbenigol. Canlyniad hyn fyddai arbediad cyffredinol amcangyfrifol o £32,600 y flwyddyn.

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

- 7.102 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r hawliau presennol i apelio i'r Tribiwnlys yn cael eu hestyn er mwyn cynnwys yr ystod oedran ehangach. Eto i gyd, ni fyddai'r annhegwch tybiedig ynghylch y ffaith nad yw ond rhai dysgwyr yn derbyn cynlluniau statudol yn dod i ben ac felly byddai prif asgwrn y gynnen yn parhau. Yn ogystal, byddai cylch gwaith Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru'n cael ei ehangu er mwyn cynnwys iechyd a gofal

cymdeithasol. Byddai hyn yn ddarostyngedig i fesurau diogelu priodol mewn perthynas â dyfarniadau clinigol o angen. Rhagwelir y byddai nifer o apelau newydd ynghylch swyddogaethau byrddau iechyd lleol a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Gallai hyn gynyddu nifer yr apelau y bydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru'n gwrandao arnynt. Rydym yn rhagweld y byddai hyn yn cynyddu'r costau gweinyddol ar gyfer Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gan y gallai fod mwy o wrandawiadau a byddai angen penodi clinigwyr a meddygon cymwys i fod yn rhan o'r Tribiwnlys. Nid oes modd pennu'r union gynnydd yn nifer yr apelau nac ychwaith nifer y clinigwyr cymwys y byddai angen eu penodi o dan yr opsiwn hwn ond byddai costau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru'n debygol o gynyddu'n sylweddol.

- 7.103 Yn ogystal, gallai unrhyw gynnydd yn nifer yr apelau a gyflwynir i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru hefyd gynyddu nifer yr apelau a gaiff eu cyfeirio at yr Uwch Dribiwnlys yn sgil y ffaith nad ydynt wedi'u datrys. Eto nid oes modd pennu union nifer yr apelau a fyddai'n cael eu cyflwyno i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig nac ychwaith y nifer a allai gael eu cyflwyno i'r Uwch Dribiwnlys. Rhagwelir, fodd bynnag, y byddai nifer yr apelau sy'n parhau yn gymharol isel.
- 7.104 Trwy ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar unigolion o fewn y system newydd efallai y byddai modd lleihau dros amser ystod yr apelau. Cafwyd 12 apêl yn Sir Gaerfyrddin yn 2010-11 ond lleihaodd y ffigur hwn i 0 apêl yn 2013-14. Bernir mai defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar unigolion a chreu cyfleoedd i drafod pryderon rhwng teulu ac ysgol a/neu awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y lleihad hwn yn nifer yr apelau. Mae hyn wedi cyflawni arbedion ariannol ar gyfer y Cyngor.
- 7.105 Byddai angen i aelodau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru dderbyn hyfforddiant er mwyn deall y system unedig newydd. Amcangyfrifir mai cost diwrnod o hyfforddiant fyddai £10,270, yn seiliedig ar gyfradd ddyddiol a chostau teithio 13 o aelodau. Mae hefyd yn cynnwys dyraniad ar gyfer siaradwr a chostau lleoliad. Disgwylir y byddai angen 3 diwrnod o hyfforddiant a/neu gynnwys cyngor cyfreithiol. Rhagwelir felly y byddai'r hyfforddiant yn costio £30,710. Cost drosiannol untro fyddai hon.

Estyn

- 7.106 Byddai angen i ysgolion annibynnol ddiweddarau eu cofrestriad er mwyn nodi unrhyw AY y gallant ddarparu ar eu cyfer. Gallai hyn fod yn berthnasol i holl ysgolion annibynnol Cymru. O'r herwydd byddai angen i Estyn fod yn rhan o'r broses o asesu'r cais am newid perthnasol (fel y gwna ar hyn o bryd). Mae cost mynd i'r afael â chais am newid perthnasol yn dibynnu ar faint a natur yr ysgol annibynnol. Eto i gyd, mae Estyn wedi nodi bod arolygwyr yn treulio, ar gyfartaledd, 3.5 diwrnod ar bob cais am newid. Ar sail cyfradd ddyddiol o £877.60, golyga gost gyfartalog o £215,000 i Estyn. Cost drosiannol untro fyddai hon.

- 7.107 O dan yr opsiwn hwn byddai pob ysgol annibynnol sy'n cynnig darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag AY yn wynebu ymweliad monitro blynyddol. Byddai'r drefn fonitro ar raddfa fwy a ragwelir yn golygu bod Estyn yn ysgwyddo cost cynnal nifer uwch o ymweliadau monitro ag ysgolion. Er mwyn caniatáu digon o amser i ysgolion annibynnol ddiweddarau eu cofrestriad, ni fyddai Estyn yn ysgwyddo'r costau o ran monitro blynyddol ar unwaith. Fel y nodir o dan opsiwn 1, mae Estyn yn cynnal ymweliadau monitro blynyddol â 21 o ysgolion annibynnol ar hyn o bryd. Eto i gyd, o dan yr opsiwn hwn, disgwylir i'r nifer gynyddu i 59 (yn seiliedig ar y ffaith bod y 70 ysgol annibynnol yn cynnig darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag AY ond bod 11 ohonynt yn cael arolygiad llawn ac felly nid oes angen cynnal ymweliad monitro blynyddol). Dyma gost reolaidd o £327,780 y flwyddyn i Estyn (373.5 o ddyddiau arolygydd x cyfradd ddyddiol arolygydd).
- 7.108 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai bellach yn ofynnol i wasanaethau addysg awdurdodau lleol geisio cydsyniad gan Weinidogion Cymru i leoli dysgwr sydd â datganiad AAA mewn ysgol annibynnol. Nid oes unrhyw duedd penodol o safbwynt nifer y ceisiadau am gydsyniad a gaiff eu derbyn bob blwyddyn. Ar gyfartaledd, derbynnir oddeutu 13 o geisiadau bob blwyddyn. Golyga hyn arbediad parhaus a chyfartalog o £11,400 y flwyddyn.
- 7.109 Byddai Estyn hefyd yn parhau i gynnal ymweliadau monitro blynyddol â cholegau arbenigol annibynnol yng Nghymru. Fel y nodir yn opsiwn 1, (gweler paragraff 7.52) mae ymweliad monitro blynyddol, ar gyfartaledd, yn golygu 6.33 o ddyddiau gan arolygydd. Cynhaliwyd 6 ymweliad monitro blynyddol â cholegau arbenigol annibynnol yn 2013-14. Ar sail cyfradd ddyddiol arolygydd, golyga hyn gost o oddeutu £33,350 i Estyn am gynnal ymweliadau monitro blynyddol â cholegau arbenigol annibynnol yn 2013-14. Caiff cost y gwaith hwn ei phennu o dan opsiwn 1. Nid oes disgwyl i Estyn ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol yn sgil parhau â'r gwaith hwn.

Ysgolion Annibynnol

- 7.110 Caiff ysgolion annibynnol yng Nghymru sy'n derbyn unigolion sydd â datganiad AAA o dan drefn bresennol adran 347 eu harolygu o bryd i'w gilydd. O dan opsiwn 2 byddai'n ofynnol i'r ysgolion hyn gyflwyno cais am newid perthnasol o dan adran 162 o Ddeddf Addysg 2002 a byddent yn cael eu monitro'n flynyddol gan Estyn. Byddai gan bob ysgol annibynnol ddysgwyr ag AY, yn fwy na thebyg, a byddai'n ofynnol iddynt wynebu ymweliadau monitro blynyddol. Amcangyfrifir bod llai nag 1 awr o waith fesul ysgol ynghlwm wrth gyflwyno cais am newid perthnasol i gofrestrriad a byddai cyfanswm y gost weinyddol ar gyfer bob ysgol yn llai na £500. Cost drosiannol untro i ysgolion annibynnol fyddai hon. O safbwynt y gwaith monitro cynyddol, amcangyfrifir na fyddai unrhyw gost ychwanegol gan fod ysgolion yn barod ar gyfer ymweliadau monitro ar unrhyw adeg.

Y Manteision

- 7.111 Byddai Opsiwn 2 yn sicrhau bod gan nifer sylweddol uwch o ddysgwyr hawl i CDU o'i gymharu â'r nifer sydd â hawl iddynt o dan y fframweithiau

deddfwriaethol presennol ar gyfer AAA/anawsterau a/neu anabledau dysgu. Mae'n cydnabod bod gan blant a phobl ifanc anghenion unigol am sawl rheswm ac y byddai angen mwy o gymorth a chefnogaeth ar rai plant a phobl ifanc er mwyn gallu cyflawni a datblygu hyd eithaf eu gallu.

Rhoi'r plentyn yn y canol

- 7.112 Gan fod yr opsiwn hwn yn golygu cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion ceir rhagor o bwyslais ar anghenion y dysgwyr. Dylai hyn ei gwneud hi'n haws i bennu'n gynnar pa gefnogaeth sydd ei hangen ar y dysgwyr. Gall ymyrryd yn brydlon leihau'r angen am ymyriadau drutach yn nes ymlaen a gall helpu'r dysgwyr i reoli ei anghenion yn yr hirdymor a chyflawni hyd eithaf ei allu ar lefel addysgol.
- 7.113 Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn annog dysgwyr a'u teuluoedd i chwarae rhan fwy amlwg yn y broses ac mae'n sicrhau eu bod yn deall yn well y penderfyniadau a gaiff eu gwneud. Dylai hyn helpu dysgwyr a'u teuluoedd i ddeall y broses a chreu gwell teimlad o berchenogaeth o safbwynt y penderfyniadau a gaiff eu gwneud. Dylai hyn helpu i leihau lefel y gwrthdaro, nifer yr anghytundebau a dylai sicrhau cyn lleied â phosibl o elyniaeth, sef ffactorau sy'n rhwystro anghytundebau rhag cael eu datrys cyn iddynt gyrraedd y Tribiwnlys. Byddai lleihad yn nifer yr achosion sy'n cyrraedd y Tribiwnlys yn helpu i waredu straen ac ansicrwydd i ddysgwyr a'u teuluoedd a hefyd yn lleihau costau awdurdodau lleol.

Y Cynllun Datblygu Unigol

- 7.114 Byddai Opsiwn 2 yn creu cynllun unigol, y CDU, a gaiff ei ddatblygu drwy gynllun sy'n canolbwyntio ar unigolion. Byddai hyn yn cynnwys, lle y bo'n berthnasol, hawl wedi'i diogelu'n statudol i'r dysgwyr hynny sydd ag anghenion difrifol a/neu gymhleth o'u geni hyd nes y byddant yn 25 mlwydd oed.
- 7.115 Byddai'r CDU yn disodli neu'n integreiddio'r holl gynlluniau unigol eraill (cynlluniau statudol neu anstatudol) y gallai dysgwyr fod yn ddarostyngedig iddynt. Gallai hyn helpu i wella deilliannau'r dysgwyr gan y gallai dull mwy holistaidd gael ei weithredu sy'n ystyried ei anghenion addysgol a'i anghenion cymdeithasol. Gallai hefyd leihau'r amser y bydd gofyn i blant, pobl ifanc a rhieni ei dreulio'n mynychu cyfarfodydd. Gallai hyn hefyd gyflawni arbedion effeithlonrwydd o safbwynt addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gan y byddai modd iddynt gynnal asesiadau ar yr un pryd.

Bodloni anghenion dysgwyr

- 7.116 Byddai estyn yr ystod oedran i'r dysgwyr ag anghenion difrifol a/neu gymhleth, o'u geni hyd nes y byddant yn 25 mlwydd oed, yn golygu bod modd canolbwyntio rhagor ar ymyrryd yn gynnar a darparu cefnogaeth. Byddai hefyd yn gwella'r trosglwyddiad rhwng cyfnodau allweddol taith addysgol dysgwyr er mwyn sicrhau na chaiff y manteision y caiff y dysgwyr yn ystod ei blentyndod eu tanseilio pan fydd yn datblygu'n oedolyn. Nid yw'r manteision

hyn yn rhai pendant ac felly nid oes modd pennu cost ar eu cyfer. Eto i gyd, gallent sicrhau arbedion hirdymor ar gyfer pob rhanddeiliad allweddol sy'n gysylltiedig â darpariaeth AY.

- 7.117 Byddai'r CDU yn disodli neu'n integreiddio'r holl gynlluniau unigol eraill y gallai'r dysgwr fod yn ddarostyngedig iddynt gan gynnwys cynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai hyn yn sicrhau dull mwy holistaidd ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc lle y byddai ei anghenion yn cael eu hystyried ar yr un pryd. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i amryfal adolygiadau o wahanol gynlluniau gael eu cynnal ar yr un pryd.
- 7.118 Byddai'r dysgwyr hynny ag anghenion difrifol a/neu gymhleth yn cael eu hasesu gan Baneli Cefnogi Rhanbarthol sy'n gyfrifol am gynllunio a chomisiynu strategol ar y cyd. Byddai hyn yn gwella deilliannau'r dysgwyr hyn gan y byddai modd iddynt fanteisio ar wasanaethau priodol o fewn y gymuned ynghyd â chyllid ar y cyd cysylltiedig lle y bo angen. Byddai cynnwys deiliaid cyllidebau o bob asiantaeth o fewn yr aelodaeth yn sicrhau ymatebion hyblyg o ran cyllid ar gyfer dysgwyr ag AY cymhleth a/neu ddifrifol y mae arnynt angen lleoliad a gynorthwyr o fewn y rhanbarth neu leoliad arbenigol o fewn y rhanbarth/y tu allan i'r rhanbarth. Dylai hyn wella'r deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion difrifol a/neu gymhleth gan y byddai modd iddynt fanteisio ar y gwasanaethau sy'n gweddu orau i'w hanghenion.
- 7.119 Byddai gwella prosesau sicrhau ansawdd yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr drwy olrhain deilliannau, yr adnoddau a neilltuwyd a'r dangosyddion perfformiad. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i dargedu cefnogaeth, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn fwy cost effeithiol a byddai'n ei gwneud hi'n bosibl i ddarpariaeth gael ei gwerthuso o safbwynt ei heffeithiolrwydd.
- 7.120 Byddai modd i wasanaethau addysg awdurdodau lleol hefyd ddefnyddio data ynghylch dysgwyr o fewn yr awdurdod a chynllunio ymlaen llaw y ddarpariaeth sy'n ofynnol. Byddai hyn yn cynnwys pennu'r dysgwyr y gallai fod angen eu lleoli mewn sefydliad addysg bellach prif ffrwd neu sefydliad ôl-16 arbenigol. Byddai modd i wasanaethau addysg awdurdodau lleol gydweithio'n fwy effeithiol â darparwyr addysg ôl-16 er mwyn sicrhau'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer bodloni anghenion pobl ifanc. Mae hyn yn creu cyfle i sicrhau gwell deilliannau ar gyfer dysgwyr ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd posibl i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru. Byddai gan Gyrfa Cymru lai o ran yn y broses, fel y disgrifir uchod.

Lleoliadau ôl-16 arbenigol annibynnol

- 7.121 O dan yr opsiwn hwn byddai'r broses o leoli dysgwr mewn darpariaeth ôl-16 arbenigol yn cael ei diwygio. Byddai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau a chyllido lleoliadau addysg bellach arbenigol, gan wella'r broses drosglwyddo ac annog awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 arbenigol i gydweithio'n fwy effeithiol.

Cymeradwyaeth a chydsyniad unigol ar gyfer ysgolion annibynnol

7.122 Ni fyddai bellach yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi cysyniad ar gyfer lleoliadau unigol mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chymeradwyo i dderbyn dysgwyr sydd â datganiad AAA oherwydd byddai ysgolion unigol bellach yn cofrestru i dderbyn dysgwyr sydd â chynllun statudol fel rhan o system gofrestru Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn arbed llawer iawn o amser yn y broses o leoli plentyn sydd â chynllun statudol mewn ysgol annibynnol. Byddai diwygio'r broses gofrestru yn golygu bod gwybodaeth fwy diweddar ar gael yn gyhoeddus am y ddarpariaeth AAA y gall yr ysgol annibynnol ei chynnig. Golyga hyn y byddai'n haws i awdurdodau lleol leoli dysgwr sydd â chynllun statudol mewn ysgol annibynnol addas sydd wedi'i chofrestru drwy system gofrestru Llywodraeth Cymru ar gyfer bodloni AY y dysgwr.

Opsiwn 3: Cyflwyno system unedig ac unigol yn seiliedig ar ADY yn lle'r trefniadau deddfwriaethol presennol ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA neu anawsterau a/neu anableddau dysgu.

7.123 Mae'r cynigion yn opsiwn 3 yn adeiladu ar y rheini a nodwyd yn opsiwn 2, ond eu bod wedi'u mireinio mewn rhai achosion er mwyn cyflawni bwriadau polisi gwreiddiol opsiwn 2. Mewn achosion eraill, maent wedi'u hailwampio yn sylweddol. Er eu bod yn dal yn fentrus ac yn radical, maent yn cynnig dulliau ymarferol o oresgyn diffygion y system gyfredol, yn rhoi ystyriaeth i'r newidiadau yng nghyd-destun ehangach y polisi a'r deddfwriaeth ac yn ymateb i safbwyntiau rhanddeiliaid.

7.124 Mae'r cynigion a amlinellir o dan yr opsiwn hwn hefyd wedi'u cynllunio i greu system fwy effeithiol ac effeithlon er mwyn gwneud gwell defnydd o'r adnoddau cyfredol a sicrhau arbedion tymor hir. Lle mireiniwyd y cynigion, cânt eu disgrifio isod ynghyd â'r costau perthnasol. Fodd bynnag, lle mae'r costau yn un fath, mae'r gost honno wedi'i chyfrifo yn opsiwn 2.

7.125 Mae'r opsiwn hwn hefyd yn rhoi mwy o ffocws ar ganolbwyntio ar unigolion wrth gynllunio ac adolygu'r ddarpariaeth. Fel y mae opsiwn 2 yn ei nodi, mae'r costau cysylltiedig, gan gynnwys hyrwyddo cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion, wedi'u hepgor o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan fod Llywodraeth Cymru yn dal i weithio ar y canllawiau a'r hyfforddiant ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion. Ceir rhagor o wybodaeth am ganolbwyntio ar unigolion ym Mhennod 3.

Costau yn ôl sector

Llywodraeth Cymru

7.126 Byddai'r cynigion a'r costau cysylltiedig a fyddai'n effeithio ar Lywodraeth Cymru yn debyg yn fras i'r hyn a amlinellir o dan opsiwn 2. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau opsiwn o ran Llywodraeth Cymru fyddai cael gwared â'r cynnig o dan opsiwn 2 i ddatblygu a gweithredu CDU statudol ar y we. Ni fyddai hyn

yn golygu na allai system TG anstatudol gael ei hystyried yn y dyfodol. Os byddai hynny'n digwydd, byddai dadansoddiad ar wahân o'r costau a'r manteision yn cael ei gynnal.

Cod

- 7.127 Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddatblygu Cod newydd a fyddai'n ategu'r system newydd ac yn darparu canllawiau ar gyfer rhanddeiliaid allweddol ar sut i gyflawni eu cyfrifoldebau. Byddai'r gost o ran staff wrth ddatblygu'r Cod a gwneud gwaith ymgynghori, cyfieithu a hyrwyddo'r yn cyfateb i'r gost a bennir o dan opsiwn 2. Cyfanswm y gost o lunio Cod fyddai tua £73,790. Cost drosiannol untro fyddai hon.

Cyfathrebu a Chodi Ymwybyddiaeth

- 7.128 Byddai'n hollbwysig bod awdurdodau lleol a staff ysgolion yn deall y system ADY newydd. Byddai Llywodraeth Cymru yn trefnu gweithgarwch pwrpasol i sicrhau hyn, a fyddai'n debyg yn fras i'r hyn a nodir yn opsiwn 2, a'r un fyddai'r gost. Y gost i Lywodraeth Cymru yn sgil adolygu deunyddiau hyfforddi llywodraethwyr a darparu sesiynau ymwybyddiaeth ar gyfer awdurdodau lleol a rhwydweithiau Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol fyddai tua £23,600, sy'r un fath ag yn opsiwn 2. Cost drosiannol untro fyddai hon.

Cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol

- 7.129 Byddai angen i ysgolion annibynnol gofrestru'r math o ADY y gallent ddarparu ar eu cyfer gan ddefnyddio'r broses gofrestru o dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflogi dau aelod o staff i reoli'r broses o gofrestru ysgolion annibynnol. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol, felly, o ran amser staff, er mwyn prosesu ceisiadau o dan yr opsiwn hwn.
- 7.130 Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn diwygio'r canllawiau cyfredol ar gyfer ysgolion annibynnol er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth am y broses gofrestru newydd yn glir. Amcangyfrifir cost o £4,720 sy'n cyfateb i'r gost a nodir o dan opsiwn 2. Cost drosiannol untro fyddai hon.

Lleoliadau ôl-16 arbenigol annibynnol

- 7.131 Yn yr un modd ag opsiwn 2, ni fyddai bellach angen i Lywodraeth Cymru asesu, trefnu nac ariannu lleoliad gyda darparwr addysg bellach arbenigol (ar hyn o bryd mae hyn yn costio £10.4m i Lywodraeth Cymru fel y nodir yn opsiwn 1 – gweler paragraffau 7.10 – 7.12). Câi'r swyddogaeth hon ei throsglwyddo i awdurdodau lleol. Ni fyddai'r cyllid ar gyfer y swyddogaeth hon yn cael ei neilltuo bellach; yn ôl pob tebyg, câi ei chyllido drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Mater i'r Is-Grŵp Dosbarthu (sy'n is-grŵp i Gyngor Partneriaeth Cymru) a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yw dosbarthu cyllid y Grant Cynnal Refeniw. Byddai'r gwaith hwn o drosglwyddo cyllid yn rheolaidd yn dechrau mewn da bryd er mwyn caniatáu digon o amser i ddatblygu systemau a phenderfynu ar geisiadau.

- 7.132 Hefyd ni fyddai angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo lleoliadau arbenigol unigol gan y byddai angen cofrestru darparwyr annibynnol. Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru dîm o 6 o bobl i brosesu'r ceisiadau hyn; mae'n costio £179,000 y flwyddyn iddi.
- 7.133 Câi canllawiau eu llunio ar gyfer gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar y broses o drefnu lleoliadau gyda cholegau arbenigol annibynnol. Y gost i Lywodraeth Cymru yn sgil llunio'r canllawiau hyn fyddai tua £4,720 sy'n cyfateb i'r gost a nodir o dan opsiwn 2. Cost drosiannol untro fyddai hon.
- 7.134 Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer gwasanaethau addysg awdurdodau lleol er mwyn esbonio'r system newydd o drefnu darpariaeth ôl-16 arbenigol. Byddai'r gost o ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth yn cyfateb i'r gost a bennir o dan opsiwn 2, sef tua £4,720. Cost drosiannol untro fyddai hon.

Awdurdodau Lleol

- 7.135 Yn gyffredinol, mae rôl yr awdurdod lleol, o dan yr opsiwn hwn, ym mhedwar maes allweddol asesu, adolygu, darparu cefnogaeth ac anghydfodau dysgwyr sydd ag anghenion difrifol a/neu gymhleth yn debyg i'w gyfrifoldebau cyfredol, gydag ambell eithriad sydd wedi'u nodi isod. Fodd bynnag mae yna rai gwahaniaethau amlwg rhwng y cynigion a nodir o dan opsiwn 2 a'r hyn a gynigir yn opsiwn 3. O dan opsiwn 3, ni fyddem:
- yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau addysg awdurdodau lleol benodi Cydlynnydd Cefnogi na sefydlu Paneli Cefnogi ar lefel leol a rhanbarthol. Mae gan awdurdodau lleol eisoes unigolion sy'n helpu i gydgyssylltu darpariaeth statudol ac mae trafodaethau amlasiantaethol yn rhan o'r broses sydd wedi hen ennill ei phlwyf. Rydym yn ceisio cryfhau'r prosesau cyfredol drwy drefniant mwy hyblyg, gan gynnwys llawer o asiantaethau yn y gwaith o ddatblygu/adolygu CDU a rhoi cyfrifoldebau penodol ar wasanaethau ieuchyd a chymdeithasol i ddarparu'r hyn y cytunwyd arno mewn CDU. Hefyd, o dan opsiwn 3 byddwn yn cael gwared â'r gofyniad i gynnal adolygiadau o gynlluniau statudol bob 6 mis. Yn lle hynny, byddai'n ofynnol cynnal adolygiadau bob blwyddyn neu'n fwy rheolaidd, yn dilyn cais i wneud hynny neu os bydd amgylchiadau'n newid. Yn ogystal, trwy waith monitro effaith, caiff cynnydd yn erbyn ymyriadau ei asesu'n fwy rheolaidd;
 - yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd rhan mewn gwasanaethau cyfryngu cyn i anghydfod fynd i Dribiwnlys. Ar ôl ystyried system debyg a gyflwynwyd yn Lloegr, lle gofynnir i ddarpar-apelyddion fynd i gyfarfod er mwyn cael gwybod am y broses gyfryngu a lle mae'n rhaid iddynt dderbyn tystysgrif cyn cael mynd ati i apelio, nodwyd bod hyn yn faich costus ar awdurdodau lleol nad yw ynddo'i hun yn debygol o leihau nifer yr apelau. Mae hefyd yn cynnal yn ormodol hawl rhywun i apelio. O dan opsiwn 3, byddai'r Cod yn cynnig gwell canllawiau ar ystod y dulliau o ddatrys anghydfod y dylai awdurdodau lleol eu darparu, ond heb orfodi'r rheini sy'n rhan o anghydfod i fynd drwy broses ffurfiol

ychwanegol cyn tribiwnlys. Fodd bynnag, o dan opsiwn 3, rydym yn cynnig cryfhau'r broses ar gyfer osgoi a datrys anghytundeb, a fyddai'n debygol o leihau nifer yr anghydfodau.

Gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol

- 7.136 Byddai'r term ADY yn berthnasol i'r un grŵp o ddysgwyr, i raddau helaeth, â'r rhai a gaiff eu cynnwys yn y categori 'anghenion addysgol arbennig' neu 'anawsterau a/neu anabledau dysgu' a byddai'n berthnasol i'r ystod oedran cyfan rhwng 0 a 25 oed. Gan mwyaf, byddem yn disgwyl i ysgolion neu sefydliadau addysg bellach ddiwallu anghenion dysgwyr. Dim ond lle na allai'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach, a hynny mewn modd rhesymol, ddiwallu eu hanghenion ar ei ben ei hun y byddai angen i'r awdurdod lleol drefnu darpariaeth ddysgu ychwanegol. Rydym yn disgwyl i nifer y dysgwyr a fyddai'n derbyn darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy wasanaeth addysg yr awdurdod lleol barhau i fod yn debyg i'r lefelau cyfredol (gweler tabl 2). Fel y mae opsiwn 1 (paragraffau 7.16 – 7.22) yn ei ystyried, nid ydym, felly, yn disgwyl i'r costau gynyddu. Hefyd, byddai monitro effaith, drwy ei ffocws ar asesu'r effaith y mae ymyriad wedi'i chael ar ddeilliannau addysgol dysgwr, yn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i theilwra'n well drwy'r ymyriadau y gwyddom sydd fwyaf effeithiol.
- 7.137 Yn achos y rhan fwyaf o ddysgwyr o fewn ein hysgolion, ni fyddai angen i awdurdodau lleol helpu i asesu neu adolygu eu CDU. Dim ond lle na allai'r ysgol, a hynny mewn modd rhesymol, ddiwallu anghenion dysgwyr y byddai angen i'r awdurdod lleol helpu i asesu neu adolygu CDU, neu lle mae angen ailystyried penderfyniad ysgol ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol dysgwyr. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn helpu gyda datganiadau AAA a cheisiadau am asesiadau statudol, ac felly rydym yn disgwyl y byddent yn parhau i ymwneud â nifer tebyg o ddysgwyr. Fodd bynnag, mae'r newid i fodel cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion wrth ddatblygu CDU yn golygu y byddai'r broses yn llawer llai biwrocrataidd na'r system statudol gyfredol. Mae'r system gyfredol yn cynnwys camau gorfodol a chyfraniad gorfodol pobl broffesiynol y mae'n rhaid ymgynghori â nhw, hyd yn oed pan nad oes unrhyw fudd amlwg i'r dysgwr. Fel y mae opsiwn 1 yn ei nodi, gall hyn gymryd 26 wythnos.
- 7.138 Byddai'r system newydd ac arfaethedig hon yn system fwy hyblyg a fydd yn golygu bod modd teilwra darpariaeth yn dibynnu ar gymhlethdod yr angen/nifer yr asiantaethau neu'r bobl broffesiynol sy'n ofynnol er mwyn helpu'r dysgwr. O'r herwydd byddai'r amser a'r gost i awdurdodau lleol yn amrywio yn ôl pa mor gymhleth yw angen yr unigolyn.
- 7.139 Ni fyddai ond angen i wasanaethau addysg awdurdodau lleol fod ynghlwm wrth asesu ac adolygu CDU dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach lle nad oedd modd i'r sefydliadau hynny ddiwallu anghenion y dysgwr, neu lle roedd angen ailystyried penderfyniad sefydliad addysg bellach am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol dysgwr. Yn achos y rhan fwyaf o ddysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach, mae eu hanghenion yn cael eu diwallu gan eu sefydliadau. Rydym yn disgwyl i hyn barhau o dan yr opsiwn hwn.

- 7.140 Lle bydd gan ddysgwyr anghenion nad oes modd, yn rhesymol, i'r sefydliad addysg bellach eu diwallu, dylai hyn gael ei nodi, yn achos y rhan fwyaf o ddysgwyr, yn eu CDU cyn iddynt gyrraedd addysg bellach. Ar hyn o bryd mae Gyrfa Cymru yn datblygu Cynlluniau Dysgu a Sgiliau (fel y mae opsiwn 1 yn ei nodi) ar gyfer y dysgwyr hynny ag anawsterau a/neu anableddau dysgu sy'n dechrau ar addysg bellach. Bydd y CDU yn disodli'r Cynllun Dysgu a Sgiliau. Byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau addysg y 22 awdurdod lleol ymgymryd â'r swyddogaeth hon a'r costau cysylltiedig. Yn 2013-14, gwariodd Gyrfa Cymru £147,530 ar gostau staff y rheini a gyfrannodd at ddatblygu Cynlluniau Dysgu a Sgiliau. Byddai hon yn gost reolaidd ar draws gwasanaethau addysg y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Eto i gyd, gan na fyddai gofyn creu cynllun newydd sy'n cyfateb i'r Cynllun Dysgu a Sgiliau, byddai'r swyddogaeth hon yn dod yn rhan o broses adolygu'r CDU ac felly dylai arwain at arbedion o safbwynt amser a chostau.
- Yn yr un modd ag opsiwn 2 (paragraff 7.74), byddai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol hefyd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb am gyllido lleoliadau mewn colegau arbenigol; Llywodraeth Cymru sy'n cyllido hyn ar hyn o bryd. Mae lleoliadau ôl-16 arbenigol yn seiliedig ar angen, ac felly nid oes rheswm i gredu y byddai nifer y lleoliadau yn cynyddu nac y byddai angen i'r cyllid gofynnol gynyddu o dan yr opsiwn hwn. Byddai awdurdodau lleol, felly, yn talu'r cyllid cyfredol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru (£10.4m y flwyddyn ar hyn o bryd). Ni fyddai'r cyllid ar gyfer y swyddogaeth hon yn cael ei neilltuo bellach; yn ôl pob tebyg, câi ei chyllido drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Mater i'r Is-Grŵp Dosbarthu (sy'n is-grŵp i Gyngor Partneriaeth Cymru) a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yw dosbarthu cyllid y Grant Cynnal Refeniw.
- 7.141 Yn yr un modd ag opsiwn 2, trwy well cydweithio ar draws gwasanaethau addysg ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol byddai'r awdurdodau lleol eu hunain mewn gwell sefyllfa i drafod costau penodol. Gallai gwella gallu awdurdodau lleol i gynllunio'n well ar gyfer trosglwyddiadau effeithiol i addysg ôl-16 addas hefyd arwain at ostyngiadau o safbwynt costau.
- 7.142 Byddai yna gost weinyddol i wasanaethau addysg awdurdodau lleol am ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros sicrhau lleoliad ar gyfer y rheini y mae angen darpariaeth ôl-16 arbenigol arnynt. Byddai hyn yn creu cyfleoedd am arbedion drwy gydweithio gwell ar draws gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol, gan ei gwneud yn bosibl, ar yr un pryd, i wasanaethau addysg awdurdodau lleol fod mewn sefyllfa well i negodi'r cyllid sy'n ofynnol ar gyfer lleoliad mewn coleg arbenigol annibynnol. Uchafswm y gost i'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru yw £179,000 y flwyddyn. Byddai angen ystyried hyn wrth i gyllid gael ei drosglwyddo oddi wrth Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Caiff hyn ei drafod gan yr Is-Grŵp Dosbarthu Llywodraeth Leol.
- 7.143 Byddai disgwyl hefyd i wasanaethau addysg awdurdodau lleol fynd i sesiwn ymwybyddiaeth untro ar y broses lleoliadau ôl-16 arbenigol. Byddai hyn yn cyfateb i'r hyn a ddisgrifir yn opsiwn 2 (paragraff 7.76). Amcangyfrifwyd cost o £300 yr awdurdod. Mae hyn yn golygu cyfanswm cost o £6,600 ar draws y 22 awdurdod lleol. Cost drosiannol untro fyddai hon.

- 7.144 Byddai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn parhau o dan ddyletswydd i ddatrys anghytundebau a rhoi gwybodaeth a chynghor. Fel rheol mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy ddefnyddio Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni i gyflenwi'r gwasanaethau hyn. Mae'r Cod Ymarfer AAA cyfredol yn cyfeirio at y term 'Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni'. Yn yr un ffordd, er mwyn i ddysgwyr allu arfer yn llawn eu hawl i apelio neu ddilyn gweithdrefnau datrys anghytundeb, byddai angen i awdurdodau lleol barhau i ddarparu gwasanaethau eirioli sydd hefyd yn gallu cynnig gwybodaeth a chynghor. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi'r rheini o oedran ysgol. Byddai'n rhaid eu diweddarau er mwyn iddynt adlewyrchu'r system ADY newydd. Byddai'n rhaid ehangu'r gwasanaethau hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn cwmpasu hawliau plant a phobl ifanc hyd at 25 oed a fyddai'n dymuno defnyddio'r gwasanaethau hyn. Gallai hyn arwain at gynydd yn y llwyth achosion gan y byddai'n rhaid i'r gwasanaethau ddarparu ar gyfer yr ystod oedran estynedig. Fodd bynnag nid yw'n bosibl mesur yr union gost i awdurdodau lleol.
- 7.145 O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol i wasanaethau addysg awdurdodau lleol wneud trefniadau eraill ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau rhwng dysgwyr a'u rhieni, ac ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill. Byddai hyn yn cynnwys trefnu bod yna berson annibynnol ar gael i helpu i ddatrys anghytundeb a sicrhau bod y trefniadau hyn yn hysbys. Byddai'r Cod yn cael ei ddefnyddio i bwysleisio y dylai awdurdodau lleol osgoi anghytundebau drwy sicrhau bod dysgwyr a rhieni yn cael help i ddeall a chymryd rhan yn y penderfyniadau a gymerir.
- 7.146 Fel y mae opsiwn 1 (paragraff 7.22) yn ei nodi, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir uchod. O dan yr opsiwn hwn, byddai angen ehangu'r gwasanaethau hyn ychydig i gynnwys rhieni/gofalwyr y dysgwyr sy'n perthyn i'r ystod oedran newydd, hy y rheini sy'n dechrau ar addysg bellach; a sicrhau pwyslais ar ddatrys anghytundeb. Yn yr un modd ag opsiwn 2, nid ydym yn rhagweld cynnydd yn y defnydd o unrhyw wasanaeth yn y tymor hir. Fodd bynnag, byddai unrhyw gostau posibl tymor byr yn cael eu gwrthbwyso gan ostyngiad posibl yn yr anghytundebau i'w datrys cyn iddynt fynd yn anghydfodau. Gan ganolbwyntio ar unigolion yn y system newydd, fel y nodir ym Mhennod 3, sy'n caniatáu i ddysgwyr a'u rhieni gymryd rhan fwy mewn penderfyniadau, nid ydym yn disgwyl i ystod yr apelau ar faterion addysgol gynyddu. Yn wir, gallai'r nifer leihau dros amser.

Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

- 7.147 O dan yr opsiwn hwn, rydym yn cynnig gweithredu system fwy hyblyg, lle byddai gwasanaethau cymdeithasol ond yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o'r broses pan all eu mewnbwn helpu'r dysgwr. Byddai angen y gwasanaethau cymdeithasol pan fyddai'r asesiad/adolygiad yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal; gosod dysgwr gyda darparwr arbenigol ôl-16; neu pan fyddai eu cyfraniad yn ychwanegu gwerth. Nid ydym yn disgwyl gweld staff gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud mwy na'r hyn maent yn ei wneud

eisoes, ac efallai y byddant yn gwneud llai, pan fydd hynny'n briodol, yn sgil y dull hyblyg hwn. Nid ydym yn rhagweld unrhyw gostau ychwanegol i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol o dan yr opsiwn hwn.

7.148 Yn yr un modd ag opsiwn 1, rydym yn disgwyl y bydd yr amser a gaiff ei dreulio ar gynlluniau asesu ac adolygu yn parhau'r un fath, yn ôl anghenion unigol y dysgwr.

7.149 Byddai gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol hefyd yn parhau i fod yn gyfrifol am gyfrannu at leoliadau ôl-16 arbenigol. Yn 2013-14 gwariodd gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol £5.5m ar y swyddogaeth hon. Fel y trafodwyd uchod (gwasanaethau addysg awdurdodau lleol), nid ydym yn disgwyl i'r nifer sy'n mynd i golegau arbenigol annibynnol gynyddu.

7.150 Byddai awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal yn cael eu diwallu. Mae'n bosibl o dan yr opsiwn hwn y byddai proses gynllunio CDU yn gallu integreiddio proses gynllunio ac adolygu'r Cynllun Addysg Personol a'r Cynllun Gofal a Chymorth. Gan y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o'r broses CDU wrth drafod anghenion dysgu ychwanegol plentyn sy'n derbyn gofal, efallai y gellid arbed arian gan y gallent asesu ac adolygu cynlluniau ar yr un pryd.

Ysgolion

7.151 Byddai'r cynigion a'r costau cysylltiedig a fyddai'n effeithio ar ysgolion yn debyg yn fras i'r hyn a amlinellir o dan opsiwn 2. Fodd bynnag, mae yna rai gwahaniaethau allweddol rhwng y cynigion a nodwyd o dan opsiwn 2 a'r hyn a gynigir yn opsiwn 3. O dan opsiwn 3, ni fyddem:

- yn creu CDU statudol ac anstatudol. Ni fyddai'n system deg i rai dysgwyr gael hawl statudol i ddarpariaeth, tra na fyddai gan eraill yr hawl honno.
- yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau statudol gael eu hadolygu bob 6 mis. Mae hyn yn rhoi baich diangen ar staff ysgolion. Bydd ein bwriad i gyflwyno system o fonitro effaith yn sicrhau y caiff ymyriadau a bennir i ddiwallu anghenion dysgwyr eu monitro a'u hasesu o ran eu heffeithiolrwydd, drwy gydol cyfnod yr ymyriad, a thrwy hynny sicrhau bod proses adolygu barhaus ar waith.
- yn cynnig y dylai fod gan y categori ehangach o ddysgwyr ag anghenion ychwanegol (yn opsiwn 2) hawl i CDU anstatudol. Nid ydym yn barnu bod creu CDU anstatudol ar gyfer cyfran sylweddol o ddysgwyr (o dan y diffiniad ehangach o anghenion ychwanegol) yn ddefnydd effeithiol o adnoddau'r ysgol, a gallai olygu costau gweinyddol sylweddol.
- O dan opsiwn 3, rydym hefyd yn cyflwyno rôl Cydlynedd ADY statudol. Trafodir hyn ymhellach isod.

7.152 O dan opsiwn 3, byddai'n ofynnol creu CDU ar gyfer pob dysgwr ag ADY (ond byddai angen i ddysgwyr ag ADY sydd dros 16 oed roi eu cydsyniad i gael CDU). Lle y mae gan ddysgwr CDU byddai hawl statudol i'r ddarpariaeth wedi'i hamlinellu o'i fewn. Byddai disgwyl, felly, i bob ysgol gymryd camau

rhwymol i ddiogelu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd wedi'i chynnwys o fewn y CDU. Ar hyn o bryd, mae ysgolion yn darparu ar gyfer y dysgwyr hynny ar gynlluniau anstatudol ac ar gyfer y dysgwyr sydd â datganiadau AAA. Mae'n ofynnol i ysgolion wneud eu gorau glas i gynnig y ddarpariaeth addysgol arbennig sydd ei hangen yn unol â'r cynlluniau hyn. Byddai ysgolion yn parhau i gynnig y mathau o ddarpariaeth y maent yn eu darparu eisoes. Byddai nifer y dysgwyr o oedran ysgol y byddai ganddynt hawl i CDU yn debyg iawn i nifer y rhai sydd â hawl i Ddatganiadau AAA a Chynlluniau Addysg Unigol anstatudol ar hyn o bryd. Eto i gyd, rydym yn rhagweld y bydd y Cod yn cynnwys canllawiau mwy clir na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch y 'pwynt mynediad' i CDU er mwyn sicrhau dull cyson ar draws Cymru o safbwynt rhoi CDU i'r dysgwyr hynny sy'n bodloni'r diffiniad o ADY. Nid ydym, felly, yn rhagweld cynnydd yng nghost y ddarpariaeth. Fel y mae opsiwn 1 yn ei nodi, mae Deloitte wedi amcangyfrif bod ysgolion yn gwario 95% o'u gwariant AAA ar ddarparu cymorth. Trwy fonitro effaith, fel y disgrifiwyd yn gynharach, gellid targedu'n well ddarpariaeth ysgolion drwy'r ymyriadau y gwyddom sydd fwyaf effeithiol. Byddai hyn yn caniatáu i ysgolion ddefnyddio eu hadnoddau'n fwy effeithiol.

- 7.153 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r amser a gâi ei dreulio yn asesu ac yn adolygu dysgwyr yn seiliedig ar ei angen. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, felly, rydym yn disgwyl y byddai'r amser a gâi ei dreulio ar gynllunio ac adolygu cynlluniau yn amrywio. Fodd bynnag, dylai'r broses sydd ynghlwm wrth CDU fod yn gymesur ag anghenion y dysgwyr. Byddai angen rhoi mwy o amser i asesu ac adolygu cynlluniau'r rheini sydd â'r anghenion mwyaf difrifol a/neu gymhleth, lle ni fyddai angen yr un amser yn achos y rheini sydd ag anghenion lefel isel. Rhagwelir y caiff y system ADY ei chyflwyno'n raddol ar adegau trosglwyddo allweddol yn addysg y dysgwyr. Bydd hyn yn sicrhau cyn lleied â phosibl o faich i ysgolion o ran trosglwyddo i CDU a'u cynnal.
- 7.154 O dan opsiwn 3, byddai angen i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys meithrinfeydd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, benodi Cydlynnydd ADY. Byddai'r Cydlynnydd yn hollbwysig i'r gwaith o ddatblygu diwylliant o anelu'n uchel a gwella deilliannau mewn perthynas â dysgwyr ag ADY. Byddai'r rôl yn golygu cydlynu gwaith cynllunio ac ymyriadau sy'n ymwneud ag ADY a sicrhau bod y safonau o ran cynllunio, pennu targedau a chanolbwyntio ar ddeilliannau yn cael eu cynnal yn gyson. Ar hyn o bryd, mae gan bob ysgol unigolion sy'n cyflawni rôl anstatudol Cydlynnydd AAA neu sydd â chyfrifoldebau tebyg. Mater i'r ysgol fyddai penodi'r unigolyn mwyaf priodol i ymgymryd â'r rôl hon, ond nid ydym yn rhagweld y byddai hyn yn arwain at greu swydd newydd o fewn ysgol nac yn achosi unrhyw gostau newydd.
- 7.155 Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am hyrwyddo'r system newydd ynghylch ADY a byddai'n dilyn dull tebyg i'r hyn a amlinellir yn opsiwn 2 (gweler paragraff 7.86). Byddai Cod Ymarfer yn cynnig canllawiau a gwybodaeth i ysgolion a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol a byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod hyfforddiant llywodraethwyr ysgolion yn cael ei ddiweddarau. Byddai rhwydweithiau perthnasol y Cydlynwyr ADY yn cael eu defnyddio er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r system unedig newydd. Byddai'r Cydlynnydd yn cefnogi staff yn ôl yr angen ac yn sicrhau bod y staff i gyd yn

ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Nid yw hyn yn debygol o olygu unrhyw gostau ychwanegol i ysgolion gan y byddai disgwyl i'r sesiynau codi ymwybyddiaeth gael eu cynnal yn ystod diwrnodau HMS yn achos ymarferwyr, neu fel rhan o'r diwrnodau rhwydweithio sydd eisoes yn digwydd yn achos Cydlynwyr ADY.

Sefydliadau Addysg Bellach Prif Ffrwd

- 7.156 Byddai'r cynigion a'r costau cysylltiedig a fyddai'n effeithio ar sefydliadau addysg bellach yn debyg yn fras i'r hyn a amlinellir o dan opsiwn 2 (gweler paragraff 7.87). Byddai'r prif wahaniaeth rhwng y ddau opsiwn ar gyfer sefydliadau addysg bellach yn debyg i'r hyn a nodir uchod ar gyfer ysgolion. Mae opsiwn 3 yn cael gwared â'r cynnig o dan opsiwn 2 i greu CDU statudol ac anstatudol; yr angen i adolygu cynlluniau statudol bob 6 mis; y categori ehangach o ddysgwyr ag anghenion ychwanegol a fyddai â hawl i CDU anstatudol ac mae'n cyflwyno rôl Cydlynwyr ADY.
- 7.157 O dan opsiwn 3, byddai'n ofynnol creu CDU ar gyfer pob dysgwr ag ADY, a lle mae gan ddysgwr CDU byddai hawl statudol i'r ddarpariaeth wedi'i hamlinellu o fewn y CDU. Byddai disgwyl, felly, i bob sefydliad addysg bellach gymryd camau rhesymol i ddiogelu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd wedi'i chynnwys o fewn y CDU. Ar hyn o bryd, y sefydliadau addysg bellach sy'n gyfrifol am asesu anghenion dysgwyr sy'n dechrau ar addysg bellach ac am ddarparu cefnogaeth berthnasol i'r dysgwyr sydd ei hangen. Mae'r dysgwyr hynny y mae angen darpariaeth ychwanegol arnynt yn derbyn cytundeb dysgu unigol pan fyddant yn dechrau mewn sefydliad addysg bellach. Mae hyn yn cynnwys y dysgwyr hynny nad oes ganddynt anghenion cymhleth / difrifol ac felly sy'n annhebygol o fod â Chynllun Dysgu a Sgiliau. Gan fod sefydliadau addysg bellach eisoes yn gwneud elfen o waith asesu strwythuredig ar gyfer y grŵp ehangach hwn o ddysgwyr, nid ydym yn disgwyl y bydd yr opsiwn hwn yn golygu unrhyw gostau ychwanegol iddynt. Rydym yn rhagweld y bydd nifer y dysgwyr sy'n dechrau ar addysg bellach yn parhau'n debyg yn fras i'r lefelau cyfredol.
- 7.158 Yn achos y dysgwyr hynny sydd ag anghenion difrifol a / neu gymhleth sy'n dechrau ar addysg bellach, mae'n debygol mai'r awdurdod lleol a fydd yn cynnal y CDU. Byddai cyfrifoldeb ar y sefydliad addysg bellach i ymateb i unrhyw gais gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU am gymorth neu wybodaeth. Yn achos sefydliadau addysg bellach, disgwylir i'r rhan fwyaf o'r ceisiadau fod yn gysylltiedig â gwybodaeth sydd gan y sefydliad eisoes. Rhagwelir, felly, na fyddai unrhyw gostau ychwanegol i'r sefydliad wrth ymateb i geisiadau gan wasanaeth addysg awdurdod lleol.
- 7.159 Yn yr un modd ag ysgolion, rhagwelir y caiff y system ADY ei chyflwyno'n raddol ar adegau trosglwyddo allweddol yn addysg y dysgwr. Bydd hyn yn sicrhau cyn lleied â phosibl o faich i sefydliadau addysg bellach wrth i CDU gael eu cyflwyno.
- 7.160 Fel y disgrifir o dan yr adran uchod ar ysgolion, o dan opsiwn 3, bydd yn rhaid i sefydliadau addysg bellach benodi Cydlynwyr ADY sydd â'r cymhwyster neu'r profiad a ragnodir. Mae gan sefydliadau addysg bellach eisoes unigolion

sy'n cyflawni rôl debyg, ac felly nid ydym yn rhagweld y bydd angen iddynt greu swydd newydd ar gyfer y gwaith hwn.

- 7.161 Yn yr un modd ag opsiwn 2, Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am hyrwyddo'r system ADY newydd a byddai'n dilyn dull tebyg mewn perthynas â sefydliadau addysg bellach. Byddai Cod yn cael ei ddatblygu a fyddai'n darparu canllawiau a gwybodaeth ar y system newydd a byddai'n fater i sefydliadau addysg bellach benderfynu sut i sicrhau bod y staff perthnasol yn ymwybodol o'r system newydd. Nid oes disgwyl i hyn olygu unrhyw gostau i'r sefydliad addysg bellach, gan y dylai'r broses o godi ymwybyddiaeth gael ei hymgorffori o fewn y prosesau presennol ar gyfer datblygu staff.

Byrddau Iechyd Lleol

- 7.162 Byddai'r cynigion a'r costau cysylltiedig a fyddai'n effeithio ar fyrddau iechyd lleol yn debyg yn fras i'r hyn a amlinellir o dan opsiwn 2 (paragraffau 7.89 – 7.98). Fodd bynnag mae yna rai gwahaniaethau amlwg rhwng y cynigion a nodir o dan opsiwn 2 a'r hyn a gynigir yn opsiwn 3. O dan opsiwn 3, ni fyddem:

- yn sefydlu paneli cefnogi amlasiantaethol. Mae byrddau iechyd lleol eisoes wrthi'n trafod gyda llawer o asiantaethau, a gallai ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth fod yn gostus. Yn hytrach, rydym yn ceisio cryfhau'r prosesau cyfredol drwy drefniant mwy hyblyg, gan gynnwys llawer o asiantaethau yn y gwaith o ddatblygu/adolygu CDU a rhoi cyfrifoldebau penodol ar wasanaethau iechyd i ddarparu'r hyn y cytunwyd arno mewn CDU. Rydym hefyd am benodi Swyddog Meddygol neu Glinigol Dynodedig i fod yn gyfrifol am gydlyn swyddogaeth byrddau iechyd lleol mewn perthynas ag ADY (trafodir hyn ymhellach isod);
- yn creu un cynllun a fyddai'n integreiddio cynlluniau gofal iechyd eraill. Byddai hyn yn creu dryswch o ran pwy sydd ar y blaen. Byddai CDU yn canolbwyntio ar anghenion dysgu dysgwyr ADY ac yn benodol yn disodli'r Datganiad AAA; y Cynllun Addysg Unigol; a'r Cynllun Dysgu a Sgiliau. Byddai'r CDU yn sicrhau eglurder o safbwynt pwy sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y cytunir arni ynddo.
- yn gwneud byrddau iechyd lleol yn ddarostyngedig i'r broses apelio gyda'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig. Mae proses gwyno eisoes yn bodoli ar gyfer y gwasanaeth iechyd. Mae cael gwared â'r cynnig hwn yn osgoi unrhyw ddryswch neu annhegwch yn y broses gwyno yn y dyfodol.
- yn newid ein diffiniad i ymgorffori categori ehangach o ddysgwyr. O dan opsiwn 3, byddai'r grŵp dysgwyr a fyddai'n dod o dan gategori ADY yn ddigon tebyg i'r rheini sydd o dan gategori AAA ar hyn o bryd. Bydd hyn yn lleihau'r risg i fyrddau iechyd lleol o ran costau yn gysylltiedig ag anghenion iechyd posibl grŵp ehangach o ddysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol (opsiwn 2).

- 7.163 O dan opsiwn 3, byddai'n ofynnol creu CDU ar gyfer pob dysgwr ag ADY, a byddai hawl statudol i'r ddarpariaeth wedi'i hamlinellu o fewn y CDU. O dan opsiwn 3, byddai'n ofynnol i bob bwrdd iechyd lleol ddarparu'r hyn y mae wedi

cytuno i'w ddarparu, yn unol â'r CDU. Fel y mae opsiwn 1 yn ei nodi (paragraffau 7.34 – 7.38), mae byrddau iechyd lleol eisoes yn cyllido darpariaeth AAA/anawsterau a/neu anabledau dysgu sy'n gysylltiedig ag iechyd. Daw'r cyllid hwn o'r cyllidebau cyfredol. Mae gan y GIG eisoes lwybrau / fframweithiau i helpu i flaenoriaethu'r ddarpariaeth yn ôl angen clinigol a byddai'r rhain yn parhau i gael eu defnyddio. Nid ydym yn rhagweld y byddai cost gyfredol cymorth y GIG yn newid o dan yr opsiwn hwn. O'r herwydd, felly, nid ydym yn rhagweld y byddai cost gyfredol darpariaeth y GIG yn newid o dan yr opsiwn hwn.

7.164 Fel y mae opsiwn 1 yn ei nodi (paragraff 7.36 – 7.37), ar hyn o bryd mae byrddau iechyd lleol yn cyfrannu at gynlluniau statudol ac anstatudol dysgwyr sydd yn yr ysgol. Mae'n annhebygol, felly, y bydd yr opsiwn hwn yn golygu mwy o waith i'r byrddau o ran asesu angen ac adolygu cynlluniau dysgwyr sydd yn yr ysgol. Rydym hefyd yn cynnig gweithredu system fwy hyblyg, lle na fyddai byrddau iechyd lleol ond yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o'r broses pan all eu mewnbwn helpu'r dysgwr. Ni fyddai ond angen troi atynt os byddai angen sy'n galw am ddarpariaeth iechyd briodol. Ni fyddai anghenion iechyd dysgwyr sydd ag ADY yn newid o dan yr opsiwn hwn. Nid ydym yn disgwyl gweld staff gwasanaethau iechyd yn gwneud mwy na'r hyn maent yn ei wneud eisoes, ac efallai y byddant yn gwneud llai, pan fydd hynny'n briodol, yn sgil y dull hyblyg hwn. Nid ydym yn rhagweld unrhyw gostau ychwanegol i fyrddau iechyd lleol o dan yr opsiwn hwn. Mae yna risg y gallai anghenion iechyd ychwanegol gael eu nodi o dan yr opsiwn hwn, a allai effeithio ar y byrddau. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y bydd y grŵp dysgwyr hwn yn fwy o faint na'r rheini sydd wedi'u nodi o dan y system gyfredol (hy y rheini sy'n destun Datganiadau a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy).

7.165 Byddai CDU ar gael i ddysgwyr hyd at 25 oed. Gan mwyaf, câi anghenion dysgwyr ag ADY eu nodi fel rhan o'u CDU cyn mynd i addysg bellach, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth iechyd sy'n ofynnol. Fel y mae opsiwn 1 yn ei nodi (paragraff 7.39), nid oes dyletswydd statudol ar fyrddau iechyd lleol i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio ac adolygu cynlluniau addysgol y rheini sydd mewn addysg bellach, ond mae'n ddyletswydd ar sefydliadau addysg bellach i ofalu am eu dysgwyr a byddent yn eu cyfeirio at y byrddau iechyd yn ôl yr angen. Rhagwelir y byddai niferoedd y dysgwyr a fyddai'n manteisio ar y ddarpariaeth ôl-16 yn parhau'n gymharol debyg i'r lefelau cyfredol. Nid ydym, felly, yn rhagweld unrhyw gynnydd yn nifer yr achosion newydd a atgyfeirir i fyrddau iechyd lleol mewn perthynas â dysgwyr ôl-16 y nodwyd o'r newydd bod ganddynt ADY. Fodd bynnag, gallai cyflwyno proses gynllunio statudol ar gyfer dysgwyr mewn addysg ôl-16 gynnwys dysgwyr sydd ag anghenion iechyd, er enghraifft iechyd meddwl, nad oeddent wedi'u nodi o'r blaen ac felly nid oes modd pennu unrhyw gostau posibl i'r byrddau iechyd lleol. Eto i gyd, mae'r manteision sydd ynghlwm wrth adnabod ac ymyrryd yn gynnar yn cael eu derbyn yn gyffredinol o safbwynt y deilliannau ar gyfer y dysgwyr a chostau cyffredinol yr ymyriadau.

7.166 Yn achos y dysgwyr sydd ag anghenion difrifol a/neu gymhleth sy'n dechrau ar addysg ôl-16, mae'n debygol mai'r awdurdod lleol a fydd yn cynnal y CDU. Byddai cyfrifoldeb ar y bwrdd iechyd lleol i ymateb i unrhyw gais am gymorth

neu wybodaeth gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU. Mae byrddau iechyd eisoes o dan ddyletswydd i gydymffurfio â chais am gymorth oddi wrth wasanaeth addysg awdurdod lleol. Rhagwelir, felly, na fyddai unrhyw gostau ychwanegol i'r bwrdd iechyd wrth ymateb i geisiadau gan wasanaeth addysg awdurdod lleol. Fodd bynnag, lle y mae'r dysgwr rhwng 19 a 25 mlwydd oed, mae'n faes gweithgarwch newydd i'r bwrdd iechyd. Byddai hon yn gost bosibl i'r bwrdd iechyd lleol ond nid yw'r swm yn hysbys.

- 7.167 Byddai byrddau iechyd lleol hefyd yn parhau i fod yn gyfrifol am gyfrannu at gyllid darpariaeth ôl-16 arbenigol ar gyfer y dysgwyr hynny y mae eu hanghenion yn golygu ei bod yn ofynnol eu lleoli yno. Mae hon yn gost barhaus (£0.8m), y manylir arni ymhellach yn opsiwn 1 (paragraff 7.34).
- 7.168 O dan opsiwn 3, byddai'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol benodi swyddog meddygol dynodedig a fyddai'n gyfrifol am gydlyn swyddogaethau byrddau iechyd lleol mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol. Byddai'r swyddog meddygol yn gyfrifol am sicrhau mewnbwn priodol gan y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y bydd y swyddog meddygol yn rhan o'r gwaith o asesu ac adolygu CDU (ac eithrio fel rhan o'i arfer clinigol arferol). Mater i'r bwrdd iechyd fyddai penderfynu pwy o fewn y bwrdd fyddai'r unigolyn mwyaf priodol i ymgymryd â'r rôl newydd hon. Fodd bynnag, nid oes bwriad i greu swydd newydd i'r perwyl hwn. Mae byrddau iechyd eisoes yn ymgymryd â'r mathau o swyddogaethau y byddai disgwyl i'r swyddog meddygol eu cyflawni. Nid ydym, felly, yn rhagweld unrhyw gostau ychwanegol i fyrddau iechyd lleol yn sgil penodi swyddog meddygol dynodedig.
- 7.169 Byddai gofyn i'r swyddog meddygol dynodedig fynd i sesiwn hyfforddi ar y system newydd. Amcangyfrifir mai cost hyfforddiant undydd i aelod o staff ar y lefel briodol yw tua £300 fesul bwrdd iechyd lleol. Amcangyfrifir cyfanswm cost o £2,100 i bob bwrdd iechyd. Cost drosiannol untro fyddai hon.
- 7.170 Er mwyn helpu'r swyddog meddygol dynodedig i gyflawni ei rôl mewn ffordd gyson a rhannu arferion gorau, byddai angen creu rhwydwaith. Byddai hyn yn helpu'r swyddog i ddeall holl ystod ei gyfrifoldebau. Byddem yn disgwyl i'r rhwydwaith hwn gwrdd ddwywaith y flwyddyn. Amcangyfrifir mai cost anfon un aelod o staff ar y lefel briodol i ddiwrnod gyda'r rhwydwaith fyddai tua £300 fesul bwrdd iechyd lleol. Amcangyfrifir mai cost cyfarfod ddwywaith y flwyddyn fyddai £600 i bob bwrdd iechyd lleol. Amcangyfrifir cyfanswm cost o £4,200 i bob bwrdd iechyd, i'r swyddog meddygol dynodedig gwrdd â'r rhwydwaith ddwywaith y flwyddyn. Mae hon yn gost reolaidd.
- 7.171 Fel y nodwyd uchod, ni fyddai byrddau iechyd lleol yn ddarostyngedig i apelau i'r Tribiwnlys Addysg (y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig gynt) ac felly ni fyddai unrhyw gostau yn gysylltiedig ag apelau mewn perthynas â darpariaeth iechyd. Mae gweithdrefn gwyno'r GIG, 'Gweithio i Wella' yn caniatáu i blant, rhieni a phobl ifanc wneud cwynion ffurfiol am y bwrdd iechyd lleol. Gallai fod yna risg uwch o ran defnyddio Gweithio i Wella a fyddai'n gost i'r bwrdd iechyd. O dan yr opsiwn hwn, byddai modd o hyd i ddysgwyr a'u

rhieni wneud cwyn ffurfiol ynghylch eu darpariaeth drwy'r weithdrefn hon. Ni fyddai'r opsiwn hwn, felly, yn golygu unrhyw gostau ychwanegol i fyrddau ieuchyd lleol.

Cyrff Eraill

Gyrfa Cymru

- 7.172 Byddai'r cynigion a'r arbedion effeithlonrwydd cysylltiedig a fyddai'n effeithio ar Gyrfa Cymru yr un fath â'r hyn a amlinellir o dan opsiwn 2. £147,530 y flwyddyn mewn arbedion costau staff ar gyfer datblygu'r Cynllun Dysgu a Sgiliau a £32,600 y flwyddyn mewn arbedion costau staff ar gyfer gwneud cais i Lywodraeth Cymru gyllido darpariaeth ôl-16 arbenigol.
- 7.173 Byddai Gyrfa Cymru yn parhau i helpu dysgwyr fel rhan o'i ofynion gwasanaeth statudol, ond dim ond yn achos y dysgwyr hynny ag ADY y byddai'n helpu gyda gwaith asesu ac adolygu, lle gall ychwanegu gwerth. Bydd canllawiau pellach ynghylch y mater hwn yn y Cod. Gallai hyn arwain at arbedion effeithlonrwydd pellach.

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

- 7.174 Byddai'r cynigion a'r costau cysylltiedig a fyddai'n effeithio ar y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yn debyg yn fras i'r hyn a amlinellir o dan opsiwn 2. Y prif wahaniaeth rhwng y cynigion a amlinellir o dan y ddau opsiwn yw na fyddai cylch gwaith y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yn cael ei ehangu i gynnwys gofal ieuchyd o dan opsiwn 3. Fel yr esboniwyd, mae proses gwyno eisoes yn bodoli ar gyfer y gwasanaeth ieuchyd. Byddai cael gwared â'r cynnig hwn yn osgoi unrhyw ddryswch neu annhegwch yn y broses gwyno yn y dyfodol. Mae opsiwn 3 hefyd yn cynnig newid enw'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig i'r Tribiwnlys Addysg, a fyddai'n adlewyrchu ei rôl mewn perthynas ag ADY a hefyd y rôl sydd ganddo ar hyn o bryd o ran penderfynu ynghylch achosion o wahaniaethu ar sail anabledd.
- 7.175 n yr un modd ag opsiwn 2, nid ydym yn disgwyl cynnydd yn nifer yr apelau ar faterion addysgol o dan yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr a'u rhieni a fyddai â hawl i apelio o dan yr opsiwn hwn yn fwy. Ar hyn o bryd, gall pob dysgwr mewn ysgol (gan gynnwys ysgolion arbennig, meithrinfeydd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion) apelio ynghylch peidio â derbyn datganiad AAA neu, os oes ganddo ddatganiad, gall apelio yn erbyn cynnwys ei ddatganiad. O dan yr opsiwn hwn, gall pob dysgwr mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach apelio ynghylch peidio â derbyn CDU neu, os oes ganddo CDU, gall apelio yn erbyn y ddarpariaeth y cytunwyd arni (neu na chytunwyd arni) yn ei CDU. Mae hyn yn cynyddu'r hawl i apelio o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.
- 7.176 Fodd bynnag, mae'r ffaith bod pob CDU yn statudol yn cael gwared â phrif asgwrn y gynnen, sef annhegwch sefyllfa lle mae un ddarpariaeth yn statudol ac un arall yn anstatudol; a defnyddio cynlluniau sy'n canolbwyntio ar unigolion (fel y nodir ym Mhennod 3) sy'n caniatáu i ddysgwyr a'u rhieni gymryd rhan fwy mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r dystiolaeth

yn dangos bod cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn gallu lleihau nifer yr apelau dros gyfnod. Yn Sir Gaerfyrddin, cynhaliwyd 12 apêl yn 2010-2011, a chynhaliwyd 0 apêl yn 2013-14, yn sgil cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion. Yn ogystal, roedd 47% o'r apelau yn 2013-14 yn gysylltiedig â gwrthod asesu, ailasesu neu ddarparu datganiad – byddai opsiwn 3 yn gwaredu unrhyw achosion o'r fath.

7.177 Mae opsiwn 3 hefyd yn cryfhau'r broses ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau, gan ganolbwyntio ar ddatrys anghytundebau ar y lefel fwyaf leol bosibl. Er mwyn ategu hyn, byddai opsiwn 3 yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau addysg awdurdodau lleol:

- wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau rhwng plant, pobl ifanc, rhieni ac ysgolion, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol ac eraill.
- rhoi gwybodaeth a chynghor am ADY a'r system unedig newydd.
- darparu gwasanaeth eirioli annibynnol ar gyfer plant neu bobl ifanc (neu gyfaill achos) i ddilyn gweithdrefnau datrys anghytundebau a sicrhau bod eu llais a'u barn yn cael ei glywed.

7.178 Yn sgil y gofynion hyn, gallai nifer yr apelau leihau dros gyfnod. Disgwylir, felly, i gost apelau i'r Tribiwnlys hefyd leihau dros amser.

7.179 Yn ystod tair blynedd gyntaf ei gweithredu yn enwedig, mae'n debygol y caiff y pwyntiau deddfwriaeth eu herio, gan arwain at gynnydd posibl yn nifer yr apelau a fydd yn cael eu cyfeirio at yr Uwch Dribiwnlys. Ers sefydlu'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yn 2003/04, gwnaed 16 o geisiadau i gyfeirio apelau at yr Uwch Dribiwnlys. Rhagwelir, felly, y byddai nifer yr apelau a gyfeirir at yr Uwch Dribiwnlys, o dan y system ADY newydd, yn gymharol isel. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, disgwylir i'r pwyslais mwy o dan y system ADY ar osgoi a datrys anghydfod a defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion gael effaith gadarnhaol ar nifer yr anghydfodau ac, felly, yr apelau. Nid yw'n bosibl, felly, cyfrifo union nifer na chost yr apelau a gyfeirir at yr Uwch Dribiwnlys. Nid yw'r costau hyn felly'n hysbys,

7.180 Mae yna risg na fydd canolbwyntio ar unigolion a'r gwasanaeth datrys anghytundeb yn cael yr effaith gadarnhaol a fwriedir o ran lleihau nifer yr apelau. Bydd monitro Llywodraeth Cymru a'r Tribiwnlys yn agos yn allweddol er mwyn sicrhau bod yna ddigon o adnoddau i'w gwneud yn bosibl cyflawni swyddogaethau statudol y Tribiwnlys a bod gan y tîm gweinyddol sy'n cefnogi'r Tribiwnlys hefyd ddigon o adnoddau.

7.181 Bydd angen i aelodau presennol y Tribiwnlys gael hyfforddiant er mwyn deall y system unedig newydd. Amcangyfrifir mai cost y gofynion hyfforddi i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yw tua £35,090. Yn ôl pob tebyg, cost drosiannol untro fyddai hon. Mae'r costau yn seiliedig ar:

- Hyfforddiant undydd ar gyfer yr aelodau cyfreithiol sy'n cwmpasu'r ystyriaethau cyfreithiol ychwanegol wrth ddelio â phobl ifanc hyd at 25 oed.

- Paratoad undydd am hyfforddiant gan un o Gadeiryddion y Tribiwnlys.
- Hyfforddiant dau ddiwrnod ar gyfer holl aelodau'r Tribiwnlys.
- Digwyddiad hyfforddiant dilynol undydd tua chwe mis ar ôl cychwyn y system newydd i adolygu'r sefyllfa. Gallai hyn arwain at hyfforddiant hanner diwrnod ychwanegol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi.
- Dau ddiwrnod i grwpiau defnyddwyr (un i'r Gogledd ac un i'r De) er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr a delio â'u pryderon ynghylch y system newydd.

7.182 Bydd gofyn i'r Tribiwnlys ystyried ei ofynion o ran aelodaeth yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod gan yr aelodau wybodaeth/profiad o sefydliadau addysg bellach, mewn ymateb i'r ystod oedran estynedig. Rhagwelir y bydd angen i 2 aelod o'r Tribiwnlys fod â gwybodaeth/profiad o sefydliadau addysg bellach. Cost recriwtio a sefydlu 2 aelod o'r Tribiwnlys yw £25,348. Byddai cost weinyddol untro a bach hefyd yn gysylltiedig â newid enw'r Tribiwnlys.

Estyn

7.183 Byddai'r cynigion a'r costau cysylltiedig a fyddai'n effeithio ar Estyn yn wahanol iawn o dan opsiwn 3 o'i gymharu ag opsiwn 2 (gweler paragraffau 7.106 – 7.109). Un gwahaniaeth allweddol rhwng y ddau opsiwn yw y byddai'n ofynnol, o dan opsiwn 3, i roi colegau arbenigol annibynnol ar restr. Trafodir hyn ymhellach isod. Byddai Estyn yn rhan o'r broses o asesu ceisiadau gan golegau arbenigol annibynnol yng Nghymru sydd am gael eu rhoi ar y rhestr honno. Yn ogystal, dim ond ar sail risg y byddai disgwyl i Estyn fonitro ysgolion annibynnol, o'i gymharu â'r drefn o fonitro pob ysgol annibynnol a gynigir o dan opsiwn 2.

7.184 O dan opsiwn 3, byddai angen i ysgolion annibynnol ddiweddarau eu manylion cofrestru i gynnwys unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a phenodol y gallant ei chynnig. Yn wahanol i opsiwn 2, fodd bynnag, ni fyddai ond angen i tua 44 o ysgolion annibynnol ddiwygio eu manylion cofrestru, sef yr ysgolion sydd eisoes yn derbyn disgyblion sydd â datganiadau AAA. Byddai angen, felly, i Estyn fod yn rhan o'r broses o asesu'r cais am newid perthnasol (fel y gwna ar hyn o bryd). Mae cost ymgymryd â chais ar gyfer newid perthnasol yn dibynnu ar nifer o ffactorau fel maint a natur yr ysgol annibynnol a'r dystiolaeth o waith arolygu sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae Estyn wedi nodi ei bod yn cymryd, ar gyfartaledd, 3.5 o ddiwrnodau arolygydd i ymdrin â chais unigol am newid. Ar sail cyfradd ddyddiol o £877.60, mae hyn yn cyfateb i gost gyfartalog o £135,150 i Estyn. Cost drosiannol untro fyddai hon a fyddai'n daladwy yn 2016-17.

7.185 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai bellach yn ofynnol i wasanaethau addysg awdurdodau lleol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i leoli dysgwr sydd â datganiad AAA mewn ysgol annibynnol. Nid oes patrwm penodol o ran nifer y ceisiadau am gydsyniad a ddaw i law bob blwyddyn. Ar gyfartaledd, caiff rhyw 13 o geisiadau eu cyflwyno bob blwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i arbediad cyfartalog o £11,400 y flwyddyn i Estyn.

- 7.186 Fel y nodir yn opsiwn 2, at ddibenion monitro, byddai Estyn yn gallu ymweld â phob ysgol annibynnol sy'n nodi yn ei manylion cofrestru ei bod yn darparu ar gyfer ADY. Ar hyn o bryd, caiff hyn ei nodi yn llythyr Cylch Gwaith Blynyddol Estyn. Fodd bynnag, yn y dyfodol, byddai disgwyl i drefniadau monitro Estyn fod yn seiliedig ar risg. Nid ydym, felly, yn rhagweld y bydd Estyn yn ymweld, at ddibenion monitro, â phob ysgol annibynnol sydd wedi'i chofrestru fel ysgol sy'n darparu ar gyfer ADY, dim ond y rheini y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymweld â nhw. Rhoddir canllawiau pellach i Estyn ar sut i weithredu ar sail risg. Fodd bynnag, ni ddylid monitro mwy o ysgolion annibynnol nag a gaiff eu monitro ar hyn o bryd gan Estyn, ac felly nid ydym yn rhagweld y byddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw gostau ychwanegol i Estyn.
- 7.187 O dan opsiwn 3, byddai'n ofynnol rhoi colegau arbenigol annibynnol ar restr er mwyn cael cyllid oddi wrth awdurdod lleol ar gyfer dysgwr y mae angen darpariaeth ôl-16 arbenigol arno. Byddai Estyn yn rhan o'r broses o ystyried cais gan goleg arbenigol annibynnol yng Nghymru i gael ei roi ar y rhestr. Disgwylir i Estyn fod yn rhan o'r broses yn achos 6 choleg arbenigol annibynnol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd yn cymryd 8.3 o ddiwrnodau arolygydd i ystyried cais gan goleg arbenigol annibynnol. Byddai hyn yn gost o ryw £43,705 i Estyn. Cost drosiannol untro fyddai hon.
- 7.188 Ar hyn o bryd mae Estyn yn ymweld â cholegau arbenigol annibynnol yng Nghymru i'w monitro, neu ar y cyd ag OfSTED lle mae gan goleg arbenigol annibynnol yn Lloegr fwy na 10 dysgwr o Gymru. Rydym yn disgwyl i'r trefniant hwn barhau i gael ei amlinellu yn llythyr Cylch Gwaith Blynyddol Estyn fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'r costau ar gyfer monitro colegau arbenigol annibynnol wedi'u hamlinellu o dan opsiwn 1. Nid ydym yn rhagweld y byddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw gostau ychwanegol i Estyn.

Colegau Arbenigol Annibynnol

- 7.189 O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol i golegau arbenigol annibynnol wneud cais i Lywodraeth Cymru eu gosod ar restr o ddarparwyr ôl-16 arbenigol er mwyn gallu derbyn dysgwyr y mae angen darpariaeth o'r fath arnynt. Yn ôl pob tebyg, byddai tua 22 o golegau arbenigol annibynnol (6 yng Nghymru ac 16 yn Lloegr) yn gorfod gwneud hyn. Amcangyfrifir y byddai'n cymryd 2 awr i goleg arbenigol annibynnol wneud cais i gael ei roi ar y rhestr, ac y byddai cyfanswm y gost, o gyfrif pob coleg o'r fath, yn llai na £500.

Ysgolion Annibynnol

- 7.190 Byddai'r cynigion a'r costau cysylltiedig a fyddai'n effeithio ar ysgolion annibynnol yn cyfateb i'r hyn a amlinellir o dan opsiwn 2 (paragraff 7.110).
- 7.191 Byddai'n ofynnol i ysgolion annibynnol wneud cais am newid perthnasol o dan a162 o Ddeddf Addysg 2002. Amcangyfrifir y byddai 44 o ysgolion annibynnol yng Nghymru yn gorfod gwneud hyn. Amcangyfrifir hefyd y byddai'n cymryd llai nag 1 awr i wneud cais i wneud newid perthnasol i fanylion cofrestru ysgol, ac y byddai cyfanswm y gost, o gyfrif pob ysgol o'r fath, yn llai na £500.

Y Manteision

Anghenion Dysgu Ychwanegol

7.192 Mae defnyddio ADY fel term sy'n cwmpasu pob dysgwr 0-25 oed yn adlewyrchu'r cam tuag at system decach i gefnogi dysgwyr ag ADY o'r blynyddoedd cynnar, drwy'r ysgol ac i addysg bellach. I'r dysgwr a'r rhiant, byddai hyn yn helpu i osgoi'r stigma sy'n gysylltiedig â'r term 'arbennig' ac yn symud y ffocws i'r gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen ar ddysgwr er mwyn cyflawni ei botensial. Mae'r diffiniad o ADY hefyd yn fwy penodol na'r diffiniad a gynigir o dan opsiwn 2. Mae iddo'r fantais o barhau i fod yn berthnasol i'r categori presennol o ddysgwyr AAA heb roi unrhyw faich gweinyddol diangen ar yr ysgolion a'r sefydliadau addysg bellach.

Cod statudol

- 7.193 Mae Cod Ymarfer AAA cyfredol Cymru yn god anstatudol ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw dyledus iddo. Mae hyn wedi arwain at anghysondebau eang o ran sut mae'r system AAA wedi'i chymhwyso yng Nghymru ac mae wedi arwain at loteri cod post yn y gefnogaeth a roddir i ddysgwyr ag AAA.
- 7.194 Byddai creu Cod statudol yn sicrhau bod gan y system newydd ar gyfer ADY ffiniau clir y mae modd eu gorfodi ar lefel gyfreithiol. Byddai'n rhaid i awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill hynny sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau weithredu o fewn Cod o'r fath. Byddai hyn yn fantais sylweddol i ddysgwyr ag ADY a'u rhieni gan y byddai'n sicrhau dull clir a chyson o weithredu mewn perthynas ag ADY ledled Cymru ac yn cael gwared â llawer o'r amrywiaeth ar draws awdurdodau lleol.

Rhoi'r plentyn yn y canol

- 7.195 Fel y mae Pennod 3 yn ei nodi, byddai'r opsiwn hwn yn ategu polisi cyfredol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r arfer o ganolbwyntio'n llawer mwy ar unigolion wrth nodi anghenion a sut i ymateb i'r anghenion hynny; a byddai'n helpu i sicrhau bod CDU yn cael eu datblygu'n unol â hynny. Byddai hyn yn helpu i nodi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar y dysgwr yn brydlon. Gall ymyriad amserol leihau'r angen am ymyriadau drutach yn ddiweddarach a gall helpu'r dysgwr i reoli ei anghenion er mwyn cyflawni ei botensial.
- 7.196 Mae canolbwyntio ar unigolion wrth gynllunio yn annog y dysgwr a'i deulu i gyfrannu'n fwy. O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol i wasanaethau addysg awdurdodau lleol wneud trefniadau i roi gwybodaeth a chynghor i ddysgwyr a'u teuluoedd am ADY. Byddai hyn yn helpu dysgwyr a'u teuluoedd i ddeall y broses yn well a theimlo'u bod wedi cael cyfrannu i'r penderfyniadau a wneir sy'n effeithio arnynt.
- 7.197 Byddai cryfhau'r broses ar gyfer osgoi a datrys anghytundeb a darparu gwasanaethau eirioli annibynnol yn helpu i leihau'r gwrthdaro, nifer yr anghytundebau a lefel y drwgdeimlad rhwng dwy garfan, sy'n gallu bod yn

rhwysr i ddatrys anghytundeb. Byddai hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr apelau sy'n cyrraedd y Tribiwnlys a byddai'n cael gwared â'r straen a'r ansicrwydd i'r dysgwr a'i deulu, yn ogystal â sicrhau arbedion i'r awdurdod lleol.

Bodloni anghenion dysgwyr drwy system unedig a hyblyg

- 7.198 Drwy ymestyn yr ystod oedran i gynnwys plant a phobl ifanc o'u genedigaeth hyd at 25 oed, wrth ystyried dysgwyr sydd ag ADY, byddai'n bosibl canolbwyntio'n fwy ar ymyrryd yn gynnar er mwyn darparu'r gefnogaeth briodol, gan gynnwys cefnogaeth i ddysgwyr wrth iddynt drosglwyddo o gyfnod allweddol i'r cyfnod nesaf. Hefyd, byddai CDU gan bob dysgwr sydd ag ADY, ynghyd â hawl statudol i'r ddarpariaeth a nodir yn y CDU. Byddai hynny'n caniatáu mwy o degwch o ran y cymorth a'r hawliau sydd ar gael i'r holl ddysgwyr yn y grŵp hwn.
- 7.199 Byddai'r CDU yn disodli'r cynlluniau statudol ac anstatudol presennol, sef y Datganiad AAA, y Cynllun Addysg Unigol a'r Cynllun Dysgu a Sgiliau; a byddai'n cynnwys dysgwyr ag ADY mewn ysgolion (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion, ac ysgolion arbennig) ac mewn sefydliadau addysg bellach. Byddai hyn yn sicrhau mwy o gysondeb a dilyniant, ac yn wahanol i'r system bresennol byddai'n sicrhau bod y ddarpariaeth a hawliau'r plentyn neu'r person ifanc yn cael eu diogelu waeth pa mor ddwys a chymhleth yw ei anghenion. O ganlyniad, byddai mwy o gydlyniant a dilyniant ar draws y ddau sector, a byddai'r broses drosglwyddo rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn fwy esmwyth, gan y byddai'r ddarpariaeth y byddai ei hangen i fodloni anghenion dysgwr yn cael ei nodi ar lefel ysgol. Byddai hynny'n ei gwneud yn bosibl asesu a chynllunio'r ddarpariaeth y bydd ar ddysgwr ei hangen mewn sefydliad addysg bellach cyn iddo ddechrau ar ei addysg ôl-16.
- 7.200 Byddai hynny yn sicrhau na fyddai'r manteision sydd wedi eu hennill gan y dysgwr yn ystod ei blentyndod yn cael eu tanseilio wrth iddo ddod yn oedolyn. Creu cyfleoedd yw natur y manteision hyn, ac felly nid oes modd eu costio, ond er hynny mae potensial iddynt ddod ag arbedion tymor hir i'r holl randdeiliaid sy'n gysylltiedig â darpariaeth ar gyfer ADY.
- 7.201 Byddai cyflwyno system unedig sy'n caniatáu dulliau gweithredu mwy hyblyg yn golygu y byddai'n bosibl newid ac addasu'r cymorth a ddarperir dros gyfnod o amser er mwyn bodloni anghenion newidiol y dysgwr mewn modd effeithiol. Byddai hynny'n gwella'r gefnogaeth a gynigir i ddysgwr, oherwydd mai dyna'r ddarpariaeth sy'n gweddu orau i'w anghenion. Nid yw'r system bresennol ar gyfer cynlluniau statudol yn caniatáu hyblygrwydd yn y ddarpariaeth a gynigir i'r dysgwr, a hynny am fod dysgwyr a rhieni'n poeni y gallai'r cynlluniau golli eu statws statudol. Mae'r broses weinyddu ar gyfer newid cynllun statudol hefyd yn gallu bod yn fiwrocrataidd iawn, gan fod gofyn ar hyn o bryd i nifer o weithwyr proffesiynol gyfrannu ati. Byddai sicrhau bod hyblygrwydd yn bosibl wrth ddarparu cefnogaeth yn creu mwy o botensial ar gyfer gwneud arbedion, wrth i'r gefnogaeth briodol gael ei thargedu'n fwy effeithlon i fodloni anghenion y dysgwr heb i'r dysgwr golli ei hawliau statudol.

- 7.202 Byddai'r CDU yn canolbwyntio'n sylweddol ar ddeilliannau, yn hytrach na bod y ddarpariaeth yn dod yn nod ynddi ei hun, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Byddai'r bwriad hwn yn cael ei gyflawni drwy fonitro'r effeithiau, lle y byddai darparwyr yn derbyn cefnogaeth i asesu effaith unrhyw ddarpariaeth ar gyrhaeddiad y dysgwr a'i ddeilliannau addysgol. Golyga hynny y byddai'n bosibl targedu darpariaeth yn well, gan y byddai'r ymyriadau hynny sydd wedi eu nodi fel y rhai mwyaf effeithiol yn cael eu defnyddio. Byddai hynny'n gwella'r gefnogaeth a gynigir i ddysgwr, oherwydd mai dyna'r ddarpariaeth sy'n gweddu orau i'w anghenion. Gallai hyn oll hefyd ddod ag arbedion i randdeiliaid allweddol, gan y byddent yn gallu dod ag ymyriadau aneffeithiol i ben, a chanolbwyntio ar yr ymyriadau sy'n gweithio.
- 7.203 Yn ogystal â hyn, o dan yr opsiwn hwn byddem yn defnyddio dulliau amlasiantaeth mwy hyblyg, a fyddai'n golygu na fyddai'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn cael eu gwahodd i gyfrannu ond mewn achosion pan fyddai eu cyfraniad o fantais i'r dysgwr. Mae'r system bresennol yn golygu bod amrywiaeth o weithwyr proffesiynol o feysydd addysg, a'r gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn gorfod bod yn rhan o'r broses, hyd yn oed pan nad oes unrhyw fudd amlwg i'r dysgwr, neu nad oes ar y dysgwyr eu hangen. Byddai cynigion yr opsiwn hwn yn golygu mai dim ond mewn sefyllfaoedd pan fo'i angen, sef pan fo cysylltiadau amlwg â'r dysgwr neu pan fyddai eu cyfraniad o fudd, y byddai gofyn i weithiwr proffesiynol fod yn rhan o'r broses. Felly, mae potensial sylweddol i sicrhau arbedion ar draws y gwasanaethau addysg, cymdeithasol ac iechyd, gan na fyddai'n rhaid i weithwyr fod yn rhan o'r broses asesu. O ddefnyddio'r trefniadau hyblyg hyn, ni fyddai dysgwyr a'u teuluoedd yn gorfod dioddef oedi yn y broses o gynllunio neu adolygu'r gefnogaeth y mae ei hangen, dim ond oherwydd yr anawsterau o gael yr holl weithwyr proffesiynol gyda'i gilydd o gwmpas y bwrdd, fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd.
- 7.204 Mae'n bosibl paratoi, diwygio neu adolygu'r CDU ar yr un pryd â dogfen arall sy'n gysylltiedig â'r dysgwr, a hefyd gynnwys unrhyw ddogfen berthnasol arall o fewn y CDU. Gallai hynny wella deilliannau'r dysgwr, oherwydd byddai'n bosibl defnyddio dulliau gweithredu mwy holistaidd sy'n ystyried anghenion ehangach y dysgwr. Gallai hefyd leihau'r amser y byddai angen i'r dysgwr a'i rieni ei dreulio mewn cyfarfodydd. Byddai'n gyfle i wahanol asiantaethau fanteisio ar arbedion, gan y byddent yn cael cynnal asesiadau ac adolygiadau ar yr un pryd.
- 7.205 Byddai cryfhau'r cyfraniad a wneir gan y gwasanaethau iechyd i'r broses ADY, lle y bo'n briodol, yn dod â manteision sylweddol i'r dysgwr a'i deulu, gan y byddai'n sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol o ran iechyd. Mae rhoi cyfrifoldeb ar Fyrddau Iechyd Lleol i ddarparu unrhyw ddarpariaeth yn y CDU y maent wedi cytuno i'w darparu, yn gam sylweddol tuag at sicrhau bod mwy o eglurder a sicrwydd o ran pwy sy'n darparu beth o fewn CDU. Hefyd, byddai'n fantais penodi swyddog meddygol dynodedig o fewn y Byrddau Iechyd Lleol gan y byddai hynny'n creu un pwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol, a byddai'n sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth, sydd wedi ei chytuno gan fwrdd iechyd lleol, yn cael ei chydlynu mewn modd strategol ac effeithiol.

Byddai gan y swyddog meddygol dynodedig rôl ganolog i'w chwarae yn y gwaith o sicrhau bod mwy o gydweithio'n digwydd rhwng y Byrddau Iechyd Lleol a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau i ddysgwyr sydd ag ADY, a bod y cydweithio hwnnw'n effeithiol. Byddai hynny'n dod â manteision sylweddol i'r dysgwr drwy sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth iechyd, y mae'r bwrdd iechyd lleol wedi cytuno iddi, yn cael ei darparu.

Cydlynu ADY mewn modd effeithlon ac effeithiol

- 7.206 O dan opsiwn 3, byddai'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion meithrin ac unedau cyfeirio disgyblion, benodi cydlynnydd ADY. Byddai hynny'n disodli swyddogaeth anstatudol bresennol y Cydlynwyr AAA, sef swyddogaeth sy'n cael ei dehongli'n wahanol ar draws gwahanol leoliadau. Byddai cyfraniad y Cydlynnydd ADY yn hanfodol i'r ymdrechion i ddatblygu diwylliant o ddyheadau uchel a deilliannau gwell i ddysgwyr sydd ag ADY. Byddai'r Cydlynnydd ADY hefyd yn ganolog i'r gwaith o gydlynu a chynllunio ymyriadau sy'n gysylltiedig ag ADY ac o sicrhau bod y safonau sy'n ymwneud â chynllunio, pennu targedau, a chanolbwyntio ar ddeilliannau, yn cael eu gweithredu mewn modd cyson a'u bod ar waith ar bob lefel o fewn y lleoliad.
- 7.207 Byddai canolbwyntio ar gymhwyster penodol ar gyfer Cydlynwyr ADY newydd a datblygiad proffesiynol (fel rhan o'r Fargen Newydd) i'r rheini sydd â'r profiad angenrheidiol, yn fuddiol o ran helpu i ddatblygu capasiti a sgiliau Cydlynwyr ADY ledled Cymru, yn y sector ysgolion ac yn y sector addysg bellach. Hefyd, byddai'n werth gwneud rôl y Cydlynnydd ADY yn un statudol gan y byddai'n sicrhau bod y rôl wedi ei diffinio'n glir yn y Cod, a bod dulliau gweithredu'r rôl gydlynu yn gyson ledled Cymru.

System symlach sy'n llai tebygol o achosi gwrthdaro

- 7.208 Byddai'r ddarpariaeth y cytunwyd bod ar y dysgwr ei hangen, ac sydd wedi ei nodi yn y CDU, yn dod yn hawl statudol. Dylai hyn gael gwared ar yr annhegwch tybiedig presennol i ddysgwyr a rhieni nad oes ganddynt gynllun statudol, hy y rheini sy'n destun Gweithredu gan yr Ysgol / Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Os bydd ar blentyn neu berson ifanc ADY, byddai ei anghenion yn cael eu bodloni waeth pa mor gymhleth yw'r anghenion hynny, a byddai ganddo hawl i ddisgwyl i'w ddarpariaeth gael ei diogelu'n statudol.
- 7.209 Weithiau, mae'r system bresennol, sef bod cynlluniau'n gallu bod yn statudol neu'n anstatudol, yn gallu peri anghytuno gan fod dysgwyr a rhieni'n aml yn credu eu bod yn gorfod ymladd i gael y ddarpariaeth y mae ei hangen i fodloni anghenion y dysgwr. Byddai gwneud y CDU yn statudol yn cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng y rheini sy'n cael ddarpariaeth statudol a'r rheini sy'n cael ddarpariaeth anstatudol. O gael gwared ar y gwahaniaeth hwn, dylai fod lleihad yn nifer yr achosion o anghydfod ac anghytuno sy'n codi gydag awdurdodau lleol.

- 7.210 Fel y disgrifiwyd uchod, byddai defnyddio system lle mae'r unigolyn yn fwy canolog, yn golygu bod dysgwyr a'u teuluoedd yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn berchen ar y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â nhw. Hefyd dylai'r ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei rhoi i ddysgwyr, yn ogystal â sut yr ymdrinnir ag anghydfodau ac anghytundebau, helpu i wella dealltwriaeth pobl o'r penderfyniadau a wneir, a helpu i sicrhau bod mwy o anghytundebau'n cael eu datrys ar lefel leol.
- 7.211 Mae'n hanfodol datblygu a gweithredu dulliau effeithiol o osgoi anghydfodau a'u datrys os ydym am sicrhau bod gan ddysgwyr a rhieni fwy o ymddiriedaeth yn y system, a lleihau eu teimlad bod angen iddynt arfer eu hawl i apelio. O dan opsiwn 3, byddai'r gofyniad ar awdurdodau lleol i osgoi neu ddatrys anghydfodau yn eu cymell i weithredu proses anghytuno/datrys fwy effeithlon. Byddai canolbwyntio ar osgoi a datrys anghydfodau yn y lle cyntaf yn lleihau'r posibilrwydd o orfod eu huwchgyfeirio. Hefyd, o dan yr opsiwn hwn, byddai'r Tribiwnlys yn gallu gohirio apêl am gyfnod er mwyn caniatáu i anghydfod gael ei ddatrys yn lleol, lle bo hynny'n briodol. Dylai hyn leihau nifer yr apelau sy'n dod gerbron y Tribiwnlys cyn bod y gweithdrefnau lleol wedi eu disbyddu.
- 7.212 Disgwylir y byddai system o roi mwy o bwyslais ar osgoi / datrys anghytundebau'n lleol yn dod ag arbedion i'r Tribiwnlys ac i'r awdurdodau lleol, a hynny oherwydd y potensial i leihau nifer yr apelau sy'n cael gwrandawriad. Byddai'n fanteisiol i ddysgwyr a'u rhieni oherwydd byddai'n sicrhau bod problemau'n cael sylw effeithiol, gan leihau unrhyw bryderon ac ansicrwydd.

Cysondeb o ran yr hawl i apelio

- 7.213 O dan opsiwn 3, byddai gan bob dysgwr yr un hawl i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu nodi a'i fod yn derbyn y ddarpariaeth y mae ei hangen arno i hwyluso ei ddysgu. Byddai hynny o fantais oherwydd byddai gan bob dysgwr sy'n meddu ar CDU yr un hawl i apelio, waeth pa mor gymhleth yw ei anghenion.
- 7.214 Ar hyn o bryd, dim ond dysgwyr sydd wedi eu cofrestru mewn ysgolion a gynhelir sydd â'r hawl i apelio. O dan opsiwn 3, byddai'r hawl i apelio yn cael ei ymestyn i gynnwys dysgwyr hyd at 25 oed, gan gynnwys y rhieni mewn darpariaeth ôl-16, ac felly byddai'r hawl i apelio sydd gan y dysgwyr a'u rhieni yn un gyfartal.
- 7.215 Yn ogystal â hyn, byddai newid yr enw Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru i'r Tribiwnlys Addysg yn adlewyrchiad mwy cywir o'i rôl mewn perthynas ag ADY, a hefyd ei rôl bresennol o ran gwneud penderfyniadau ynghylch gwahaniaethu ar sail anabled.

Cymeradwyaeth a chydsyniad unigol ar gyfer ysgolion annibynnol

- 7.216 Byddai gwella'r broses gofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol, ac atal awdurdodau lleol rhag lleoli dysgwr mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru ar gyfer bodloni mathau penodol o anghenion, yn sicrhau system

fwy effeithiol ar gyfer lleoli dysgwyr sydd ag ADY o fewn y sector annibynnol. Byddai'r cynigion hyn yn sicrhau lefel o sicrwydd ar gyfer yr awdurdod lleol a rhieni o ran gallu'r ysgol annibynnol i fodloni anghenion y dysgwr, yn unol â'r hyn a nodir yn ei CDU. Byddai'r awdurdod lleol yn chwarae rhan allweddol o safbwynt cynnal y CDU

- 7.217 Byddai'r cynigion a nodir o dan opsiwn 3 yn symleiddio'r system ar gyfer derbyn disgyblion sydd ag ADY i ysgol annibynnol, a byddai'n cael gwared ar y dryswch a'r dyblygu sy'n bodoli ar hyn o bryd o fewn y ddwy system ddeddfwriaethol. Hefyd, byddai cyhoeddi cofrestr ar gyfer ysgolion annibynnol, ynghyd â newid y system gofrestru, yn sicrhau y byddai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r ysgol yn gallu ei chynnig yn cael ei nodi'n glir er mwyn i wasanaethau addysg awdurdodau lleol a rhieni dysgwyr sydd ag ADY ei gweld. Byddai gwybodaeth gliriach am yr hyn y gall ysgol ei gynnig, ynghyd ag atal gwasanaethau addysg awdurdodau lleol rhag defnyddio darpariaeth ysgol ar gyfer ADY os nad yw'n briodol, yn lleihau'r risg o leoli dysgwr sydd ag ADY mewn ysgol annibynnol anaddas.

Sefydliadau ôl-16 (gan gynnwys lleoliadau arbenigol annibynnol)

- 7.218 O ran y dysgwyr hynny sydd am fynd ymlaen i addysg ôl-16, byddai disgwyl i awdurdodau lleol ddefnyddio eu data am ddysgwyr mewn modd mwy effeithiol, er mwyn cynllunio'r cymorth y bydd ei angen, gan gynnwys nodi'r dysgwyr y bydd arnynt angen darpariaeth ôl-16 arbenigol. Fel y nodir uchod, y fantais o gael system unedig ar gyfer ADY, a CDU ar gyfer ysgolion a sefydliadau addysg bellach, fyddai gwneud y broses o drosglwyddo rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn fwy esmwyth i'r dysgwr.
- 7.219 O fewn y system bresennol, mae'r rôl y mae disgwyl i wasanaethau addysg awdurdodau lleol ei chwarae yn un ymylol. Hynny yw, mae disgwyl iddynt roi gwybodaeth ynghylch y dysgwr sy'n mynd drwy'r broses drosglwyddo i Gyrfa Cymru er mwyn gwneud penderfyniadau am leoliadau. Byddai ein cynigion ni yn golygu bod gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn cyflawni rôl a chyfrifoldeb arweiniol mewn perthynas â'r dysgwyr sy'n mynd ymlaen i addysg ôl-16. Byddai gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion a darparwyr ôl-16 i nodi'r ddarpariaeth y mae ei hangen i fodloni anghenion y dysgwr, ac i sicrhau ei bod ar gael. Byddai hynny'n golygu bod y ddarpariaeth angenrheidiol yn ei lle cyn i'r dysgwr ddechrau ar ei raglen astudio.
- 7.220 Hefyd, ni fyddai angen bellach i wasanaethau addysg awdurdodau lleol wneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer lleoliadau ôl-16 arbenigol, gan mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol ei hunan fyddai hynny. Byddai ymgymryd â rôl uniongyrchol yn rhoi'r cyfle i awdurdodau lleol negodi cost lleoliad gyda'r coleg arbenigol annibynnol. Drwy gael adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i gydweithio'n fwy effeithiol, byddai awdurdodau lleol mewn sefyllfa well i hybu'r ddarpariaeth o becynnau cymorth lleol a negodi cost lleoliad gyda choleg arbenigol annibynnol, gan greu mwy o botensial i sicrhau arbedion.

7.221 Hefyd ni fyddai'n ofynnol bellach i Lywodraeth Cymru gymeradwyo lleoliadau arbenigol unigol. Byddai hynny'n arbed £179,000 y flwyddyn i Lywodraeth Cymru o 2018-2019 ymlaen. Byddai angen i hyn gael ei ystyried wrth i gyllid gael ei drosglwyddo oddi wrth Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol.

Y Casgliadau

7.222 Mae opsiwn 3 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer ymdrin â'r problemau a nodir gyda'r systemau presennol ar gyfer AAA/anawsterau a/neu anableddau dysgu. Mae costau ychwanegol yr opsiwn hwn yn is na chostau ychwanegol opsiwn 2, ac mae iddo fwy o ffocws ar gyrhaeddiad addysgol y rheini sy'n cael eu cynnwys ar hyn o bryd o dan AAA ac anawsterau a/neu anableddau dysgu. Byddai'n system fwy cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr y mae arnynt angen y gefnogaeth fwyaf, gan ddarparu ar eu cyfer mewn modd mwy cymesur a theg nag opsiwn 1 a 2. Oherwydd y rhesymau hyn, dewiswyd opsiwn 3 fel yr opsiwn priodol i fwrw ymlaen ag ef.

Asesiadau o effeithiau penodol

7.223 Mae nifer o asesiadau o effeithiau penodol wedi eu cwblhau, ac mae crynodeb ohonynt isod. Lle mae asesiadau o effeithiau penodol wedi eu cyhoeddi, cyfeirir at hynny o dan y pennawd perthnasol.

Cydraddoldeb

7.224 Gwnaed dadansoddiad o'r effeithiau yn erbyn buddiannau chwe grŵp sydd â nodweddion gwarchodedig (sef yn ôl oedran, anabledd, rhywedd neu drawsrywedd, hil, crefydd neu gred/dim cred, a chyfeiriadedd rhywiol), a dau grŵp arall a gyflwynwyd gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (priodas/partneriaeth sifil a beichiogrwydd/mamolaeth). Nod ein cynigion yw gwella deilliannau addysgol plant a phobl ifanc sydd ag ADY, a chafodd nifer o effeithiau cadarnhaol perthnasol eu nodi.

- Byddai'n cael effaith gadarnhaol ar bobl o fewn ystod oedran penodol, gan y byddai o fudd i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed.
- Byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y rheini sy'n anabl, gan fod rhai anableddau'n dod o dan ADY (megis anabledd dysgu).
- Mae ein cynigion hefyd yn cefnogi Hawliau Dynol, yn enwedig Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (sy'n cael ei drafod yn fanylach isod).

7.225 Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu nodi. Mae'r asesiad llawn wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://llyw.cymru/consultations/education/draft-aln-and-education-tribunal-wales-bill/?lang=cy>

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

7.226 Nod ein cynigion yw gwella deilliannau addysgol plant a phobl ifanc sydd ag ADY, yn yr ystod oedran hon. Cafodd fersiwn i bobl ifanc o'r ymgynghoriad *Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol* ei llunio a'i dosbarthu, a chynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn casglu sampl o sylwadau a fyddai'n cynrychioli barn plant a phobl ifanc. Adlewyrchir yr adborth a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriadau hyn yn y cynigion.

7.227 Nodwyd bod y ddeddfwriaeth hon yn cefnogi'r erthyglau canlynol:

- Erthygl 1 - Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.
- Erthygl 2 - Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.
- Erthygl 3 - Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.
- Erthygl 4 - Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.
- Erthygl 12 - Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.
- Erthygl 13 - Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth onid yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw neu i eraill.
- Erthygl 23 - Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.
- Erthygl 28 - Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu hunan-barch dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim.
- Erthygl 29 - Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalent pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

7.228 Mae'r asesiad llawn wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://llyw.cymru/consultations/education/draft-aln-and-education-tribunal-wales-bill/?lang=cy>

Effaith ar iechyd

7.229 Mae ein cynigion yn cefnogi'r angen i nodi ac i ymyrryd mewn modd amserol er mwyn bodloni ADY unrhyw blentyn neu berson ifanc o fewn sefydliad addysgol. Lle byddai mantais i'r plentyn neu'r person ifanc, byddai hynny'n cynnwys cael mewnbwn a chyngor amserol gan weithwyr proffesiynol ym maes ieched. Mae gweithredu ymyriadau mewn modd amserol yn gallu lleihau'r angen am ymyriadau drutach yn nes ymlaen, a hefyd yn gallu helpu'r plentyn/person ifanc i wireddu ei botensial, sy'n rhywbeth a allai fod o fantais i'w ieched. Wedi pwysu a mesur y dystiolaeth, gwelir bod cefnogaeth gref i'r egwyddor bod ymyriadau cynnar effeithiol yn fwy cost-effeithiol nag ymyriadau sy'n digwydd rai blynnyddoedd yn hwyrach, gan atal amrywiaeth eang o broblemau cymdeithasol, gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol gwael,

problemau sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd, ac wedyn tlodi ac anghydraddoldeb.

- 7.230 Byddai'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol dalu am y ddarpariaeth y maent wedi cytuno i'w darparu, o gyllidebau sy'n bodoli eisoes. Mae gan y GIG fframweithiau sydd wedi eu sefydlu eisoes i helpu i flaenoriaethu darpariaeth yn seiliedig ar angen, a byddem yn disgwyl i'r byrddau iechyd lleol ddefnyddio'r fframweithiau hyn. Ni fyddai cynllun statudol yn amharu ar y fframweithiau sydd eisoes ar waith. Mae defnyddio'r fframweithiau hyn yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw newid i gostau darpariaeth y bwrdd iechyd lleol.

Preifatrwydd

- 7.231 Rhoddwyd ystyriaeth i faterion sy'n ymwneud â chasglu a throsglwyddo data personol, yn enwedig wrth i CDU gael ei drosglwyddo rhwng gwahanol gyrff. Mae'n ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn dilyn y ddeddfwriaeth berthnasol, yn enwedig y Ddeddf Diogelu Data, wrth iddynt storio neu drosglwyddo data. Byddai angen i unrhyw broses o gasglu, storio neu drosglwyddo data personol sy'n rhan o CDU gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol. Cyfrifoldeb y corff cyhoeddus perthnasol fyddai sicrhau bod trosglwyddo data yn digwydd mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a bod data personol yn cael eu cadw'n ddiogel. Wrth weithredu ein cynigion, byddem yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau cydymffurfedd mewn perthynas â thrin data, er y dylai cyrff cyhoeddus fodloni eu hunain eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Effaith ar Gyfiawnder

- 7.232 Nid yw ein cynigion yn creu sancsiynau sifil/gorchmynion/troseddau newydd nac yn diwygio sancsiynau sifil/gorchmynion/troseddau. Yn hytrach mae ein cynigion yn effeithio ar Dribiwnlysoedd Datganoledig – yn enwedig y Tribiwnlys Addysg.
- 7.233 Byddem yn disodli'r hawliau i apelio sydd ar gael ar hyn o bryd o dan y fframwaith AAA presennol, gan roi hawliau newydd i apelio yn eu lle. Bydd nifer y plant a'r bobl ifanc sydd â'r hawl i apelio yn cael ei ehangu oherwydd bydd y system ADY newydd yn cynnwys y rheini sydd â chynlluniau AAA anstatudol ar hyn o bryd, a bydd dysgwyr dros 16 oed mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn cael apelio i'r Tribiwnlys os ydynt yn teimlo nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni.
- 7.234 Fel y trafodwyd o dan opsiwn 3, mae'r Bil drafft yn cynnwys nifer o ddarpariaethau ar gyfer sicrhau bod y system yn llai tebygol o achosi gwrthdaro, ac i'w gwneud yn haws datrys anghydfodau ar lefel leol, cyn iddynt fynd yn destun apêl a gyflwynir gerbron y Tribiwnlys. Byddai hyfforddiant perthnasol yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Tribiwnlys yn monitro'n fanwl er mwyn sicrhau bod yna ddigon o adnoddau i gyflawni swyddogaethau statudol y Tribiwnlys.

- 7.235 Mae'r Bil drafft yn darparu y ceir, mewn perthynas ag unrhyw achos sy'n dod gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru, apelio i'r Uwch Dribiwnlys, a hynny ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n codi o benderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys. Ni cheir cyflwyno apêl ond mewn achosion lle bydd y Tribiwnlys neu'r Uwch Dribiwnlys wedi rhoi ei ganiatâd.
- 7.236 Nid ydym yn credu bod rheswm i feddwl y bydd cynnydd yn y baich sydd ar yr Uwch Dribiwnlys.
- 7.237 Er ei bod yn bosibl y bydd lleihad yn nifer yr achosion sy'n dod gerbron yr Uwch Dribiwnlys, nid yw ein Bil drafft yn diwygio'r hawliau sy'n ymwneud â mynd ag achos gerbron yr Uwch Dribiwnlys.
- 7.238 Mae'r Bil drafft yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i greu ac i gynnal rhestr o golegau arbenigol annibynnol. Byddai'n rhaid i sefydliad fod wedi ei gofrestru ar y rhestr cyn y byddai awdurdodau lleol yn cael talu i ddysgwr gael mynychu coleg arbenigol annibynnol. Ni fyddai unrhyw orfodaeth ar golegau arbenigol annibynnol i gofrestru ar y rhestr, ond byddai penderfyniadau ynghylch pwy sy'n cael ei gofrestru o gryn bwys i'r colegau hyn.
- 7.239 Er mwyn sicrhau bod y system yn deg, a chydymffurfio ag Erthygl 6 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop, bydd colegau arbenigol annibynnol yn cael apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru, a hynny i dribiwnlys annibynnol a diduedd.
- 7.240 Byddai apêl o'r fath yn cael ei chyflwyno gerbron Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, yn enwedig yr Uwch Dribiwnlys. Ni ddisgwylir i'r cynigion gael fawr ddim effaith ar Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.
- 7.241 Mae profiad o'r system a ddefnyddir i gofrestru ysgolion annibynnol yng Nghymru yn dangos na chyflwynwyd unrhyw apelau ers iddi gael ei sefydlu yn 2002. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd:
- gweithio'n agos gydag Estyn;
 - y cymhelliant sy'n codi o'r cysylltiad rhwng cofrestru a gallu'r darparwr i weithredu;
 - y cyfle i ddarparwyr gyflwyno cynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddent yn rhoi sylw i unrhyw safonau nad ydynt wedi eu bodloni'r tro cyntaf, ac erbyn pryd y byddent yn gwneud hynny.
- 7.242 Byddwn yn ceisio sicrhau bod y sefyllfa'n debyg yn y dyfodol, er mwyn gwneud yn siŵr bod cyn lleied â phosibl o apelau'n cael eu cyflwyno gan golegau arbenigol annibynnol.

Y Trydydd Sector, Cymunedau yn Gyntaf a Threchu Tlodi

- 7.243 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a'r ymgyrch i drechu tlodi. Mae'r cynigion ar gyfer ADY yn ategu'r Grant Amddifadedd Disgyblion, sydd wedi ei ddirprwyo'n llawn i ysgolion er

mwyn iddynt allu buddsoddi mewn dulliau gweithredu effeithiol o fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol. Mae ein cynigion hefyd yn ategu'r cyllid a roddir i ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

- 7.244 Mae gan Lywodraeth Cymru chwe blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Mae ein cynigion yn cryfhau'r canlynol:
- 7.245 **Y Blynyddoedd Cynnar** – mae ein cynigion yn cynnwys plant a phobl ifanc 0-25 oed. Maent yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd ADY yn cael eu nodi'n gynnar, er mwyn darparu'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth angenrheidiol yn seiliedig ar anghenion y plentyn. Mae hyn yn cynnwys plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Mae'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cael eu sgrinio'n fwy trwyadl gan ymwelwyr ieuchyd, sy'n gallu nodi presenoldeb ADY.
- 7.246 **Gwella cyrhaeddiad addysgol disgyblion o gartrefi incwm isel (a lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ar hyn o bryd)** – mae ein cynigion yn ei gwneud hi'n haws nodi anghenion mewn modd amserol a darparu'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth angenrheidiol yn seiliedig ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Mae cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru 'Ailysgrifennu'r dyfodol' yn dweud bod dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru ddwywaith yn fwy tebygol o fod ag AAA. Mae erthygl yn y Times Educational Supplement wedi awgrymu bod y rheini o ardaloedd llai cyfoethog yn fwy tebygol o gael eu nodi fel dysgwyr sydd ag AAA.¹²
- 7.247 Byddai gwella'r system yn cael effaith gadarnhaol anghymesur ar y rheini sy'n dod o gartrefi incwm isel.
- 7.248 **Lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET** - ar hyn o bryd, mae'r rheini sydd ag AAA yn fwy tebygol o fod yn NEET. Yn 2010, nododd y Comisiwn Archwilio fod *Over 40 per cent of young people with SEN were NEET at least once, and a quarter were NEET for six months or more.*¹³
- 7.249 Byddai nodi anghenion yn amserol, a darparu'r gefnogaeth briodol ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn seiliedig ar ei anghenion, yn ei helpu i wireddu ei botensial addysgol. Byddai hyn yn helpu pobl ifanc sydd ag ADY i symud yn esmwyth o fod yn berson ifanc i fod yn oedolyn, gan leihau'r tebygolrwydd y byddant yn oedolion NEET.
- 7.250 Mae'r rheini sy'n dod o ardaloedd Dechrau'n Deg yn cael eu sgrinio'n fwy trylwyr gan ymwelwyr ieuchyd. Mae Dechrau'n Deg yn targedu'r rheini sy'n dod o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r asesiadau trylwyr hyn, a wneir gan ymwelwyr ieuchyd, yn gallu nodi ADY yn gynharach ym mywyd y plentyn. Mae hynny'n golygu eu bod yn gallu gweithio gyda'r awdurdod lleol i

¹² <https://www.tes.co.uk/article.aspx?storycode=6219928>

¹³ Against the odds: Targeted briefing – young people with special educational needs. Y Comisiwn Archwilio, Awst 2010

sicrhau bod y ddarpariaeth briodol yn cael ei rhoi yn ei lle cyn gynted â phosibl. Bydd yn sicrhau ei bod yn bosibl cynllunio ar gyfer anghenion y plentyn, a chynllunio ymlaen llaw er mwyn i'r person ifanc symud yn esmwyth i fod yn oedolyn. Fel y nodwyd uchod, mae'r rheini o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o fod ag AAA, ac felly byddai gwella cyrhaeddiad addysgol y rheini sydd ag ADY yn cael effaith gadarnhaol anghymesur ar y rheini o ardaloedd Dechrau'n Deg.

7.251 Gan mai yng nghlystyrau Cymunedau yn Gyntaf y mae'r bobl fwyaf difreintiedig yn byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, mae'r rheini sy'n byw mewn clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn debygol o elwa yn sgil ein cynigion i gefnogi'r agenda Trechu Tlodi, ac o bosibl o'r sgrinio mwy trylwyr sy'n digwydd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.

7.252 Yn ôl yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddeall, mae SNAP Cymru wedi ei gontractio i ddarparu'r cyngor a'r gefnogaeth, a hefyd y rolau sy'n cynnig eiriolaeth annibynnol, mewn 20 o'n 22 o awdurdodau lleol, a hynny o dan gontractau ar wahân. Mae'r ddau awdurdod lleol arall wedi contractio'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth i ddarparu eu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor, a SNAP i ddarparu gwasanaethau datrys anghytundebau.

7.253 Ni fyddai ein diwygiadau'n newid gallu awdurdodau lleol i gontractio eu gwasanaethau i eraill, boed hynny i SNAP neu i sefydliadau trydydd sector eraill, pe bai awdurdod lleol yn dymuno gwneud hynny.

Y Gymraeg

7.254 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Iaith Fyw: Iaith Byw' yn dweud: 'Mae'r strategaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg Llywodraeth Cymru fel elfen hanfodol wrth greu siaradwyr Gymraeg y dyfodol - ar y cyd ag annog y defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd.'

7.255 Mae'r cynlluniau ynghylch ADY yn cefnogi'r strategaeth hon; maent hefyd yn ategu gofynion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (sy'n ofynnol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) sy'n gallu cefnogi awdurdodau lleol i wella sut mae cymorth dysgu ychwanegol i ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Gymraeg yn cael ei gynllunio a'i ddarparu.

7.256 Mae ein cynigion yn cefnogi'r camau i sicrhau darpariaeth Gymraeg. Bydd y Cod yn rhoi gwybodaeth bellach ynghylch darpariaeth Gymraeg.

7.257 Mae'r asesiad llawn wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru:
<http://llyw.cymru/consultations/education/draft-aln-and-education-tribunal-wales-bill/?lang=cy>

Asesiadau o effeithiau eraill

7.258 Wedi ystyried, daethpwyd i'r casgliad nad yw ein polisi yn effeithio ar fioamrywiaeth, prawfesur polisïau gwledig, yr amgylchedd, rheoliadau

cynefinoedd, newid hinsawdd na chymorth gwladwriaethol. Felly, ni chwblhawyd asesiadau effaith llawn ar gyfer y pynciau hyn.

8. Asesiad o'r gystadleuaeth

- 8.1 Ni fyddai'r darpariaethau yn y Bil drafft yn effeithio ar fusnesau, nac ar elusennau a/neu'r sector gwirfoddol, mewn ffyrdd a fyddai'n codi problemau sy'n ymwneud â chystadleuaeth. Nid yw'r hidl cystadleuaeth wedi ei defnyddio.
- 8.2 Ni ddisgwylir y bydd y ddeddfwriaeth yn cael unrhyw effaith ar gystadleuaeth nac yn rhoi unrhyw gyfyngiadau ar y cyflenwyr presennol nac ar gyflenwyr newydd. Disgwylir mai cyrff cyhoeddus fydd yn gyfrifol am dalu'r rhan fwyaf o'r costau sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth, fel sy'n digwydd eisoes.
- 8.3 Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith negyddol ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

- 9.1 Mae'r Bil drafft yn ymwneud yn bennaf â gwella deilliannau plant a phobl ifanc sydd ag ADY. Bydd yn cael ei weithredu fesul cam, a bydd rhanddeiliaid yn rhan o'r broses er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o amharu ar yr hyn a ddarperir.
- 9.2 Bydd y fframwaith statudol newydd yn cael ei weithredu fesul cam er mwyn sicrhau bod sefydliadau ac ymarferwyr yn deall y system newydd, a'u bod yn gallu rheoli'n effeithiol a throsglwyddo dysgwyr o'r system bresennol i'r system newydd.
- 9.3 Gan weithio gyda phartneriaid darparu allweddol, bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i gefnogi partneriaid drwy'r cyfnod gweithredu. Disgwylir i'r broses weithredu gael ei chyflawni fesul cam dros gyfnod o dair blynedd, gan ganolbwyntio ar bwyntiau mynediad allweddol i ddysgwyr o fewn y system addysg.

Adolygu'r broses weithredu

Adolygu a monitro parhaus

- 9.4 Mae Is-adran Cymorth i Ddysgwyr yr Adran Addysg a Sgiliau yn cynllunio ar gyfer gweithredu'r Bil drafft gan ddefnyddio technegau a dogfennaeth rheoli safonol. Bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu paratoi bob mis fel rhan o fusnes arferol.
- 9.5 Bydd y rheini'n cael eu goruchwyllo yn unol â'r trefniadau sy'n bodoli eisoes. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg awdurdodau lleol (a'r Is-grŵp Cynhwysiant); cynrychiolwyr Byrddau Iechyd Lleol; Estyn; Cymdeithasau Rhanbarthol Penaethiaid Lleoliadau Arbenigol; Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector; Colegau Cymru; Cymdeithas Genedlaethol y Colegau Arbenigol; Y Cyngor Ysgolion Annibynnol; Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru; Gyrfa Cymru; ac eraill.
- 9.6 Mae'n arferol cyfathrebu ac ymgysylltu'n aml mewn modd ad hoc â rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd, a bydd hynny'n creu cyfle pellach i drafod.
- 9.7 Bydd Llywodraeth Cymru, y Tribiwnlys a'r awdurdodau lleol yn monitro'n benodol nifer yr apelau a gyflwynir gerbron y Tribiwnlys (a'r Uwch Dribiwnlys) er mwyn sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau i allu cyflawni ei swyddogaethau statudol. Mae'r Tribiwnlys eisoes wedi bod yn casglu'r wybodaeth hon ar gyfer ei adroddiad blynyddol, er y bydd angen ymgysylltu'n amlach er mwyn monitro niferoedd. Bydd hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn gallu asesu capasiti'r tîm gweinyddu sy'n cefnogi'r Tribiwnlys, er mwyn sicrhau bod ganddo'r adnoddau priodol.

Pwyntiau adolygu ffurfiol

- 9.8 Mae Estyn, fel rhan o'i rôl statudol, yn arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru o ran eu hansawdd a'u safonau. Drwy'r broses arolygu ffurfiol hon, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro pa mor effeithiol yw darparwyr addysg wrth weithredu'r system newydd ar gyfer ADY.
- 9.9 Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag Estyn yn rheolaidd. Mae'n arferol cyfathrebu ac ymgysylltu'n aml ag Estyn, ac mae hynny'n gyfle i gael rhagor o ddeialog. Mae hefyd yn gyfle i adolygu ac i fonitro effaith y ddeddfwriaeth yn barhaus, ac i roi sylw i unrhyw faterion sy'n codi.
- 9.10 Mae Estyn yn rhoi cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru drwy ei hadroddiadau thematig a gomisiynir gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Ar ôl y cyfnod trosglwyddo, bydd Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag Estyn, yn ystyried y ffordd orau o fynd ati i gynnal adolygiad thematig i gael gweld i ba raddau y mae darparwyr addysg wedi llwyddo i weithredu'r fframwaith statudol newydd. Drwy ganiatáu cyfnod o dair blynedd, byddwn yn rhoi cyfle i'r fframwaith statudol newydd ymsefydlogi, ac i unrhyw werthusiad ar ôl hynny fod yn gynhwysfawr.
- 9.11 Ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid, os gwelir bod yna faterion eraill y mae angen ymchwilio iddynt, mae'n bosibl y bydd gofyn cael data neu gynnal astudiaethau ychwanegol o ran agweddau ar y gwaith o ddatblygu polisi o dan y fframwaith statudol newydd.

Adolygu deilliannau

- 9.12 Defnyddir methodoleg a mewnbwn sy'n gyffredinol debyg i'r rheini a ddefnyddir gan yr adolygiad gweithredu i adolygu'r deilliannau sy'n cael eu hyrwyddo gan y fframwaith statudol newydd; heblaw bod ffocws yma ar lefelau cyrhaeddiad dysgwyr sydd ag ADY. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r ystadegau ar gyfer cyrhaeddiad blynyddol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwireddu eu potensial.
- 9.13 Fel y soniwyd uchod, byddwn hefyd yn ymgysylltu â'r Tribiwnlys i fonitro cyfraddau apelio a'r rhesymau dros apelio. Mae'r Tribiwnlys eisoes yn casglu'r wybodaeth hon wrth baratoi ei adroddiad blynyddol. Byddwn yn ystyried y casgliadau bob blwyddyn.

Atodiad A

BIL DRAFFT ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL DRAFFT

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol drafft hyn yn ymwneud â Bil drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ar 6 Gorffennaf 2015.
2. Fe'u lluniwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil drafft ac i helpu'r drafodaeth arno. Nid ydynt yn rhan o'r Bil drafft.
3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol drafft ar y cyd â'r Bil drafft. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil drafft. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Bil drafft, nis rhoddir. Pan fo'r Nodiadau drafft yn mynd y tu hwnt i roi esboniad syml am effaith yr adran honno, drwy roi sail resymegol y polisi sy'n gefndir i'r ddarpariaeth ac amlinellu sut y gallai Llywodraeth Cymru geisio diwygio'r ddarpariaeth cyn cyflwyno Bil i'r Cynulliad, nodir hynny'n glir yn y testun.
4. Mae'r pwerau i wneud y Bil drafft wedi eu cynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Nodir y darpariaethau perthnasol yn adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 7 iddi. Mae gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i wneud y darpariaethau yn y Bil drafft hwn. O dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae paragraff 5 yn nodi'r pynciau y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch o dan y pennawd "addysg a hyfforddiant"; mae paragraff 9 yn nodi'r pynciau y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch o dan y pennawd "iechyd a gwasanaethau iechyd"; ac mae paragraff 15 yn nodi'r pynciau y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch o dan y pennawd "lles cymdeithasol".
5. Yn y Nodiadau Esboniadol hyn, ystyr 'Deddf 1996' yw Deddf Addysg 1996 ac ystyr 'Deddf 2000' yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Y cefndir

6. Rhwng 2003 a 2007, cynhaliwyd adolygiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) gan Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bryd hynny. Roedd tair rhan i'r adolygiad a chyhoeddwyd dogfennau cysylltiedig yn y drefn a ganlyn:

- a. *Adnabod Ac Ymyrryd Yn Gynnar*, Tachwedd 2004;
 - b. *Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau)*, Mai 2006;
 - c. *Trosglwyddo*, Mawrth 2007.
7. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn adroddiadau'r Pwyllgor wedi ei llywio gan adroddiadau cynharach gan y Comisiwn Archwilio (*Special educational needs: A mainstream issue*, 2002) ac Estyn (*Cymorth i Blant ag Anghenion Addysgol Arbennig: Trosolwg Estyn*, 2003). Gyda'i gilydd, daeth yr adroddiadau hyn i'r casgliadau a ganlyn, mewn perthynas â'r system AAA bresennol:
- a. bod y broses asesu sy'n gysylltiedig â datganiadau yn aneffeithlon, yn fiwrocrataidd, yn gostus, yn anodd ei ddefnyddio ac nad oes digon o ganolbwyntio ar y plentyn;
 - b. yn aml, bod anghenion yn cael eu hadnabod yn hwyr ac nad yw'r ymyriadau yn ddigon amserol nac yn ddigon effeithiol; ac
 - c. bod teuluoedd yn dweud eu bod yn aml yn gorfod brwydro i gael y gefnogaeth gywir i'w plentyn ac nad ydynt yn gwybod at bwy i droi i gael gwybodaeth a chynghor.
8. Ymatebodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bryd hynny i adroddiadau'r Pwyllgor drwy gynnal ymgynghoriad pellgyrhaeddol ar ffyrdd posibl o ddiwygio'r system bresennol o gefnogi AAA ac anawsterau a/neu anabledau dysgu (AAD) yn 2007 (*Datganiadau neu Rywbeth Gwell?*) ac eto yn 2012 (*Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol*). Yn ychwanegol, roedd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2011, yn cynnwys ymrwymiad i 'diwygio'r broses Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed mewn ysgolion neu mewn lleoliadau Addysg Bellach.'
9. Cyflwynwyd Bil Addysg (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2013. Ynddo, roedd darpariaethau yn ymwneud â chofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol ar gyfer lleoli dysgwyr ag AAA, asesu anghenion addysg a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr ôl-16 ag AAD, a lleoliadau Addysg Bellach arbenigol. Fodd bynnag, mewn ymateb i alwadau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i ystyried pob darpariaeth AAA mewn un darn o ddeddfwriaeth, tynnwyd y darpariaethau hyn o'r Bil yn ystod trafodion Cyfnod 2 ym mis Ionawr 2014. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yr adeg honno y byddai'r darpariaethau yn cael eu hymgorffori mewn Bil ar wahân a fyddai'n ymdrin â'r holl ystod o faterion sy'n ymwneud ag AAA.
10. Gan ddefnyddio canlyniadau'r ymgynghoriadau blaenorol a thrafodaethau â rhanddeiliaid, a chan ystyried y ddarpariaeth a dynnwyd o'r Bil Addysg cynharach, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, ar 22 Mai 2014, Bapur Gwyn sy'n dwyn y teitl *Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol* i ymgynghori arno.
11. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Hydref 2014. Yn gyffredinol, croesawyd cynigion Llywodraeth Cymru gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Datblygwyd y Bil drafft hwn o amgylch yr egwyddorion a'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwnnw.

CRYNODEB O'R BIL DRAFFT

12. Mae pum Rhan i'r Bil drafft sy'n cynnwys 70 o adrannau.
13. Bydd yn sefydlu fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY. Bydd hyn yn disodli'r deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag AAA ac asesu plant a phobl ifanc ag AAD mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 hyd at 25 oed.
14. Bydd yn cyflwyno cynllun statudol newydd i ddisodli'r holl gynlluniau addysg statudol ac anstatudol presennol ar gyfer plant â phobl ifanc ag AAA ac AAD yn benodol. Mae ystyr plentyn a pherson ifanc at ddibenion y Bil drafft hwn wedi eu nodi yn adran 68. Ystyr 'plentyn' yw person nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ac ystyr 'person ifanc' yw person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ond sy'n iau na 25 oed.
15. Bydd yn darparu hawliau apelio i blant, i rieni plant ac i bobl ifanc mewn cysylltiad â'r cynllun statudol newydd hwn. Bydd yr apelau hyn yn cael eu gwneud i Dribiwnlys Addysg Cymru, sef enw newydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).
16. Bydd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddfau eraill, gan gynnwys Deddf 1996, Deddf 2000, Mesur Addysg (Cymru) 2009 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

SYLWEBAETH AR ADRANNAU'R BIL DRAFFT

Rhan 1 – Trosolwg

Adran 1 - Trosolwg o'r Ddeddf hon

17. Mae'r adran hon yn disgrifio cynnwys y Bil drafft.

Rhan 2 – Anghenion Dysgu Ychwanegol

Termau allweddol

Adran 2 – Anghenion dysgu ychwanegol

18. Mae adran 2 yn diffinio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' ('ADY') at ddibenion y Bil drafft. Mae'r diffiniad hwn yn debyg iawn i'r diffiniad o 'anghenion addysgol arbennig' (AAA) o dan Ddeddf 1996 ond nid yw'n cyfyngu ar ei ddefnydd i'r rheini sydd o dan 18 oed fel yn achos y term AAA. Mae'r diffiniad o ADY wedi ei lunio fel y gall fod yn gymwys i berson o unrhyw oedran.
19. Nid ystyrir bod gan berson ADY oherwydd bod iaith y cartref yn wahanol i'r iaith y mae'n cael ei ddysgu ynddi.

Adran 3 - Darpariaeth ddysgu ychwanegol

20. Mae adran 3 yn diffinio ystyr 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' sydd ynddo'i hun yn rhan o'r diffiniad o ADY yn adran 2. Mae'r diffiniad hwn yn debyg iawn i'r diffiniad o 'darpariaeth addysgol arbennig' a geir yn Neddf 1996 ond mae'n ehangu'r diffiniad drwy gyfeirio at sefydliadau ôl-16 prif ffrwd yng Nghymru. Mae sefydliadau prif ffrwd ôl-16 yn cael eu diffinio yn adran 68.
21. Mae'r diffiniad o ADY sydd wedi ei gynnwys yn y Bil drafft wedi ei wneud drwy gyfeirio at oedran plentyn. Byddai rheoliadau o dan yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid y cyfeiriadau presennol at dair oed i gyfeiriadau at oedran gwahanol, mewn ymateb i newidiadau i bolisi'r blynyddoedd cynnar neu i arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Cod ymarfer

Adran 4 - Cod anghenion dysgu ychwanegol

22. Mae adran 4 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi a chyhoeddi cod ('y Cod') ar ADY. Bydd hyn yn darparu canllawiau y mae rhaid i randdeiliaid allweddol a restrir yn yr adran hon roi sylw iddynt wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil drafft hwn mewn perthynas ag ADY.
23. Yn ogystal, caiff y Cod hefyd osod gofynion ar:
 - a. awdurdodau lleol mewn perthynas â'u dyletswyddau o ran cyngor, gwybodaeth a gwasanaethau eirioli annibynnol; a
 - b. cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir neu sefydliadau yn y sector addysg bellach (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel sefydliadau addysg bellach) yng Nghymru (fel y'i diffinnir gan adran 68 o'r Bil drafft) mewn perthynas â llunio, cynnwys, ffurf, adolygu a diwygio cynlluniau datblygu unigol ('CDU /Cynlluniau Datblygu Unigol') a dod â chynlluniau o'r fath i ben.
24. Rhaid i Dribiwnlys Addysg Cymru ystyried y gofynion a nodir yn y Cod pan fônt yn berthnasol i unrhyw gwestiwn a gyfyd ar apel.

Adran 5 – Y weithdrefn ar gyfer gwneud y cod

25. Mae adran 5 yn sicrhau bod rhaid ymgynghori ar God ADY cyn iddo gael ei ddyroddi neu ei gyhoeddi neu cyn y gellir gwneud unrhyw newidiadau dilynol iddo. Mae'r adran hon yn cynnwys rhestr o gyrff cyhoeddus y mae rhaid ymgynghori â hwy, er y caiff Gweinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw un arall sy'n briodol yn eu barn hwy hefyd. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod y Cod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn sicrhau na fydd y Cod arfaethedig yn cael ei ddyroddi os nad yw'r Cynulliad yn penderfynu ei gymeradwyo o fewn y cyfnod o 40 niwrnod iddo gael ei osod. Er hynny, nid yw hyn yn atal Gweinidogion Cymru rhag gosod drafft newydd o God arfaethedig gerbron y Cynulliad.

Cyfranogiad a mynediad at wybodaeth

Adran 6 - Dyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc

26. Mae adran 6 yn ceisio sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi plant, eu rhieni a phobl ifanc wrth galon y penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt a gymerir o dan y Bil drafft, ac yn eu galluogi i gymryd rhan mewn ffordd hollol wybodus.
27. Mae'r diffiniad o 'plentyn' a 'person ifanc' at ddibenion y Bil drafft hwn wedi ei nodi yn adran 68.

Adran 7 - Cyngor a gwybodaeth

28. Mae adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod y rhai hynny sydd â buddiant yng ngweithrediad y system ADY newydd (gan gynnwys plant, rhieni plant a phobl ifanc) yn cael yr wybodaeth a'r cyngor am ADY a'r ddarpariaeth o dan y Ddeddf. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd roi gwybod i ysgolion ac eraill bod y gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ar gael. Fel a nodwyd, caiff y Cod ADY osod gofynion cyfreithiol eraill ar awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu gwybodaeth a chyngor o dan yr adran hon.

Llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol

Adran 8 - Cynlluniau datblygu unigol

29. Mae adran 8 yn esbonio beth yw CDU. Bydd y cynllun hwn yn sylfaen i'r system ar gyfer cynllunio a darparu darpariaeth ddysgu ychwanegol i blant a phobl ifanc ag ADY fel a nodir yn y Bil drafft.

Adran 9 - Cynlluniau datblygu unigol: ysgolion a gynhelir

30. Mae adran 9 yn nodi dyletswyddau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru mewn perthynas â chynlluniau datblygu unigol. Os ymddengys i gorff llywodraethu ysgol y gall fod ADY ar un o ddisgyblion yr ysgol, neu os dygir hyn i'w sylw, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc hwnnw ADY. Fodd bynnag, nid oes rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol wneud hynny os yw'r amgylchiadau a nodir yn adran 11 o'r Bil drafft yn gymwys.
31. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru lunio a chynnal CDU ar gyfer y disgyblion hynny y maent wedi penderfynu bod ADY arnynt, ac mewn achosion pan fônt wedi cael cyfarwyddyd i wneud hynny gan awdurdod lleol. Pan fo awdurdod lleol yn cynnal CDU, rhaid iddo sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU hwnnw. Rhaid darparu copi o'r CDU i'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc.

32. Pan fo'r corff llywodraethu yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, rhaid iddo hysbysu'r plentyn a'i rieni, neu'r person ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Adran 10 - Cynlluniau datblygu unigol: sefydliadau addysg bellach

33. Mae'r adran hon yn nodi dyletswyddau cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru mewn perthynas â chynlluniau datblygu unigol. Os ymddengys i sefydliad addysg bellach y gall fod ADY ar un o'i fyfyrwyr, neu os dygir hyn i'w sylw, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu benderfynu a oes gan y person ifanc hwnnw ADY. Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r corff llywodraethu wneud hyn os yw'r amgylchiadau a nodir yn adran 11 o'r Bil drafft yn gymwys.
34. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru lunio a chynnal CDU ar gyfer y myfyrwyr hynny y maent wedi nodi bod ADY arnynt ac i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn yr CDU hwnnw. Rhaid darparu copi o'r CDU i'r person ifanc. Pan fo corff llywodraethu yn penderfynu nad oes gan berson ifanc ADY, rhaid iddo hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Adran 11 - Amgylchiadau pan nad yw'r dyletswyddau yn adrannau 9 a 10 yn gymwys.

35. Mae adran 11 yn darparu'r amgylchiadau pan na fydd y gofynion yn adran 9 ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru, a'r gofynion yn adran 10 ar gyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn gymwys. Mae hyn yn cynnwys pan na fo person ifanc yn cydsynio i benderfyniad gael ei wneud; a phan fo'r corff llywodraethu wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ac nad oes newid sylweddol wedi bod yn anghenion y plentyn neu'r person ifanc neu wybodaeth newydd a fyddai'n effeithio ar y penderfyniad.
36. Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru atgyfeirio penderfyniadau ADY i'r awdurdod lleol perthnasol os ydynt yn penderfynu bod y mater y tu hwnt i'w gallu neu ei bod yn debygol y byddai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae ei hangen ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc y tu hwnt i'r hyn y gellid disgwyl yn rhesymol i'r corff llywodraethu allu ei ddarparu.

Adran 12 - Cynlluniau datblygu unigol: awdurdodau lleol

37. Mae adran 12 yn nodi'r amgylchiadau pan fydd yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY oni bai bod yr amgylchiadau a nodir yn adran 13 o'r Bil drafft yn gymwys. Gallai awdurdod lleol, er enghraifft, arfer y swyddogaethau a nodir yn yr adran hon pan fo penderfyniad ynghylch ADY plentyn neu berson ifanc wedi ei atgyfeirio gan ysgol neu sefydliad addysg bellach o dan adrannau 9 neu 10 o'r Bil drafft; bod

plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc wedi gwneud cais uniongyrchol i'r awdurdod lleol; neu fod Bwrdd Iechyd Lleol wedi gwneud atgyfeiriad o dan adran 48 o'r Bil drafft.

38. Pan fo'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes ADY ar y plentyn neu'r person ifanc, rhaid iddo hysbysu'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.
39. Pan nodir ADY, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol lunio a darparu CDU a sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU hwnnw neu, os yw'r plentyn neu'r person ifanc i fynd i ysgol a gynhelir, caiff yr awdurdod lleol lunio CDU a chyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i gynnal y cynllun; neu gyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i lunio a chynnal y cynllun. Mae'r dyletswyddau hyn yn gymwys mewn perthynas â phlant (hynny yw, y rheini o oedran ysgol gorfodol fel y'i diffinnir yn adran 68), â phobl ifanc sydd wedi ymrestru mewn sefydliad addysg bellach ac â phobl ifanc eraill pan fo'r awdurdod lleol yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol. Rhaid ystyried yr hyn sy'n 'angenrheidiol' yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn adran 67 o'r Bil drafft. Mae hyn fwyaf tebygol o ddigwydd mewn achos pan fo anghenion person ifanc yn rhai difrifol a/neu gymhleth ac os dim ond mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol a enwir ar y rhestr o sefydliadau o'r fath a sefydlwyd o dan adran 33 o'r Bil drafft y gellir diwallu'r anghenion hynny.
40. Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni na ellir diwallu anghenion rhesymol plentyn neu berson ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol oni bai ei fod hefyd yn sicrhau bwyd a llety a/neu ddarpariaeth ragnodedig arall, rhaid disgrifio'r ddarpariaeth honno yn y cynllun. Pan fo hyn yn gymwys, nid yw'r awdurdod lleol yn gallu cyfarwyddo corff llywodraethu ysgol a gynhelir i lunio a/neu gynnal y CDU.
41. Rhaid i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc. Pan fo'r awdurdod lleol yn cynnal CDU rhaid iddo sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ac unrhyw ddarpariaeth arall a ddisgrifir yn y cynllun.

Adran 13 - Amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd yn adran 12 yn gymwys

42. Mae adran 13 yn darparu'r amgylchiadau pan na fydd y gofyniad i awdurdod lleol benderfynu a oes gan unigolyn ADY yn adran 12 yn gymwys. Mae'r rhain yn cynnwys pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod penderfyniad yn cael ei wneud eisoes ar y mater gan gorff llywodraethu o dan adran 9 neu 10 o'r Bil drafft; pan na fo person ifanc yn cydsynio i benderfyniad gael ei wneud; neu pan fo'r awdurdod lleol wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ac nad oes newid sylweddol wedi bod yn yr amgylchiadau.

Adran 14 - Cynlluniau datblygu unigol: Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau GIG

43. Mae adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel “cyrff iechyd”) yng Nghymru gyflawni unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae wedi cytuno i’w sicrhau o dan yr adran hon. Ni fydd yn ofynnol i gyrff llywodraethu a/neu awdurdodau lleol sy’n cynnal cynlluniau datblygu unigol sicrhau’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae’r corff iechyd wedi cytuno i’w sicrhau. Y bwriad yw darparu mwy o sicrwydd i’r rheini sydd â buddiant yn y CDU, yn enwedig plant, rhieni’r plant a phobl ifanc, y bydd cynnwys y CDU yn cael ei gyflawni ac i’w gwneud yn eglur pa gorff sy’n gyfrifol am hyn.
44. Ni chaniateir dileu neu newid darpariaeth ddysgu ychwanegol y mae corff iechyd wedi cytuno i’w ddarparu o dan yr adran hon ond drwy adolygiad o’r cynllun yn unol ag adran 15 o’r Bil drafft ar gais, a chyda chytundeb, y corff iechyd. Os yw’r corff iechyd, ar adolygiad o’r CDU, yn gofyn i newid y disgrifiad o’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae wedi cytuno i’w sicrhau, rhaid i’r corff llywodraethu neu’r awdurdod lleol gydymffurfio â’r cais.
45. Pan fo Tribiwnlys Addysg Cymru yn gwneud gorchymyn i newid y ddarpariaeth sy’n cael ei sicrhau gan y corff iechyd, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol neu’r corff llywodraethu sy’n cynnal y cynllun fydd sicrhau’r ddarpariaeth ddiwygiedig, oni bai bod y corff iechyd yn cytuno i’w darparu.

Adran 15 – Adolygu cynlluniau datblygu unigol

46. Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i’r CDU gael ei adolygu bob 12 mis o leiaf. Rhaid iddo hefyd gael ei adolygu os yw plentyn neu riant plentyn, neu berson ifanc yn gofyn i’r cynllun gael ei adolygu (oni bai yr ystyrir nad oes angen gwneud hynny); ac os yw corff iechyd sy’n gwneud y ddarpariaeth yn unol ag adran 14 o’r Bil drafft yn gofyn am adolygiad. Os yw corff llywodraethu neu awdurdod lleol yn diwygio CDU, rhaid iddo roi copi o’r cynllun diwygiedig i’r plentyn a’i riant, neu i’r person ifanc. Mae’r adran hon hefyd yn caniatáu i’r cynllun gael ei adolygu ar unrhyw adeg yr ystyrir ei bod yn briodol. Bydd hyn yn galluogi i’r CDU gael ei adolygu’n syth pan fydd amgylchiadau’n newid neu yn unol â dyddiadau adolygu a osodir fel rhan o gynllun gweithredu’r CDU. Os caiff y CDU ei ddiwygio, rhaid rhoi copi o’r cynllun diwygiedig i’r plentyn a’i riant, neu’r person ifanc.

Adran 16 - Perthynas cynlluniau datblygu unigol â dogfennau tebyg eraill

47. Mae adran 16 yn galluogi i’r prosesau o lunio ac adolygu cynlluniau datblygu unigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc gael eu halinio â chynlluniau statudol eraill ar gyfer y plentyn neu’r person ifanc hwnnw, gan gynnwys cynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol. Bwriad hyn yw osgoi dyblygu a darparu dull mwy integredig a chyfannol o ddiwallu ADY plant a phobl ifanc.

Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau a chynlluniau cyrff llywodraethu

Adran17 - Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau o dan adran 9

48. Mae adran 17 yn galluogi plentyn neu ei riant, neu'r person ifanc, i ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried barn corff llywodraethu ysgol sef bod gan blentyn neu berson ifanc ADY neu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY. Pan ofynnir felly, rhaid i'r awdurdod lleol wneud ei benderfyniad ei hun ynghylch y mater; bydd y penderfyniad hwnnw wedyn yn disodli penderfyniad y corff llywodraethu a bydd penderfyniad blaenorol y corff llywodraethu yn peidio â chael effaith. Cyn iddo wneud ei benderfyniad, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff llywodraethu am y cais a gwahodd sylwadau oddi wrth y corff llywodraethu. Mae'r adran hon yn darparu dull effeithiol i blant a'u rhieni, a phobl ifanc o herio penderfyniad corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru, yn absenoldeb hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y cyrff hyn.

Adran 18 - Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o gynlluniau a gynhelir o dan adran 9

49. Mae adran 18 yn galluogi plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc i ofyn i awdurdod lleol ailystyried a phenderfynu pa un ai i ddiwygio CDU a lunnir ac a gynhelir gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru. Cyn penderfynu pa un ai i ddiwygio'r cynllun ai peidio, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff llywodraethu am y cais a gwahodd sylwadau oddi wrth y corff llywodraethu. Pan fo'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes angen diwygio'r CDU rhaid iddo hysbysu'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.
50. O dan yr adran hon caiff yr awdurdod lleol gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gynnal y CDU diwygiedig; fel arall caiff yr awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y CDU ei hun. Bydd y cyntaf yn digwydd pan fo'r awdurdod lleol yn ystyried bod cynnwys y CDU o'r fath fel y gellir disgwyl i'r corff llywodraethu gyflawni'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ynddo; byddai'r olaf yn berthnasol pan fo hyn yn mynd y tu hwnt i allu'r corff llywodraethu.
51. Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni mai dim ond drwy sicrhau darpariaeth o'r math a grybwyllir yn adran 12(6) (e.e. bwyd a llety; neu ddarpariaeth ragnodedig) y gellir diwallu anghenion plentyn neu berson ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, rhaid iddo gynnwys disgrifiad o'r ddarpariaeth arall honno yn y CDU. Os yw'r ddyletswydd hon yn gymwys, ni chaiff yr awdurdod lleol gyfarwyddo corff llywodraethu i gynnal y CDU o dan is-adran (5)(a).
52. Os yw corff llywodraethu neu awdurdod lleol yn diwygio CDU, rhaid i'r awdurdod lleol roi copi o'r cynllun diwygiedig i'r corff llywodraethu, yn ogystal â rhoi copi i'r plentyn a'i riant, neu i'r person ifanc. Mae'r adran hon yn darparu i blant, eu rhieni, a phobl ifanc ddull effeithiol o herio cynnwys y CDU a roddwyd yn ei le ar eu cyfer gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru, yn absenoldeb yr hawl i apelio yn erbyn y cyrff hyn.

Adran 19 - Awdurdod lleol i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynlluniau corff llywodraethu

53. Mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a ddylai gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU mewn ymateb i gais iddo wneud hynny. Gallai'r cais gael ei gyflwyno gan gorff llywodraethu ysgol neu sefydliad addysg Bellach - er enghraifft pan na fo'r corff llywodraethu bellach yn credu bod cynnal y cynllun a chyflawni'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae ei hangen ar y plentyn neu'r person ifanc o fewn ei allu - neu gan blentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc, pan nad yw'n credu bod gallu'r corff llywodraethu o ran darparu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae ei hangen ar y plentyn neu berson ifanc wedi ei brofi. Mae'n bosibl herio penderfyniad yr awdurdod lleol i beidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU drwy apel i'r Tribiwnlys Addysg o dan adran 40.
54. Pan fo corff llywodraethu yn gwneud y cais, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, a gwahodd sylwadau. Pan fo plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn gwneud y cais, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff llywodraethu a gwahodd sylwadau. Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff llywodraethu, a naill ai'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Peidio â chynnal cynlluniau

Adran 20 - Peidio â chynnal cynlluniau datblygu unigol

55. Mae adran 20 yn galluogi corff llywodraethu neu awdurdod lleol i beidio â chynnal CDU pan nad yw'n angenrheidiol ei gynnal bellach. Rhaid hysbysu'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, am y bwriad i wneud penderfyniad o'r fath cyn iddo gael ei wneud. Unwaith y gwneir penderfyniad, rhaid hysbysu'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc am y canlyniad ac, yn achos penderfyniad corff llywodraethu ysgol, am eu hawl i ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad i beidio â chynnal y cynllun o dan adran 21. Yn achos penderfyniad awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach i beidio â chynnal cynllun, gellir apelio yn erbyn y penderfyniad hwn o dan adran 40.

Adran 21 - Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau o dan adran 20

56. Mae adran 21 yn galluogi plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc i ofyn i awdurdod lleol ailystyried penderfyniad corff llywodraethu ysgol i beidio â chynnal CDU. Bydd y cyfnod ar gyfer gwneud y cais hwn wedi ei nodi mewn rheoliadau. Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylai'r CDU beidio â bod a hysbysu'r corff llywodraethu, y plentyn a'i riant, neu'r person ifanc am hynny. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylid cynnal y CDU, rhaid i'r corff llywodraethu barhau i wneud hynny. Pan fo'r awdurdod lleol yn cytuno y gall y cynllun beidio â chael ei gynnal, a gellir apelio yn erbyn y penderfyniad o dan adran 40.

Adran 22 - Cyfyngiad ar beidio â chynnal cynllun er mwyn caniatáu ailystyriaeth neu apel

57. Mae adran 22 yn darparu na chaiff corff llywodraethu ysgol a gynhelir beidio â chynnal CDU oni bai bod y cyfnod a ragnodir o dan adran 21 wedi dod i ben ac nad oes unrhyw gais am ailystyriaeth wedi ei wneud o dan adran 21. Yn yr un modd, ni chaiff corff llywodraethu beidio â chynnal CDU pan fo'r awdurdod lleol wedi penderfynu o dan adran 21 na ddylai'r cynllun gael ei gynnal hyd nes y daw'r cyfnod a ragnodir, o dan adran 41, i ddwyn apêl yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol wedi dod i ben, neu pan benderfynir yn llawn ar apêl cyn diwedd y cyfnod hwnnw. Ni chaiff corff llywodraethu sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol beidio â chynnal y CDU hyd nes y bydd y cyfnod a ragnodir o dan adran 41 i ddwyn apêl wedi dod i ben neu hyd nes y penderfynir ar apêl. Mae'r cyfyngiadau hyn yn eu lle er mwyn sicrhau bod CDU yn parhau i gael ei gynnal hyd nes bod y plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc (fel y bo'n briodol) wedi cael y cyfle i ddefnyddio eu holl hopsiynau ar gyfer apelio.

Adran 23 - Rheoliadau ynghylch trosglwyddo cynlluniau datblygu unigol

58. Mae adran 23 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch trosglwyddo CDU rhwng awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu. Caiff rheoliadau o dan yr adran hon, er enghraifft, osod dyletswydd ar awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i gynnal CDU a roddwyd yn ei le gan awdurdod arall ac i drin y pethau a wneir gan yr awdurdod trosglwyddo mewn perthynas â'r cynllun fel pe baent wedi eu gwneud gan yr awdurdod arall neu'r corff llywodraethu arall. Nod yr adran hon yw sicrhau bod y system ADY yn gallu darparu darpariaeth gyson a chydlynol wrth i blant a phobl ifanc symud o amgylch Cymru a thrwy'r camau addysg gwahanol.

Adran 24 - Cynllun datblygu unigol ar ôl pen-blwydd person ifanc yn 25 oed

59. Mae adran 24 yn sicrhau, os yw person ifanc yn cyrraedd 25 oed ychydig cyn diwedd ei gwrs astudio, y gall y corff sy'n gyfrifol am y CDU a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ynddo barhau i gynnal y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol hyd at ddiwedd cwrs astudio'r person hwnnw neu'r diwrnod cyn i'r person ifanc gyrraedd 26 oed (pa un bynnag sydd gynharaf).

Swyddogaethau sy'n ymwneud â sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol

Adran 25 - Dyletswyddau cyrff llywodraethu i helpu awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol

60. Mae adran 25 yn ei gwneud yn ofynnol, pan fydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc mewn ysgol a gynhelir neu mewn sefydliad addysg bellach, fod corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yn cymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU.

Adran 26 - Dyletswydd i dderbyn plant i sefydliadau a enwir

61. Mae adran 26 yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru i dderbyn plant pan fo'r ysgol honno wedi ei henwi mewn CDU at ddiben derbyn y plentyn gan awdurdod lleol. Mae hyn yn debyg i ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas ag enwi ysgol mewn datganiad AAA. Fodd bynnag, mae'r adran hon yn cyfyngu ar yr amgylchiadau hynny pan all ysgolion gael eu henwi i'r amgylchiadau hynny pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni ei bod, er lles y plentyn, yn ofynnol i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei gwneud yn yr ysgol honno, a bod yr addysg a hyfforddiant mwy cyffredinol a ddarperir yn yr ysgol yn briodol ar gyfer y plentyn. Cyn enwi ysgol o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol, ac yn achos ysgol a gynhelir pan nad yr awdurdod lleol na'i chorff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol (fel y'i diffinnir gan adran 88 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998), â'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r ysgol.

Adran 27 - Dim pŵer i godi tal am ddarpariaeth a sicrheir o dan y Ddeddf hon

62. Mae adran 27 yn sicrhau nad oes rhaid i blentyn, rhiant neu berson ifanc dalu am unrhyw ddarpariaeth y mae rhaid i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol ei sicrhau ar gyfer y plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw o dan y Bil drafft.

Adran 28 - Dyletswyddau cyffredinol i sicrhau addysg a hyfforddiant ôl-16 ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol

63. Mae adran 28 yn diwygio Deddf 2000 er mwyn adlewyrchu ystyr newydd y term ADY a ddiffinnir o dan adran 2 o'r Bil drafft. Mae hefyd yn diwygio'r un Ddeddf i ddileu dyletswyddau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â sicrhau llety byrddio i bersonau dros 16 oed pan fo ganddynt anhawster dysgu a/neu anabledd. Mae dyletswydd gan awdurdodau lleol, o dan adran 12 o'r Bil drafft i gynnwys darpariaeth bwyd a llety mewn CDU ac i sicrhau bod y ddarpariaeth honno ar gael i bersonau hyd at 25 oed. Mae adran 28 hefyd y dileu adran 140 o Ddeddf 2000 sy'n ymwneud ag asesiadau ar gyfer Cynlluniau Dysgu a Sgiliau, a fydd yn cael eu disodli gan gynlluniau datblygu unigol a sefydlir gan adran 8 o'r Bil drafft.

Darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn mathau penodol o ysgol neu sefydliad arall

Adran 29 - Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir

64. Mae adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i'r awdurdod lleol, yn achos plentyn sydd o oedran ysgol gorfodol ac sydd ag ADY a ddylai gael ei addysgu mewn ysgol, sicrhau bod y plentyn hwnnw yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd, gan gydnabod hefyd y gallai fod yn briodol ei addysgu mewn man arall ar adegau. Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer eithriadau i'r ddyletswydd gyffredinol.

Adran 30 - Darpariaeth ddysgu ychwanegol ac eithrio mewn ysgolion

65. Mae adran 30 yn caniatáu i awdurdod lleol sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir mewn CDU y mae'n ei gynnal ar gyfer plentyn yn cael ei gwneud mewn man arall pan fydd wedi ei fodloni y byddai'n amhriodol i'r ddarpariaeth honno gael ei gwneud mewn ysgol.

Adran 31 – Diwygio'r gofynion cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol yng Nghymru

66. Mae adran 31 yn diwygio Deddf Addysg 2002 fel bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o'r ysgolion sydd wedi eu cynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru. At hynny, pan fydd ysgolion annibynnol yn cofrestru â Gweinidogion Cymru caiff fod yn ofynnol iddynt bennu'r math(au) o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y maent yn ei gwneud ar gyfer disgyblion ag ADY. Rhaid i hyn hefyd gael ei bennu yn y gofrestr a gyhoeddir hefyd.

Adran 32 - Amodau sy'n gymwys i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn ysgolion annibynnol

67. Dan adran 32, ni chaiff awdurdodau lleol leoli plentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol yng Nghymru oni bai y gall yr ysgol wneud darpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cyfateb i ADY y plentyn neu'r person ifanc a ddisgrifir yn ei CDU.
68. Yn yr un modd, mae awdurdodau lleol wedi eu gwahardd rhag lleoli plant a phobl ifanc mewn sefydliadau addysgol annibynnol (fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008) yn Lloegr, nad ydynt wedi eu trefnu i wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cyfateb i ADY plentyn neu berson ifanc.
69. Mae'r darpariaethau hyn yn disodli'r darpariaethau cymeradwyo a chysyniad unigol presennol yn adran 347 o Ddeddf 1996, a ddilëir o dan adran 35 o'r Bil drafft hwn.

Adran 33 - Rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol

70. Mae adran 33 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal rhestr wedi ei chyhoeddi o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr. Caiff perchenogion sefydliadau o'r fath sydd wedi eu trefnu'n arbennig i ddarparu addysg a hyfforddiant i bersonau ag anghenion dysgu ychwanegol wneud cais i Weinidogion Cymru i gael eu cymeradwyo a'u cynnwys ar y rhestr. Ni chaiff awdurdodau lleol leoli plant a phobl ifanc mewn unrhyw sefydliad nad yw ar y rhestr. Caniateir i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer gofynion a gweithdrefnau gwneud cais, gan gynnwys yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod rhestru sefydliad.

Adran 34 - Diddymu cymeradwyaeth i ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru

71. Mae adran 34 yn diwygio Deddf 1996 i ddileu pŵer Gweinidogion Cymru i gymeradwyo creu ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru. Ar hyn o bryd nid oes ysgolion o'r fath ar gael yng Nghymru.

Adran 35 - Diddymu cymeradwyaeth i ysgolion annibynnol yng Nghymru

72. Mae adran 35 yn diddymu adran 347 o Ddeddf 1996 (cymeradwyo ysgolion annibynnol fel rhai sy'n addas i dderbyn plant â datganiadau anghenion addysgol arbennig). Gweler adran 31 sy'n darparu gofynion cofrestru ychwanegol gan fanylu ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gan ysgolion annibynnol.

Adran 36 - Darpariaeth ddysgu ychwanegol y tu allan i Gymru a Lloegr

73. Mae adran 36 yn atal awdurdod lleol rhag trefnu i blentyn neu berson ifanc ag ADY fynychu sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr, oni bai bod y sefydliad hwnnw wedi ei drefnu i wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cyfateb i ADY y plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw fel y'i disgrifir yn ei CDU.

Anghytundebau ac apelau

Adran 37 - Osgoi a datrys anghytundebau

74. Mae adran 37 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc, rhwng plant, eu rhieni a phobl ifanc ar y naill law, ac ysgolion a gynhelir, awdurdodau lleol a sefydliadau perthnasol eraill ar y llaw arall. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys darparu mynediad at help gan berson annibynnol i ddatrys anghytundeb. O dan yr adran hon, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod plant, eu rhieni a phobl ifanc, penaethiaid, cyrff llywodraethu a phersonau perthnasol eraill yn ymwybodol o'r trefniadau hyn, ac i hybu'r defnydd ohonynt. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu plant, eu rhieni a phobl ifanc nad yw'r trefniadau hyn yn effeithio ar eu hawliau i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.

Adran 38 - Gwasanaethau eirioli annibynnol

75. Mae adran 38 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol sy'n darparu cyngor a chymorth i blentyn, person ifanc neu gyfaill achos wrth wneud, neu wrth ystyried gwneud, apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru. Rhaid i'r gwasanaethau hyn hefyd gael eu darparu i blant, pobl ifanc neu gyfaill achos sy'n cymryd rhan, neu sy'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau ar gyfer datrys anghydfodau a wneir o dan adran 37 o'r Bil drafft.
76. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r egwyddor y dylai trefniadau'r gwasanaeth eirioli annibynnol fod yn annibynnol ar unrhyw berson sy'n destun apêl neu sy'n ymwneud â'r apêl.

77. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod plant, eu rhieni, pobl ifanc, penaethiaid, cyrff llywodraethu a phersonau perthnasol eraill yn ymwybodol o'r trefniadau hyn.

Adran 39 - Cyfeillion achos

78. Mae adran 39 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu i blentyn neu berson ifanc gael "cyfaill achos". Bydd hyn yn caniatáu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddarparu rhagor o fanylion o ran sut y gellid defnyddio cyfeillion achos i gefnogi hawliau plant a phersonau ifanc.
79. Byddai cyfaill achos yn gallu cyflwyno sylwadau ar ran plentyn neu berson ifanc, gyda golwg ar osgoi neu ddatrys anghytundebau â chyrff llywodraethu neu awdurdodau lleol ynghylch arfer eu swyddogaethau o dan y Bil drafft hwn. Byddai cyfaill achos hefyd yn gallu gwneud unrhyw beth y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn gallu ei wneud neu y mae'n ofynnol iddo ei wneud o dan y Bil drafft. Mae'r Bil drafft yn darparu i hawliau gael eu harfer yn deg ac yn gymwys ac er budd y plentyn neu'r person ifanc. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch cyfeillion achos.

Adran 40 – Apelau

80. Mae adran 40 yn darparu hawl i blant, eu rhieni a phobl ifanc apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru pan na ellir datrys anghytundebau ynghylch penderfyniadau sy'n ymwneud ag ADY a darpariaeth ddysgu ychwanegol yn lleol.
81. Mae'r adran hon yn nodi'r materion a'r amgylchiadau pan gaiff blentyn, ei riant neu berson ifanc apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru a hefyd yn rhagnodi pwerau'r Tribiwnlys mewn perthynas ag apelau.
82. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas ag apelau i Dribiwnlys Addysg Cymru, er enghraifft darpariaeth ynghylch gwneud apelau a phenderfynu arnynt, rhoi pwerau pellach i'r Tribiwnlys wrth benderfynu ar apêl, ac ar gyfer apelau heb wrthwynebiad.
83. Mae'r adran hon yn darparu y gall y rheini sy'n methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gofyniad (pan fo'r gofyniad wedi ei osod gan reoliadau) i ddatgelu dogfennau neu fod yn bresennol mewn tribiwnlys i roi tystiolaeth fod yn euog o drosedd y mae modd ei chosbi drwy ddirwy.

Adran 41 - Y weithdrefn ar apelau

84. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch cychwyn apêl a thrafodion Tribiwnlys Addysg Cymru o dan y Bil drafft hwn. Mae'r adran hon yn rhestru'r darpariaethau y caniateir i reoliadau gael eu gwneud ar eu cyfer ac yn nodi bod rhaid i drafodion gerbron y Tribiwnlys gael eu cynnal yn breifat, ac eithrio o dan amgylchiadau rhagnodedig.

Adran 42 - Cydymffurfedd â gorchmynion

85. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol, os yw Tribiwnlys Addysg Cymru yn gwneud Gorchmyn, fod rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r Gorchmyn cyn diwedd y cyfnod a ragnodir mewn rheoliadau sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff ei wneud.

Adran 43 - Lwfansau am fod yn bresennol yn Nhribiwnlys Addysg Cymru

86. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i dalu lwfansau mewn perthynas â bod yn bresennol yn Nhribiwnlys Addysg Cymru.

Adran 44 - Apelau o Dribiwnlys Addysg Cymru i'r Uwch Dribiwnlys

87. Diben adran 44 yw caniatáu i barti i unrhyw drafodion ynghylch ADY gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n deillio o benderfyniad a wneir gan Dribiwnlys Addysg Cymru yn y trafodion hynny.

Atodol

Adran 45 - Dyletswydd i gadw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o dan adolygiad

88. Mae adran 45 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gadw o dan adolygiad y trefniadau a wneir ganddynt a chan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn eu hardal ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer diwallu ADY y plant a'r bobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt. Fel rhan o'u hystyriaethau, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a all gael ei drefnu'n rhesymol gan gyrff eraill (megis cyrff ieuchyd). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer ystyried ac adolygu eu trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, ac ar adegau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

Adran 46 - Cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol

89. Mae adran 46 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ddynodi aelod o staff yn gydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol i gydlyn darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Mae'r adran hon yn darparu y caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol bod y rhai sy'n ymgymryd â rôl Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol ar gyfer gwneud hynny. Mae hefyd yn caniatáu i reoliadau roi swyddogaethau i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn perthynas â'u rôl o ran cydlynu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.

Adran 47 - Swyddog meddygol neu glinigol dynodedig

90. Mae adran 47 yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol i ddynodi swyddog i gydlyn swyddogaethau'r Bwrdd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY. Rhaid i'r swyddog feddu ar gymwysterau a phrofiad addas o ran darparu gofal iechyd i blant a phobl ifanc ag ADY. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog fod naill ai'n ymarferydd meddygol cofrestredig (a elwir yn swyddog meddygol dynodedig), neu'n nyrs gofrestrdig neu weithiwr iechyd proffesiynol arall (a elwir yn swyddog clinigol dynodedig).

Adran 48 - Swyddogaethau cyrff iechyd i hysbysu rhieni etc.

91. Mae'r adran hon yn ymwneud â sefyllfaoedd pan fo corff iechyd yng Nghymru neu yn Lloegr yn arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol ac y mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdano (yn unol ag adran 55 sy'n nodi'r plant y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt). Pan fo'r corff iechyd yn ffurfio barn bod gan y plentyn (neu y mae'n debygol bod gan y plentyn) ADY, mae adran 48 yn darparu pŵer i'r corff iechyd i ddwyn ei farn i sylw'r awdurdod lleol priodol yng Nghymru sy'n gyfrifol am y plentyn, os yw'r corff iechyd wedi ei fodloni y byddai gwneud hynny er lles pennaf y plentyn.
92. Mae'r adran hon yn sicrhau bod rhiant y plentyn yn cael ei hysbysu am farn y corff iechyd ac am ei bŵer i hysbysu'r awdurdod lleol priodol, ac yn sicrhau bod y rhiant yn cael cyfle i drafod y farn hon â swyddog o'r corff iechyd, cyn i'r corff iechyd arfer ei bŵer a dwyn ei farn i sylw'r awdurdod lleol priodol.
93. Mae'r adran hon hefyd yn gosod dyletswydd ar y bwrdd iechyd i hysbysu'r rhiant am unrhyw sefydliadau gwirfoddol sy'n debygol, ym marn y bwrdd iechyd, o roi cyngor neu gymorth i'r rhiant mewn cysylltiad ag unrhyw ADY a all fod ar y plentyn.

Adran 49 - Dyletswyddau cyrff cyhoeddus penodol i ddarparu gwybodaeth a help arall

94. Bwriad adran 49 yw sicrhau, pan fydd awdurdodau lleol yn gofyn am wybodaeth neu gymorth gan gyrff cyhoeddus penodol (y cyfeirir atynt yn yr adran hon fel 'personau') er mwyn arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY, y cydymffurfir â'r ceisiadau hynny. Mae'r personau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon wedi eu rhestru yn yr adran hon.
95. Caiff person wrthod cydymffurfio â'r cais am help neu wybodaeth os yw'n ystyried bod gwneud hynny'n anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun neu'n cael effaith andwyol ar arfer swyddogaethau'r person. Fodd bynnag, os yw'r person yn penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o'r fath am help neu wybodaeth, rhaid iddo roi rhesymau ysgrifenedig dros wrthod y cais i'r awdurdod lleol.

96. Mae'r adran hon yn caniatáu i reoliadau nodi cyfnod rhagnodedig y mae rhaid i'r person gydymffurfio â chais ynddo, ac i eithriadau fod yn gymwys i'r cyfnod rhagnodedig hwn.

Adran 50 - Hawl awdurdod lleol i gael mynediad i fangreoedd ysgolion a sefydliadau eraill

97. Mae adran 50 yn sicrhau bod gan awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc hawl i fynd i mewn i fangre'r ysgol neu'r sefydliad arall yng Nghymru neu yn Lloegr lle y darperir addysg neu hyfforddiant i'r plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw. Dim ond pan fo'n angenrheidiol er mwyn i'r awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon o'r Bil drafft y mae'r hawl hon i fynd i mewn yn gymwys, a rhaid i hynny ddigwydd ar adeg resymol.
98. Mae'r sefydliadau y mae hawl gan awdurdod lleol i fynd i mewn iddynt wedi eu rhestru yn adran 50.

Adran 51 - Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol

99. Mae adran 51 yn caniatáu i reoliadau ddarparu i awdurdodau lleol gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i bersonau sy'n gwneud darpariaeth ddysgu ychwanegol neu sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil drafft hwn. Caiff hyn gynnwys rheoliadau ynghylch telerau ac amodau cyflenwi nwyddau a gwasanaethau o'r fath.

Adran 52 - Rheoliadau ynghylch datgelu a defnyddio gwybodaeth

100. Mae adran 52 yn caniatáu ar gyfer rheoliadau ynghylch sut y caniateir i wybodaeth a gesglir wrth lunio a chynnal CDU ac wrth arfer swyddogaethau eraill o dan Ran 2 (Anghenion dysgu ychwanegol) a Rhan 3 (Plant sy'n derbyn gofal a phersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth) gael ei defnyddio a'i datgelu. Gall hyn gynnwys rheoliadau ynghylch personau ychwanegol y mae rhaid iddynt gael copïau o gynlluniau datblygu unigol, ac achosion pan fo rhaid darparu copïau o'r cynlluniau heb gydsyniad y plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc.

Adran 53 - Rheini heb alluedd

101. Diben adran 53 yw galluogi i reoliadau gael eu gwneud er mwyn sicrhau bod gan rieni sydd heb alluedd ar adeg pan fo'n ofynnol iddynt wneud penderfyniad neu gyflwyno eu sylwadau, gynrychiolaeth gyfreithiol ddigonol a hynny gan berson priodol. Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at fod heb alluedd yn gyfeiriad at yr hyn sydd wedi ei ddiffinio yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005.

Cyffredinol

Adran 54 - Rhoi hysbysiad etc. o dan y Ddeddf hon

102. Pan fo'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol ddanfôn dogfen neu hysbysiad i berson, mae adran 54 yn rhestru'r dulliau danfon. Dim ond os yw person wedi nodi ei fod yn dymuno cael hysbysiadau neu ddogfennau yn electronig ac wedi darparu cyfeiriad addas y caiff hysbysiadau neu ddogfennau gael eu danfon yn electronig.

Adran 55 - Personau y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt

103. Mae adran 55 yn nodi, yn y Bil drafft hwn, fod cyfeiriad at blentyn neu berson ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdano yn gyfeiriad at blentyn neu berson ifanc sy'n preswyl fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw. Os nad oes gan blentyn neu berson ifanc breswylfa arferol ond ei fod yn preswyl yn ardal yr awdurdod lleol am y tro, yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol amdano at ddibenion y Bil drafft hwn. Mae'r adran hon yn galluogi rheoliadau i wneud darpariaethau pellach ynghylch plant a phobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt at ddibenion y Bil drafft hwn (er enghraifft, pan fo plentyn yn preswyl mewn mwy nag un man, neu yn blentyn sy'n derbyn gofal).

Rhan 3 – Plant sy'n derbyn gofal a phersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth

Plant sy'n derbyn gofal

Adran 56 - Rheoliadau ynghylch plant sy'n derbyn gofal a phersonau a fu gynt yn derbyn gofal

104. O dan adran 56, rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch plant a all fod ag ADY ac sy'n derbyn gofal, neu a fu gynt yn derbyn gofal, gan awdurdod lleol. Mae hefyd yn galluogi rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch y gefnogaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol i hybu cyflawniad addysgol a darpariaeth ddysgu ychwanegol plant sy'n derbyn gofal a phlant a fu gynt yn derbyn gofal.
105. Mae adran 56 yn galluogi rheoliadau o'r fath i ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddarpariaethau mewn deddfwriaeth arall.

Sail resymegol y polisi sy'n gefndir i'r ddarpariaeth a sut y gallai Llywodraeth Cymru geisio diwygio'r ddarpariaeth cyn cyflwyno Bil i'r Cynulliad

106. Byddai'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i greu, drwy reoliadau, system o gynllunio ar gyfer anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal sydd wedi ei dylunio er mwyn bod yn addas ar gyfer eu hamgylchiadau penodol iawn. Byddai hyn yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith ei bod yn debygol bod gan ganran uchel o blant o'r fath ADY a bod y mwyafrif o'r plant hynny yn ddysgwyr sy'n hyglwyf iawn. Y bwriad yw darparu ar gyfer cynllun addysgol sengl sy'n integreiddio'r Cynllun Addysgol Penodol â'r CDU i blant sy'n derbyn gofal.

107. Nid yw wedi bod yn bosibl ar y cam hwn osod darpariaethau manwl ar wyneb y Bil drafft sy'n galluogi i hyn ddigwydd oherwydd nad yw'r elfennau cysylltiedig o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi eu gweithredu eto. Unwaith bydd y ddeddfwriaeth hon wedi ei chwblhau bydd yn bosibl gwneud y darpariaethau manwl terfynol a'u cynnwys ar wyneb y Bil.

Personau sy'n cael eu cadw'n gaeth

Adran 57 - Ystyr "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" a thermau allweddol eraill

108. Mae adran 57 yn diffinio ystyr "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" fel plentyn neu berson ifanc sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw ac sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol. Mae hyn yn ymwneud â diffiniadau o'r termau "gorchymyn cadw" a "llety ieuenctid perthnasol" yn adran 562(1A) o Ddeddf 1996:
- mae "gorchymyn cadw" yn orchymyn a wneir gan lys, neu yn orchymyn adalw a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol;
 - ystyr "llety ieuenctid perthnasol" yw llety cadw ieuenctid (o fewn yr ystyr a roddir i "youth detention accommodation" gan adran 107(1) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000), ac nid yw'n sefydliad i droseddwyr ifanc, neu'n rhan o sefydliad o'r fath, sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer cadw personau sy'n 18 oed neu'n hŷn yn gaeth.
109. Mae'r adran hon hefyd yn diffinio termau allweddol cysylltiedig eraill a ddefnyddir yn y Rhan hon o'r Bil drafft gan gynnwys "dechrau'r cyfnod o gadw person yn gaeth" ac "awdurdod cartref". Yn ogystal, mae'n caniatáu i reoliadau gael eu gwneud sy'n cymhwyso gydag addasiadau y diffiniad o "awdurdod cartref".

Adran 58 - Llunio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth

110. Diben adran 58 yw sicrhau pan nodir fod ar blentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY, neu y gall fod arno ADY, ac nad oes CDU yn cael ei gadw ar ei gyfer o dan adran 60 fod rhaid i'w awdurdod lleol cartref benderfynu a oes gan y plentyn neu berson ifanc ADY. Os yw'r awdurdod lleol cartref yn penderfynu bod gan y plentyn neu berson ifanc ADY, rhaid iddo benderfynu a oes angen cynnal CDU ar gyfer y plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw pan fydd yn cael ei ryddhau.
111. Er mwyn gwneud y penderfyniad hwn, mae dyletswydd wedi ei gosod ar yr awdurdod cartref i wahodd y person a chanddo ofal am y llety ieuenctid perthnasol i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad ac, os oes angen, i fod yn rhan o'r gwaith o lunio CDU. Rhaid rhoi copi o'r CDU i'r plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth a'i riant, neu'r person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth, a'r person a chanddo ofal am y llety ieuenctid perthnasol.

112. Rhaid i'r awdurdod cartref hysbysu'r plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth a'i riant, neu'r person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth, a'r person a chanddo ofal am y llety ieuencid perthnasol, os yw'n penderfynu nad oes gan y plentyn ifanc neu'r person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY neu'n penderfynu na fyddai cynnal CDU yn angenrheidiol pan fydd yn cael ei ryddhau. Rhaid i'r awdurdod cartref ddarparu esboniad o'r rhesymau dros ei benderfyniad.

Adran 59 - Amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd yn adran 58 yn gymwys

113. Mae adran 59 yn nodi'r eithriadau i'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol yn adran 58 mewn perthynas â llunio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae'n nodi nad yw'r dyletswyddau hyn yn gymwys os nad yw person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud. Nid yw'r dyletswyddau hyn gymwys ychwaith os yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu o'r blaen nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY a'i fod wedi ei fodloni nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud ac nad oes gwybodaeth newydd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.

Adran 60 - Dyletswydd i gadw cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth

114. Os oes gan blentyn neu berson ifanc CDU yn union cyn iddo gael ei gadw'n gaeth, neu fod un yn cael ei lunio gan yr awdurdod lleol cartref yn ystod y cyfnod o gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn gaeth yn barod ar gyfer ei ryddhau (o dan adran 58), mae adran 60 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol cartref i gadw'r CDU tra bo'r person yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuencid perthnasol, a threfnu i ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu iddo tra bo'n cael ei gadw'n gaeth. Darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU, neu os nad yw hynny'n ymarferol, darpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cyfateb iddi, neu ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r awdurdod cartref yn ystyried ei bod yn briodol.
115. Bydd dyletswydd corff llywodraethu ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol i gynnal y CDU o dan adran 9, 10, 12 neu 19 yn peidio â bod o ddechrau'r cyfnod o gadw'r person yn gaeth.
116. Ni fydd awdurdod cartref ond yn gyfrifol am gadw CDU o dan adran 60 unwaith y dygir y ffaith bod CDU yn cael ei gynnal gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach i sylw'r awdurdod cartref.
117. Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth a'i riant, neu'r person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth a'r person a chanddo ofal am y llety ieuencid perthnasol yn ysgrifenedig os oes CDU o'r fath yn cael ei gadw.

Adran 61 - Rhyddhau person sy'n cael ei gadw'n gaeth

118. Mae adran 61 yn sicrhau y bydd yr awdurdod lleol yn cynnal y cynllun pan fydd plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth yn cael ei ryddhau a phan fydd awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y person ar y dyddiad rhyddhau (yn unol ag adran 55).

Adran 62 - Apelau

119. Mae adran 62 yn rhestru'r materion y caiff plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth a'i riant neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn eu herbyn. Mae hefyd yn rhestru pwerau'r Tribiwnlys Addysg mewn perthynas ag apêl o'r fath.
120. Gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch apelau, yn enwedig mewn perthynas â gwneud apelau a phenderfynu arnynt, rhoi pwerau pellach i'r Tribiwnlys wrth benderfynu ar apêl; ac apelau heb wrthwynebiad.
121. Mae adran 62 yn darparu bod y rheini sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw ofynion mewn perthynas â dogfennau neu dystiolaeth ar gyfer y Tribiwnlys yn euog o drosedd y mae modd ei chosbi drwy ddirwy.

Rhan 4 – Tribiwnlys Addysg Cymru

Adran 63 - Cyfansoddi Tribiwnlys Addysg Cymru

122. Mae adran 63 yn darparu i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gael ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru ("y Tribiwnlys"). Mae'r adran hon yn nodi sut y mae rhaid ei gyfansoddi, gan gynnwys bod rhaid iddo gael Llywydd, 'panel cadeirydd cyfreithiol' a 'panel lleyg' ac mae'n darparu ar gyfer eu priod benodiadau. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â'r Tribiwnlys.

Adran 64 - Y Llywydd ac aelodau'r paneli

123. Mae adran 64 yn nodi'r telerau a'r gofynion y caniateir i berson gael ei benodi a'i ailbenodi odanynt neu y caiff ymddiswyddo fel Llywydd, aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol neu aelod lleyg o'r Tribiwnlys odanynt. Mae'n darparu ar gyfer yr amgylchiadau pan gaiff yr Arglwydd Ganghellor (gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus) ddirymu penodiad y Llywydd. Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â gofynion penodi aelodau'r panel lleyg.

Adran 65 - Tâl a threuliau

124. Mae adran 65 yn galluogi Gweinidogion Cymru i dalu am wasanaethau'r Llywydd, aelodau'r panel cadeirydd cyfreithiol ac aelodau'r panel lleyg, a threuliau'r Tribiwnlys.

Rhan 5 – Cyffredinol

Adran 66 - Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.

125. Mae adran 66 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, darfodol, trosiannol neu arbed er rhoi effaith i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil drafft hwn. Wrth wneud hyn, mae Gweinidogion Cymru yn cael eu galluogi i wneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddarpariaethau mewn deddfwriaeth arall.

Adran 67 - Rheoliadau

126. Mae adran 67 yn nodi bod pwerau i wneud rheoliadau o dan y Bil drafft hwn i gael eu harfer drwy offeryn statudol. Mae'n caniatáu i'r rheoliadau hynny wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer achosion gwahanol; a gwneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, darfodol, trosiannol neu arbed. Mae'r adran hon yn rhestru'r rheoliadau yn y Bil drafft y mae rhaid iddynt gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u cymeradwyo drwy benderfyniad ganddo er mwyn iddynt gael eu gwneud.

Adran 68 - Dehongli cyffredinol

127. Mae adran 68 yn darparu dehongliadau a diffiniadau o dermau a chyfeiriadau a ddefnyddir yn y Bil drafft cyfan.

Adran 69 - Dod i rym

128. Mae adran 69 yn galluogi i nifer o adrannau ddod i rym pan yw'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol; rhestrir yr adrannau hyn yn yr adran hon. Mae'n darparu i'r darpariaethau sy'n weddill yn y Bil drafft ddod i rym mewn Gorchymyn gan Weinidogion Cymru, sy'n arferadwy drwy offeryn statudol, a gaiff bennu dyddiau gwahanol at ddibenion gwahanol; a gwneud darpariaethau darfodol, trosiannol neu arbed ynghylch y dyddiau y mae'r darpariaethau yn dod i rym.

Adran 70 - Enw byr a chynnwys y Ddeddf yn y rhestr o Ddeddfau Addysg

129. Enw byr y Bil drafft pan ddaw yn Ddeddf fydd 'Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2016'. Bydd yn cael ei chynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf 1996.